



**ADRODDIAD**  
**BLYNYDDOL**  
**2019/20**

## Cynnwys

		<b>Tudalen</b>
<b>1.</b>	<b>Rhagair</b>	1-2
<b>2.</b>	<b>Strwythur Rheoli</b>	3
<b>3.</b>	<b>Adroddiad Blynyddol Bwrdd Pensiwn Gwynedd</b>	4-6
<b>4.</b>	<b>Ystadegaeth Aelodau</b>	7
<b>5.</b>	<b>Gweinyddiaeth Pensiynau</b>	
	5.1 Adolygiad o'r Flwyddyn	8-16
	5.2 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	16-19
<b>6.</b>	<b>Buddsoddiadau</b>	
	6.1 Sefyllfa Diwedd Flwyddyn	20-21
	6.2 Perfformiad Buddsoddi	21-23
	6.3 Trefniadau Gweinyddol a Chadw	23-24
	6.4 Pwerau Buddsoddi	24
	6.5 Rheoli Buddsoddiadau	24-25
	6.6 Cydweithio Cronfeydd Pensiwn Cymru	25-28
<b>7.</b>	<b>Rheolaeth a Perfformiad Ariannol</b>	
	7.1 Rheoli Risg	29
	7.2 Datganiad Strategaeth Buddsoddi	29
	7.3 Datganiad Strategaeth Cyllido	29-30
	7.4 Perfformiad Ariannol	30-31
	7.5 Safon Cyfrifeg Ryngwladol 19 (SCR19) a Safon Adrodd Ariannol 17 (SAA17)	31-32
	7.6 Cyfrifon Terfynol 2019/20	32
	7.7 Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth	32
	7.8 Uned Buddsoddi	32
<b>8.</b>	<b>Adroddiad Actiwaraid</b>	33-35
<b>9.</b>	<b>Y Cyfrifon</b>	
	9.1 Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad o'r Cyfrifon	36
	9.2 Datganiad o'r Gyfrifon 2019/20	37-38
	9.3 Nodiadau i'r Cyfrifon 2019/20	39-73
<b>10.</b>	<b>Atodiadau</b>	
	10.1 Datganiad Strategaeth Cyllido	74-116
	10.2 Datganiad Strategaeth Buddsoddi	117-126
	10.3 Datganiad Polisi Cyfathrebu	127-135
	10.4 Datganiad Polisi Llywodraethu	136-137
	10.5 Datganiad Cydymffurfio Llywodraethu	138-142

## I. Rhagair

Croeso i'r adroddiad blynyddol ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd am y flwyddyn ariannol ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020. Rydym wedi dod drwy flwyddyn heriol, gyda'r Gronfa yn llwyddo i gyflawni dychweliadau cadarnhaol eto yn 2019/20, ond bod effaith COVID-19 i'w weld ar werth y Gronfa ar 31 Mawrth 2020.

Derbyniwyd canlyniadau gwych o'r prisiad actiwaraid teirblynyddol 2019, gyda'r Gronfa wedi'i ariannu i lefel o 108% ar 31 Mawrth 2019 (cynnydd sylweddol o'r sefyllfa lle roedd wedi'i ariannu 91% yn y prisiad teirblynyddol 2016). Er bod sefyllfa pob cyflogwr unigol yn ein Cronfa yn wahanol, yn gyffredinol mae cryfder y Gronfa wedi caniatáu i ni gymryd agwedd hyblyg tuag at gyfraddau cyfrannu cyflogwyr sydd yn effeithiol ers Ebrill 2020. Mae hyn wedi bod yn gymorth calonogol i lawer o brif gyflogwyr is-ranbarth gogledd-gorllewin Cymru, o ystyried y pwysau parhaus ar gyllidebau cyrff cyhoeddus a sefydliadau gwirfoddol yn derbyn lefel is o grantiau penodol.

Mae Cronfa Gwynedd wedi parhau i gydweithio'n agos gyda'r saith cronfa arall yng Nghymru er mwyn pŵlio buddsoddiadau. Mae swmp o asedau ecwiti byd-eang y Gronfa eisoes wedi ei drosglwyddo i 2 bortffolio ecwiti Partneriaeth Pensiwn Cymru yn Chwefror 2019, yn ogystal â'r mandad ar y cyd gyda BlackRock ar gyfer buddsoddiadau ecwiti goddefol yr wyth cronfa Cymreig. Erbyn 31 Mawrth 2020, roedd 60% o asedau'r Gronfa mewn cerbydau'r Bartneriaeth, a dylai hynny wella gwydnwch ein Cronfa, tra'n dal i gadw perchnogaeth a chyfrifoldeb am fuddsoddiadau Gwynedd. Yn ystod haf 2020, rydym hefyd wedi trosglwyddo asedau i gronfeydd incwm sefydlog Partneriaeth Pensiwn Cymru, gyda'r cronfeydd ecwiti marchnadoedd datblygol i ddilyn nesaf yn haf 2021.

Wedi adolygu strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn 2018/19, gweithredwyd dad-risgio cymedrol trwy drosglwyddo cyfran o'r asedau ecwiti i incwm sefydlog, er rydym yn parhau i ganolbwyntio ar asedau twf disgwylir iddynt ennill dychweliadau mwy deniadol dros y tymor hwy na buddsoddiadau risg is.

Hefyd, yn unol â'r egwyddorion buddsoddi cyfrifol datblygwyd yn 2018/19, tra'n ystyried ffactorau amgylcheddol, buddsoddwyd 12% o werth y gronfa bensiwn mewn asedau ecwiti goddefol mwy cynaliadwy yng nghronfa carbon isel BlackRock. Mae'r gronfa yma'n lleihau amlygiad i gwmnïau yn y Mynegai Byd-eang safonol sy'n allyrru carbon. Drwy olrhain y Mynegai Carbon Isel MSCI, o'i gymharu ag olrhain y mynegai safonol, bydd y gronfa yma'n lleihau'r amlygiad carbon hyd at 80%.

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn arwain o'r blaen wrth wneud beth bynnag y gallwn ni i sicrhau ein bod yn gweithredu'n gyfrifol rŵan, ac yn ystyried yr effaith y bydd ein gweithredoedd yn eu cael ar genedlaethau'r dyfodol. Mae camau pellach tuag at fuddsoddi cyfrifol o ran ystyriaeth o ffactorau amgylcheddol dan sylw yn 2020/21.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth bellach am berfformiad buddsoddi, ac ar weithgareddau a rheolaeth y Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn. Rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am eich Cronfa Bensiwn. Fodd bynnag, mae'n bwysig i ni geisio gwella ansawdd ac addasrwydd yr wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad, felly croesewir adborth. Am ragor o wybodaeth am Gronfa Bensiwn Gwynedd, neu er mwyn rhoi eich barn ar yr adroddiad hwn, darperir manylion cyswllt swyddogion perthnasol yn yr adroddiad.

Mae staff y Gronfa wedi parhau i sicrhau ein bod yn darparu lefel uchel o wasanaeth yn 2019/20. Bu camau breision i ddatblygu dulliau electronig o weithio, gyda chyflogwyr yn gynyddol ddefnyddio'r rhyngwyneb systemol i-Connect i rannu data, ac aelodau'r cynllun yn gynyddol ddefnyddio'r arweiniad a gwybodaeth rhyngweithiol ar wefan y Gronfa Bensiwn.

Hoffwn ddiolch i staff gweinyddu pensiynau Gwynedd, a'u cydweithwyr yn y tîm buddsoddiadau am eu gwaith caled dros y flwyddyn ddiwethaf, a parhad y gwasanaeth yn ystod y misoedd diweddar pryd mae pob un ohonom ni wedi gweithio o gartref.

Ar 14 Hydref 2020, etholwyd y Cynghorydd Peredur Jenkins fel Cadeirydd newydd y Pwyllgor Pensiynau ar gyfer 2020/21, ac mae ef eisoes wedi cychwyn ar ei waith gydag egni newydd. Hoffwn ddiolch i'r Cynghorydd John Pughe Roberts am ei wasanaeth ffyddlon yn cadeirio'r Pwyllgor Pensiynau am y 2 flynedd diwethaf. Gall y cyn-Gadeirydd edrych yn ôl ar gyfnod datblygol a llewyrchus i'r Gronfa, pryd roedd ef yn ddylanwadol ar ran Gwynedd fel aelod o Gydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Rwy'n gobeithio bydd yr adroddiad canlynol yn ddefnyddiol i chi. Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth chi yn ystod 2019/20, ac edrychaf ymlaen at barhau â'n perthynas waith adeiladol yn 2020/21.



**Cynghorydd Peredur Jenkins**  
**Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau**



**Dafydd L Edwards**  
**Pennaeth Cyllid**

## 2. Strwythur Rheoli

### Awdurdod Gweinyddu

Cyngor Gwynedd

### Pwyllgor Pensiynau

Y Cyngorydd John Pughe Roberts (Cadeirydd)

Y Cyngorydd Peredur Jenkins (Is-gadeirydd)

Y Cyngorydd Stephen Churchman

Y Cyngorydd Simon Glyn (nes 02/05/2019)

Y Cyngorydd John Brynmor Hughes

Y Cyngorydd Aled Wyn Jones

Y Cyngorydd Peter Read

Y Cyngorydd Ioan Thomas

Y Cyngorydd Robin Wyn Williams (Aelod Cyfetholedig)

Y Diweddar Cyngorydd David Cowans (Aelod Cyfetholedig)

### Bwrdd Pensiynau

#### Cynrychiolwyr Cyflogwyr

Mr Anthony Deakin (Cartrefi Conwy) (nes 08/08/2019)

Mr Huw Trainor (Heddlu Gogledd Cymru)

Y Cyngorydd Aled Lloyd Evans (Cyngor Gwynedd)

Mrs Sioned Parry (Cyngor Conwy)

#### Cynrychiolwyr Aelodau

Mr Osian Richards

Mrs Sharon Warnes

Mr H. Eifion Jones

#### Pennaeth Cyllid ("Swyddog Adran 151")

Mr Dafydd L. Edwards

#### Ymgynghorydd

Mr Paul Potter (Hymans Robertson)

#### Rheolwyr Cronfa

BlackRock

Fidelity International

Insight Investment

Lothbury

Partners Group

Threadneedle

UBS Global Asset Management Cyf.

**Gwefan:** [www.cronfabensiwnwynedd.cymru](http://www.cronfabensiwnwynedd.cymru)

#### Darparwyr Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVC)

Clerical Medical, Utmost Life a Standard Life

#### Pwl

Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC)

#### Gweithredwr Pwl

Link Fund Solutions Ltd

#### Ceidwad

Northern Trust

#### Actiwari

Hymans Robertson

#### Banc

Barclays Bank plc

#### Archwilwyr

Swyddfa Archwilio Cymru

#### Manylion Cyswllt

Gellir holi ymhellach a derbyn gwybodaeth fanylach ynglyn â:

- gweithrediad Cynllun Pensiwn Gwynedd trwy gysylltu â:

Mr Meirion Jones,  
Rheolwr Pensiynau,  
Cyngor Gwynedd,  
Swyddfa'r Cyngor,  
Caernarfon,  
Gwynedd. LL55 1SH

☎ 01286 679643

✉ [meirionjones2@gwynedd.llyw.cymru](mailto:meirionjones2@gwynedd.llyw.cymru)

- gweithgareddau buddsoddi a chyfrifeg y Gronfa trwy gysylltu â:

Mrs Delyth Jones-Thomas,  
Rheolwr Buddsoddi,  
Cyngor Gwynedd,  
Swyddfa'r Cyngor,  
Caernarfon,  
Gwynedd. LL55 1SH

☎ 01286 679128



[delythwynjonesthomas@gwynedd.llyw.cymru](mailto:delythwynjonesthomas@gwynedd.llyw.cymru)

### **3. Adroddiad Blynyddol Bwrdd Pensiwn Gwynedd ar gyfer 2019/20 (y flwyddyn at 31 Mawrth 2020)**

#### **Cefndir / Cyfansoddiad**

Cyfansoddwyd y Bwrdd o dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 13 Gorffennaf 2015. Mae'r aelodaeth yn cynnwys tri aelod sydd yn cynrychioli cyflogwyr y cynllun a thri aelod sydd yn cynrychioli aelodau'r cynllun (sef staff sy'n cyfrannu tuag at bensiwn a rhai sydd wedi ymddeol ac yn derbyn pensiwn).

Dros y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, mae'r Bwrdd wedi cwrdd pedair gwaith. Mae aelodau'r Bwrdd yn cael gwahoddiad fel arsylwyr i gyfarfodydd y Pwyllgor Pensiynau, ac wedi cytuno cymryd y rôl hon yn eu tro er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth yn ogystal â chyfathrebu. Mae'r trefniant hon yn gytbwys gyda Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau rŵan yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd, lle bu'n atebol, gyda swyddogion am lywodraethu a gweinyddu'r Gronfa. Ar adegau, mae'r Bwrdd wedi gofyn i'w farn ac argymhellion gael eu cyflwyno'n swyddogol am ystyriaeth gan y Pwyllgor.

Yn ystod y flwyddyn, ymddeolodd Anthony Deakin o'r Bwrdd ac ymunodd Sioned Parry fel aelod newydd. Fel y Bwrdd, hoffem ddiolch i Anthony am ei waith caled a dymuno'n dda iddo yn ei ymddeoliad. Hoffem hefyd groesawu Sioned i'r Bwrdd a gobeithio y bydd hi'n gweld yr her a'r gwaith yn werthfawr ac yn ddiddorol fel gweddill y Bwrdd.

#### **Swyddogaeth y Bwrdd**

Yn unol â'r ddeddfwriaeth, dau brif swyddogaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol yw cynorthwyo'r awdurdod gweinyddol (Cyngor Gwynedd) i:

- i. sicrhau llywodraethu a gweinyddiaeth effeithiol ac effeithlon o'r C.P.L.L., a
- ii. sicrhau cydymffurfiaid gyda'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol.

Felly, corff monitro, adolygu a chynorthwyo yw'r Bwrdd, nid corff sydd yn rheoli a gwneud penderfyniadau.

Mae'r Bwrdd yn gweithredu o dan Gyloch Gorchwyl a gytunwyd gan Cyngor Gwynedd (mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn ar y 5<sup>ed</sup> o Fawrth 2015).

Mae'n derbyn cefnogaeth gan Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu'r Cyngor ac mae adroddiadau yn cael eu paratoi a'u cyflwyno gan swyddogion yn cynnwys y Pennaeth Cyllid, Rheolwr Buddsoddi, Rheolwr Pensiynau, ac Arweinydd Tîm Cyfathrebu a Systemau y Gronfa.

#### **Gwaith y Bwrdd**

Unwaith eto mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn flwyddyn brysur i staff uwch yr Awdurdod Gweinyddol gyda'r prisiad teirblynyddol yn cael ei gynnal a'r prosiect pŵlio buddsoddiadau yn parhau. Felly, roedd aelodau'r Bwrdd yn ymwybodol o'r angen i flaenoriaethu ceisiadau i swyddogion baratoi adroddiadau ar gyfer y Bwrdd.

## Presenoldeb

	17/04/2019	24/09/2019	10/12/2019	03/03/2020
<b>Anthony Deakin</b>	✓			
<b>Cynghorydd Aled Evans</b>	✓	✓		✓
<b>H. Eifion Jones</b>	✓	✓	✓	✓
<b>Osian Richards</b>		✓	✓	✓
<b>Huw Trainor</b>	✓		✓	✓
<b>Sharon Warnes</b>		✓	✓	✓
<b>Sioned Evans Parry</b>				✓

## Cynllun Gwaith

Yn unol â'r cynllun gwaith a gytnwyd yn y flwyddyn flaenorol, rhoddwyd sylw i adroddiadau ar y materion canlynol:

- Prisiad teirblynyddol gan gynnwys tybiaethau
- Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a Strategaeth Buddsoddi Blynyddol
- Buddsoddi Cyfrifol gan gynnwys ecwiti carbon isel
- Diweddariad i'r Gofrestr Risg
- Cyfathrebu- gyda chyflogwyr ac aelodau, yn enwedig aelodau ifanc
- Perfformiad buddsoddi'r Gronfa Bensiwn
- Gweinyddiaeth Pensiwn
- System Hunan Wasanaeth Aelodau
- Partneriaeth Pensiwn Cymru

Yn ystod trafodaethau, rhoddwyd mewnbwn a cyflwynwyd nifer o sylwadau gan aelodau'r Bwrdd sydd wedi cynorthwyo swyddogion yr awdurdod gweinyddol i gwblhau eu gwaith.

Hefyd, mynychodd aelodau'r Bwrdd gyfarfod blynyddol y Gronfa ym mis Medi 2019, a nodwyd y bu perfformiad hynod foddhaol, o'i gymharu â chronfeydd C.P.L.L.L. eraill.

Cwblhaodd y Bwrdd arolwg trefn lywodraethol gwasanaeth cyhoeddus y Rheolydd Pensiynau. Roedd yr arolwg yn gymysgedd o gwestiynau ffeithiol ac arolwg barn. Yn dilyn trafodaeth rhwng aelodau'r Bwrdd, cyflwynwyd yr arolwg i'r Rheolydd o fewn y terfyn amser penodol. Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y materion canlynol fel rhai oedd angen sylw:

- Trefniadau olyniaeth o ran staffio;
- Y 5 mater risg uchaf ar y gofrestr risg;
- Datblygu trefniadau cosbi cyflogwyr a oedd yn parhau i greu gwaith ychwanegol.

Mae'r cynllun gwaith ar gyfer 2020/21 yn cynnwys:

- Diweddariad i'r Gofrestr Risg
- Diweddariad Cyffredinol am Weinyddiaeth Pensiynau
- System newydd Hunan Wasanaeth Aelodau
- Diweddariad am Bartneriaeth Pensiwn Cymru
- Diweddariad am berfformiad buddsoddi Cronfa Bensiwn Gwynedd

### **Hyfforddiant**

Yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd cafodd pob aelod o'r Bwrdd fanylion am y C.P.L.I.L. a'i weinyddiaeth yng Ngwynedd mewn cyflwyniadau amrywiol gan y Pennaeth Cyllid, Rheolwr Buddsoddi, Rheolwr Pensiynau, ac Arweinydd Tîm Cyfathrebu a Systemau y Gronfa.

Mae aelodau'r Bwrdd hefyd wedi mynychu nifer o gyfarfodydd a cyflwyniadau. Mae'r rhain yn cynnwys:

Cynhadledd Flynyddol Buddsoddi Ewrop *Responsible Investor*  
Digwyddiad Blynyddol CPLIL i Aelodau Byrddau Pensiwn Lleol  
Seminar Hydref Aelodau CPLIL yng Nghaerdydd  
Cynhadledd LAPFF yn Bournemouth  
Cynhadledd Llywodraethu'r CPLIL yn Efrog  
Seminar Fuddsoddi LGC ym Marc Carden

### **Diolch**


Mae'r Cadeirydd yn dymuno diolch i'w gyd-aelodau ar y Bwrdd, sydd wedi gwirfoddoli eu hamser i'r swyddogaethau, ac i'r swyddogion perthnasol am eu cefnogaeth. Hoffai'r Bwrdd ddiolch hefyd i'r swyddogion Caroline Roberts a Nicholas Hopkins a ymddeolodd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a llongyfarch eu holynwyr Delyth Jones-Thomas a Meirion Jones.

**Osian Richards**  
**Cadeirydd**



## 4. Ystadegau Aelodaeth

Mae'r graff isod yn dangos y newid yn aelodaeth y Gronfa dros yr 19 mlynedd ddiwethaf. Mae'n dangos bod nifer y pensiyntwyr wedi cynyddu yn raddol o 4,931 yn 2001 i 10,308 yn 2020 ac mae nifer y cyfranwyr hefyd wedi cynyddu o 10,948 yn 2001 i 19,129 yn 2020.



Ceir niferoedd pellach am bensiynwyr gohiriedig a buddion heb eu hawlio yn y tabl isod:

31 Mawrth 2019	Disgrifiad	31 Mawrth 2020
18,544	Cyfranwyr	19,129
11,793	Pensiynwyr Gohiriedig	12,464
9,777	Pensiynau a Delir	10,308
1,671	Buddion heb eu hawlio	1,803
<b>41,785</b>	<b>Cyfanswm Aelodaeth</b>	<b>43,704</b>

## **5. Gweinyddiaeth Pensiynau**

### **5.1 Adolygiad o'r Flwyddyn**

#### **Cyflwyniad**

Mae 2019/20 wedi bod yn flwyddyn brysur arall ar gyfer yr adran Bensiynau. Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg cyffredinol o weinyddu pensiwn dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y gwaith a gyflawnwyd dros y cyfnod a diweddariad ar wahanol brosiectau a grybwyllwyd yn flaenorol.

#### **Rheoli Perfformiad**

Mae'r Gronfa Bensiwn yn ymroddedig i wella ei ddarpariaeth o wasanaeth a bydd yn adolygu'r mesurau sydd mewn lle i fonitro perfformiad yn flynyddol er mwyn adnabod lle y gellir gwneud gwelliannau. Ble mae meysydd o berfformiad gwael yn cael eu nodi, bydd yr Adran Bensiynau yn adolygu'r rhesymau dros berfformiad gwael a rhoi prosesau priodol ar waith i wella lefel y gwasanaeth a ddarperir yn y dyfodol. Dyma berfformiad dyletswyddau craidd yr adran ar gyfer 2019/20 i gymharu â 2018/19:

Cyf.	Gweithgareddau Craidd	Perfformiad yn 2018/2019		Perfformiad yn 2019/2020	
		Nifer yr achosion	Diwrnodau ar gyfartaledd a gymerwyd	Nifer yr achosion	Diwrnodau ar gyfartaledd a gymerwyd
CD9.01	Nifer y dyddiau gwaith ar gyfartaledd a gymerir i anfon llythyr dyfynbris yn cynnig trosglwyddiad i mewn	217	11.8	214	13.9
CD9.02	Nifer y diwrnodau gwaith ar gyfartaledd a gymerir i anfon llythyr dyfynbris yn rhoi manylion trosglwyddiad allan	64	11.9	94	5.2
CD9.03	Nifer y diwrnodau gwaith ar gyfartaledd a gymerir i anfon llythyr yn rhoi gwybod am werth y buddion – amcangyfrifon	1,876	4.2	1,974	3.4
CD9.04	Nifer y diwrnodau gwaith ar gyfartaledd a gymerir i anfon llythyr yn rhoi gwybod am werth y buddion – gwir werth	766	1.7	800	1.4
CD9.05	Cyfartaledd nifer o ddiwrnodau a gymerwyd i gydnabod marwolaeth aelod actif / gohiriedig /pensiynwyr	17	3.4	30	6.6
CD9.06	Cyfartaledd nifer o ddiwrnodau gwaith a gymerwyd i hysbysu gwerth buddion dibynyddion	205	7.7	296	6.9
CD9.07	Prosesu a thalu Pensiynau misol ar amser (ffigwr yn seiliedig ar nifer o daliadau ym Mis 12 bob blwyddyn)	10,312	100%	10,806	100%
CD9.08	Nifer yr achosion lle roedd angen taliadau diwygiedig o ganlyniad i gamgymeriad yn yr adran	0	n/a	0	n/a

Fel y gwelir, ar y cyfan, mae perfformiad yr adran wedi gwella. Byddem yn gweithio i wella'r perfformiad yn ystod 2020/21, gan drio sicrhau ein bod yn gwella perfformiad CD9.01 ac CD9.05.


### **Arolwg Boddhad Aelodau**

Er mwyn sicrhau ein bod yn cynnig y gwasanaeth gorau posibl i'n haelodau, mae Arolwg Boddhad Aelodau yn cael ei anfon ar ddiwedd pob proses, e.e. ymddeoliadau a thalu ad-daliadau i'r aelodau roi eu barn ar ansawdd y gwasanaeth a dderbyniwyd a'u barn am y gwasanaeth a ddarperir gan staff yr adran.

Dyma grynodedb o ganlyniadau 2019/20:

### Ansawdd Gwasanaeth


Mae'r graff isod yn dangos canran y defnyddwyr sy'n fodlon gyda phedwar agwedd o berfformiad y gwasanaeth ar sail: i) Gwasanaeth ar y cyfan; ii) gwybodaeth glir; iii) Ansawdd y gwasanaeth; iv) Amser i ddelio gyda'r ymholiad.



Fel y gwelir, mae 98.25% o'r defnyddwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod ansawdd y gwasanaeth a ddarperir o safon uchel.

### Staff

Mae'r graff isod yn dangos canran y defnyddwyr sy'n fodlon gyda phedwar agwedd o berfformiad staff ar sail: i) Cwrteisi; ii) Prydlondeb; iii) Cymorth a roddwyd; iv) lefel gwybodaeth.



Fel y gwelir, mae canran uchel unwaith eto (98.16) o'r defnyddwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod ansawdd y gwasanaeth a ddarperir o safon uchel mewn perthynas staff yr adran.

## **Cwynion**

Yn ffodus mae'r nifer o gwynion a dderbyniwyd yn isel iawn gyda'r arolwg boddhad aelodau yn dangos bod mwyafrif o aelodau yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r rhan fwyaf o gwynion yn ymwneud ag aelodau sydd wedi cael eu gwrthod am fuddion ymddeoliad salwch, aelodau sydd eisiau ad-daliad o gyfraniadau pensiwn yn dilyn pensiwn yn cael ei diddymu o'u cyflog gan y cyflogwr, ac oediad i brosesu buddion ymddeol gan ein bod heb dderbyn y wybodaeth gan y cyflogwr. Mae'r cwynion uchod fel rheol allan o reolaeth yr adran bensiynau, ac fel arfer rydym yn cyfeirio'r aelod yn ôl at eu cyflogwr.

Mae cwynion sy'n deillio o berfformiad yr adran bensiynau ei hun yn cynnwys oediad (yn farn aelodau) i brosesu eu buddion ymddeol neu ad-daliadau o gyfraniadau pensiwn, camgymeriad teipio mewn llythyrau a anfonwyd allan a manylion Taliadau BACS pensiynwyr heb ei newid gan fod y gyflogres wedi cau. Rydym yn cywiro unrhyw wallau cyn gynted â phosibl a cheisio newid ein prosesau, os yn briodol, i osgoi'r un camgymeriad ddigwydd eto.

## **System Hunan Wasanaeth Aelodau**


Yn ystod 2019/20 mae gwaith wedi cymryd lle i uwchraddio'r wefan Hunan Wasanaeth Aelodau (HWA). Y gobaith oedd lansio'r safle newydd erbyn diwedd 2019. Yn anffodus, oherwydd materion technol amrywiol, ni oedd hyn yn bosibl. Fodd bynnag, fe lanswyd y safle ddiwedd mis Ionawr 2020.

Mae'r wefan newydd yn rhoi gwell profiad ar-lein i'n haelodau, gyda rhyngwyneb sy'n edrych mwy deniadol ac yn haws i'w ddefnyddio. Mae'r system HWA yn caniatáu i aelodau:

- Gweld a diweddarau manylion personol a newidiadau cyfeiriad
- Darganfod faint y byddant yn ei dderbyn wrth ymddeol
- Cyfrifo'r swm y lwmp swm ychwanegol y gallant ei gymryd wrth ymddeol
- Gweld hanes eu gwasanaeth, gan gynnwys unrhyw wasanaeth wedi ei drosglwyddo
- Gweld a diweddarau eu buddiolwyr enwebedig
- Gweld eu Datganiadau Buddion Blynyddol

Roedd bwriad ar ddiwedd y flwyddyn dreth i lansio ymgyrch hyrwyddo'r wefan newydd. Mae'r prosiect yma wedi cael ei atal ar hyn o bryd tra mae aelodau yn ymdrin â dyletswyddau hanfodol o sgil y Coronafirws.

Ar 31/03/2020 mae'r canrannau canlynol o aelodau wedi ymaelodi a'r gwasanaeth hunan wasanaeth:



### **i-Connect**

Mae i-Connect yn diweddarau data aelodau yn ein system gweinyddu pensiynau yn fisol, gan osgoi'r angen i gyflogwyr anfon gwybodaeth ar ddiwedd y flwyddyn.

Cymerir data yn uniongyrchol o system gyflogres gan i-Connect sydd wedyn yn nodi ac yn cyflwyno manylion am aelodau newydd, y rhai sydd optio allan ac ymadawyr i ni yn awtomatig.

Yn ystod 2019/20, gwnaed cynnydd mawr gyda'r prosiect.

Mae Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru a Grŵp Llandrillo Menai bellach yn cyflwyno eu manylion yn fisol, yn ogystal â'r holl gyflogwyr bach o fewn y gronfa.

Mae hyn bellach yn gadael dim ond un cyflogwr sydd ddim yn defnyddio i-Connect i gyflwyno eu manylion. Bydd gwaith yn mynd rhagddo yn y flwyddyn dreth 2020/21 i symud y cyflogwyr hwn i i-Connect.

### **Prisiant**

Un o'r prosiectau mawr ar gyfer 2019/20 oedd y prisiant. Ar gyfer paratoi ar gyfer roedd rhaid i'r adran ddyrannu adnoddau helaeth i'r prosiect i ddiweddarau cofnodion aelodau ac i glirio cymaint o wallau â phosibl yn dilyn adborth gan yr Actwari.

Ar y cyfan roedd y prosiect yn llwyddiant gyda'r Actwari yn nodi bod ansawdd y data o safon uchel.

Gweler Adran 8 a gyfer manylion y prisiant.

## **Datganiadau Buddion Blynyddol**

Mae'n ofynnol i ni gynhyrchu Datganiad Buddion Blynyddol ar gyfer pob aelod o'r cynllun erbyn diwedd mis Awst bob blwyddyn. Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion i aelodau o'r buddion a gronnwyd hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol ac yn rhagweld y buddion sy'n daladwy ar eu Hoedran Pensiwn Arferol. Mae'r datganiad hefyd yn cynnwys manylion tâl a nodiadau esboniadol ynghylch sut mae'r buddion yn cael eu cyfrif.

Ers 2018 mae'r datganiadau hyn ar gael yn electronig ar adran Hunan Wasanaeth Aelodau ein gwefan. Llwythwyd datganiadau 2019 ar y system ar gyfer aelodau actif a gohiriedig ar 16/08/2019.

Mae 1,050 o aelodau wedi ysgrifennu i mewn i gadarnhau eu bod am barhau i dderbyn copi papur o'u datganiadau. Anfonwyd y datganiadau hyn ar 17/08/2019.

## **Y Rheoleiddiwr Pensiynau - Mesur Data**

Yn 2015, cymerodd y Rheoleiddiwr Pensiynau (yRP) gyfrifoldeb am Gynlluniau Pensiwn y Sector Cyhoeddus. Cyn hynny, ym mis Mehefin 2010, cyhoeddodd y yRP arweiniad ar yr ymagwedd y maen nhw'n ei ystyried yn arfer da i fesur presenoldeb data aelodau.

Fe wnaethom gomisiynu ein darparwr meddalwedd, Aquila Heywood i gynhyrchu Adroddiad Ansawdd Data ar gyfer ein Cronfa ym mis Medi 2019.

Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n ddwy adran:


- **Data Cyffredin:** e.e. enw, cyfeiriad, rhif YG, rhyw, dyddiad geni, statws a dyddiad cychwyn
- **Data Penodol i'r Cynllun:** e.e. buddion yn y cynllun, manylion trosglwyddo, CGY, manylion cyflog, cyfraniadau, gwasanaeth, lwfans oes, lwfans blynyddol a IPG.

Rydym yn rhoi isod grynodedb o'r canlyniadau:

### **Crynodeb o'r Canlyniadau Data Cyffredin**


Mae'r graff isod yn dangos perfformiad Gwynedd ar gyfer pob categori data yn erbyn meincnodau'r cynllun y cytunwyd arnynt ynghyd â chanlyniadau profion 2018. Mae'r canlyniadau a gyflwynir yma yn cael eu cynhyrchu o ddata a dynnwyd o Wasanaeth Byw Altair Gwynedd ar 12 Medi 2019 ar gyfer pob prawf. Canran gyffredinol y profion a basiwyd ar gyfer data cyffredin Gwynedd yw **99.4%** sy'n welliant bach dros sgôr 2018 o **99.3%**.

Cyflawnodd 7 o'r 8 categori'r meincnod uchaf o fwy na 98% gydag 2 categori heb gofnodi methiant unigol. Mae 3 categori arall wedi'u talgrynnu i 100% gyda chyfraddau pasio dros 99.95%. Yr unig gategori na gyrhaeddodd y meincnod uchaf dan sylw oedd **cyfeiriadau aelodau** gyda sgôr o **96.9%**. Ac eithrio cyfeiriadau aelodau, mae ansawdd cyffredinol y data cyffredin yng Ngwynedd o safon uchel. Mae angen gwneud rhywfaint o waith i olrhain aelodau a gofnodwyd fel rhai sydd "wedi diflannu" i ddod â'r categori hwn i'r meincnod uchaf. Canran y cofnodion aelodau heb fethiant data cyffredin yw **96.9%** (94.9% blwyddyn ddiwethaf) a dyma'r ffigwr y bydd yRP yn ei dderbyn ar ddychweliadau'r cynllun.



### Crynodeb o Ganlyniadau Data Penodol y Cynllun

Mae'r graff isod yn dangos perfformiad Gwynedd ar gyfer pob categori data yn erbyn meincnodau'r cynllun y cytunwyd arnynt ynghyd â chanlyniadau profion 2018. Mae'r canlyniadau a gyflwynir yma yn cael eu cynhyrchu o ddata a dynnwyd o Wasanaeth Byw Altair Gwynedd ar 12 Medi 2019 ar gyfer pob prawf. Y ganran gyffredinol o brofion a basiwyd ar gyfer data cynllun-benodol yw **96.1%**. Canran y cofnodion aelodau heb fethiant data unigol sy'n benodol i'r cynllun yw **91.7%** (81.6% blwyddyn ddiwethaf) a dyma'r ffigwr y bydd yRP yn ei dderbyn ar ddychweliadau'r cynllun.





Mae cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu mewn perthynas â gweithredu unrhyw lanhau data a amlygwyd fel rhan o'r ymarfer hwn a disgwyllir i'r glanhau data hwn wella'r sgoriau data ar gyfer y flwyddyn nesaf.

### **Staffio**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae newid mawr wedi cymryd lle o ran staffio'r adran Bensiynau gyda staff profiadol yn gadael a nifer fawr o staff newydd yn ymuno a'r tîm Yn fis Mai 2019 cychwynnodd Nicholas Hopkins gyfnod o ymddeoliad hyblyg, ac ymddeol yn gyfan gwbl fel Rheolwr Pensiynau ar 30ain Tachwedd 2019, gyda Meirion Jones yn cymryd yr awenau'n llwyr ar 1af Rhagfyr 2019. Oherwydd y newid hwn mae cyfweiliadau wedi bod yn cael eu cynnal dros y flwyddyn ddiwethaf i ail staffio'r adran yn llawn. Felly rydym wedi dyrchafu nifer o staff i'r rolau canlynol:

- Uwch Swyddog Pensiynau a Llywodraethu - Gwennan Williams
- Uwch Swyddog Cyfathrebu - Glesni Jones
- Swyddog Pensiynau - Ayesha Trainor
- Swyddog Cyfathrebu - Bronwen Williams
- Technegydd Pensiynau - Leanne Hunt-Hughes
- Technegydd Systemau – Eluned Hughes

Hefyd, mae nifer fawr o staff newydd wedi ymuno a'r tîm:

- Owain Pritchard - Swyddog Systemau
- Elin Hughes - Cymhorthydd Pensiynau
- Rhiannon Hughes - Cymhorthydd Pensiynau
- Alwen Johnson - Cymhorthydd Pensiynau
- Wendy Owen - Cymhorthydd Pensiynau

Gyda chymaint o newidiadau o fewn yr adran mae yna lawer o waith wedi cymryd lle i hyfforddi'r staff yn eu swyddi newydd.

### **Hyfforddiant**

Yn ystod 2019/20 mae tri aelod o staff wedi cwblhau cwrs Tystysgrif Gweinyddiaeth Pensiynau Sefydliad Siartredig y Gweithwyr Cyflogres Broffesiynol (CIPP). Roedd y cwrs hwn yn cynnwys cwblhau chwe aseiniad ac un arholiad.

Hefyd mae pedwar aelod o staff wedi dechrau astudio tuag at Radd Sylfaen mewn Gweinyddu a Rheoli Pensiynau. Mae'r radd sylfaen yn gymysgedd o aseiniadau ac arholiadau a bydd yn cymryd 2 flynedd i'w chwblhau. Rwy'n falch o adrodd bod y pedwar yn dod ymlaen yn dda gyda'r cwrs hwn, gyda'r holl aseiniadau ac arholiadau hyd yn hyn wedi'u cwblhau'n llwyddiannus.

Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi yn ddiweddar ar lwfans blynyddol ac oes i staff perthnasol yr adran gan Ian Colvin, Pennaeth Ymgynghoriaeth Budd-daliadau Hymans Robertson. Edrychodd y sesiwn hon ar gyfrifiadau heriol lwfans blynyddol ac oes. Derbyniwyd adborth cadarnhaol a gobeithir y bydd y sesiwn yn ein helpu i ddeall yn well y set gymhleth hon o reoliadau a darparu gwasanaeth gwell i'n haelodau.

## Diolchiadau

Ar y cyfan mae 2019/20 wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus i'r adran Bensiynau. Hoffwn ddiolch i'r holl staff am eu gwaith caled a chefnogaeth dros y flwyddyn, y cyflogwyr am ddarparu gwybodaeth amserol a'r actwari Hymans Robertson am eu gwaith a'u cyngor dros y flwyddyn. Hoffwn hefyd dymuno ymdeoliad hir a hapus i Nick yn dilyn 38 mlynedd o wasanaeth i'r Cyngor.

**Meirion Jones**  
**Rheolwr Pensiynau**

## 5.2 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

### Cyffredinol

Ceir y sylfaen ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel ei diwygiwyd) a'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosglwyddo, Arbedion a Newidiad) 2014 (hefyd fel ei diwygiwyd).

Mae Cyngor Gwynedd yn gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer ei weithwyr ei hun ynghyd â gweithwyr 27 o gyrff eraill sydd ar yr atodlen (gan gynnwys 2 Awdurdod Lleol) a 19 o gyrff a ganiateir. Nid yw athrawon yn dod o dan y Gronfa hon ac mae darpariaethau gwahanol ar eu cyfer hwy. Telir am y Gronfa trwy gyfraniadau gan weithwyr a chyflogwyr, ynghyd ag incwm buddsoddi.

O Ebrill 2014 pennir cyfradd cyfrannu gweithwyr mewn bandiau yn ôl eu gwir gyflog wedi ei gynyddu gyda'r lefel chwyddiant blyneddol. Gellir gweithwyr dewis talu cyfraniadau hanner cyfradd er mwyn cronni buddion personol cyfradd hanner mewn cynllun o'r enw 50/50, mae buddion marwolaeth a dibynnyddion yn dal ar gyfradd lawn. Dangosir y bandiau ar gyfer Ebrill 2019- Mawrth 2020 yn y tabl isod:

<b>Amrediad Cyflog</b>	<b>Graddfa Cyfraniad prif gynllun</b>	<b>Graddfa Cyfraniad cynllun 50/50</b>
Hyd at £14,400	5.5%	2.75%
£14,401 - £22,500	5.8%	2.9%
£22,501 - £36,500	6.5%	3.25%
£36,501 - £46,200	6.8%	3.4%
£46,201 - £64,600	8.5%	4.25%
£64,601 - £91,500	9.9%	4.95%
£91,501 - £107,700	10.5%	5.25%
£107,701 - £161,500	11.4%	5.7%
Mwy na £161,501	12.5%	6.25%

Mae cyflogwyr yn cyfrannu at y cynllun ar raddfa wedi ei asesu'n deirflynyddol gan Actiwari'r Gronfa, neu pan mae newid sylweddol mewn aelodaeth neu broffil y cyflogwr. Mae cyflogwyr yn dal i dalu cyfradd lawn ar gyfer aelodau sydd yn dewis yr opsiwn 50/50 neu ar dâl llai oherwydd salwch.

## **Buddion**

Mae'r CPLIL yn darparu buddion sylweddol i aelodau yn seiliedig ar ddau gynllun ar wahân. Mae trefniant cyflog terfynol, sydd yn cynnwys dau gyfradd cronni, a CARE (Enillion Cyfartaledd Gyrfa ac Ailbrisiad) a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2014. Isod fe restrir crynodeb byr o sut mae'r pensiynau yn cael eu cronni o dan y ddau drefniant.

Ar gyfer yr elfen buddion cyflog olaf bydd buddion fel arfer yn seiliedig ar ddau ffactor sef: hyd y gwasanaeth y talwyd cyfraniadau i'r cynllun, a geir ei adnabod fel "Cyfanswm Aelodaeth", a'r cyflog yr oedd y cyfraniadau yn seiliedig arno (fel arfer y 12 mis olaf o wasanaeth), a geir ei adnabod fel "Cyflog Olaf".

Bydd y rhan CARE mewn ffurf 1/49fed a chyfrifwyd ar wir gyflog pensiynadwy bob blwyddyn sydd yn cael eu hailbriso yn flynyddol.

- **Pensiwn Blynyddol**

Mae'r cyfrifiad ar gyfer pensiwn safonol blynyddol yn seiliedig ar y fformiwla isod:

***Cyflog Olaf x 1/80 x Cyfanswm Aelodaeth i 31 Mawrth 2008; plws  
Cyflog Olaf x 1/60 x Cyfanswm Aelodaeth o 1 Ebrill 2008 i 31 Mawrth 2014; plws  
Y pensiwn CARE wedi ei chronni ac ailbriso ar y blynyddoedd o 1 Ebrill 2014  
ymlaen***

Unwaith bydd y pensiwn yn cael ei dalu bydd yn cynyddu bob mis Ebrill yn unol â'r Mynegai Prisiau Prynwyr.

- **Lwmp Swm**

Hefyd mae hawl derbyn lwmp swm yn ddi-dreth ar aelodaeth i 31 Mawrth 2008, wedi ei gyfrifo ar sail y fformiwla isod:

***Cyflog Olaf x 3/80 x Cyfanswm Aelodaeth i 31 Mawrth 2008 yn unig***

- **Newid Buddion**

Mae dewis cyfnewid rhan o'r pensiwn er mwyn cynyddu'r lwmp swm dros ben y fformiwla a ddangosir uchod, ond o fewn cyfyngiadau Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (HMRC).

## **Pensiynau Cynghorwyr**

Mae'r cynllun hefyd yn caniatáu mynediad i Aelodau. Seilir y pecyn buddion ar fformiwla'r cynllun am bensiwn a lwmp swm cyn Ebrill 2008 fel y gwelir uchod, ond defnyddir Cyflog Cyfartalog Gyrfa yn lle Tâl Terfynol. Dyma'r sefyllfa o hyd ar gyfer Aelodau Cynghorwyr, hyd yn oed ar ôl cyflwyno'r prif gynllun newydd o Ebrill 2014. Ni chaiff Cynghorwyr newydd ymuno â'r CPLIL yn Lloegr a bydd yn rhaid i Aelodau Cynghorwyr adael y cynllun pan fydd eu cyfnod yn y swydd wedi dod i ben.

## **Ymddeoliad Salwch**

Os oes gan aelod o leiaf 2 flynedd o gyfanswm aelodaeth, a bod meddyg cofrestredig annibynnol a gymeradwywyd gan yr awdurdod gweinyddu yn tystio ei fod yn barhaol anabl i wneud ei swydd, neu unrhyw swydd debyg gyda'r cyflogwr, bydd yn derbyn pensiwn ac os yw'n dewis cyfnewid pensiwn lwmp swm yn rhydd o dreth yn syth.

Mae'r buddion sy'n daladwy yn dibynnu ar yr haen o ymddeoliad salwch a ddyfarnwyd:

### **Haen 1**

Os yw'r aelod yn annhebygol o fod yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig cyn eu Hoedran Pensiwn Arferol (OPA), bydd y buddion salwch yn seiliedig ar y pensiwn y maent eisoes wedi cronni yn eu cyfrif pensiwn ar ddyddiad gadael y cynllun yn ogystal â'r pensiwn y byddent wedi adeiladu, wedi'i gyfrifo ar dâl pensiynadwy tybiedig, pe baent wedi bod yn brif adran y cynllun nes iddynt gyrraedd eu OPA.

### **Haen 2**

Os yw'r aelod yn annhebygol o fod yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig o fewn 3 blynedd o adael, ond maent yn debygol o fod yn gallu ymgymryd â chyflogaeth o'r fath cyn eu OPA, mae'r buddion salwch yn seiliedig ar y pensiwn y maent eisoes wedi cronni yn eu cyfrif pensiwn ar ddyddiad gadael y cynllun ynghyd â 25% o'r pensiwn y byddent wedi adeiladu, wedi'i gyfrifo ar dâl pensiynadwy tybiedig, pe baent wedi bod yn brif adran y cynllun nes iddynt gyrraedd eu OPA.

### **Haen 3**

Os yw'r aelod yn debygol o fod yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig o fewn 3 blynedd o adael, neu cyn eu OPA os yn gynt, bydd y buddion salwch yn seiliedig ar y pensiwn y maent eisoes wedi cronni yn eu cyfrif pensiwn wrth adael. Bydd y buddion hyn yn cael eu hatal ar ôl 3 blynedd, neu'n gynharach os yw'r aelod mewn swydd gyflogedig neu'n dod yn alluog i gyflogaeth o'r fath, ar yr amod nad ydynt wedi cyrraedd eu OPA erbyn hynny. Os bydd y taliad yn cael ei stopio bydd fel arfer yn daladwy unwaith eto o OPA.

Mae gwaith cyflogedig yn golygu gweithio am ddim llai na 30 awr yr wythnos am gyfnod o ddim llai na 12 mis.

### **Ymddeoliad Cynnar**

Os yw cyfanswm aelodaeth yn 2 flynedd neu fwy, gall aelod ddewis ymddeol a derbyn ei fudd CPLIL unrhyw adeg ar ôl 55 oed; er hynny gall taliad cyn oed ymddeol arferol olygu lleihad actiwariaid er mwyn talu am y rhyddhad buan, ac os ar ôl oed buddion pensiwn arferol gellir cael codiad actiwariaid oherwydd taliad hwyr.

### **Buddion Gohiriedig**

Mae aelodau sy'n gadael gyda 2 flynedd aelodaeth yn cael buddion gohiriedig, fel a'i cyfrifwyd ym mharagraff 'Buddion', ond i'r buddion gael eu gohirio a'u cynyddu gyda'r mynegai, hyd nes gwneir taliad unrhyw amser ar ôl oedran 55 (oedran 60 os yw terfyniad cyn 01/04/2014) . Neu mae'n bosib trosglwyddo swm sy'n cyfateb i'r buddion i gynllun pensiwn arall.

Bydd aelodau sy'n gadael gyda chyfanswm aelodaeth o lai na 2 flynedd a dim hawliau CPLIL bellach, yn cael ad-hawlio'u cyfraniadau, llai treth ac unrhyw premiwm 'contracting out' perthnasol.

### **Marw Mewn Gwasanaeth**

Mae lwmp swm o dair gwaith Cyflog Terfynol yn daladwy, waeth pa mor hir oedd yr aelodaeth. Ar gyfer gweithwyr rhan-amser, tydi'r Cyflog Terfynol ddim yn cael ei gynyddu i'w raddfa gyfatebol llawn amser.

Yn ychwanegol, gellir buddion goroeswyr yn cael ei dalu i'r priod, neu bartner, gyda buddion i unrhyw blant sy'n ddibynnol hefyd yn daladwy yn amodol ar feini prawf penodol, yn seiliedig ar oedran ac os mewn addysg llawn amser.

### **Marw ar ôl Ymddeol**


Mae taliadau pensiwn yn dod gyda gwarant deng mlynedd, ac felly os yw marwolaeth yn digwydd o fewn deng mlynedd o'r ymddeoliad a chyn oedran 75 gellir talu grant marwolaeth ar y gweddiill y pensiwn heb ei dalu hyd at yr uchafswm a buasai wedi ei dalu hyd at oedran 75.

Fel gyda marwolaeth mewn gwasanaeth, mae pensiynau priod a phartner yn daladwy am oes tra bod pensiynau i blant cymwys yn daladwy o dan yr un amodau fel Marw mewn Gwasanaeth.

## 6. Buddsoddiadau

### 6.1 Sefyllfa Diwedd Flwyddyn

Mae'r Gronfa wedi perfformio'n gryf ers cwmp 2008/09 gyda gwerth y Gronfa yn cynyddu pob blwyddyn. Mae'r flwyddyn yma wedi bod yn heriol dros ben gyda cynnydd cadarnhaol y 9 mis cyntaf yn cael ei ddiddymu gyda gostyngiad o rhyw 25%-30% mewn marchnadoedd ecwiti yn nechrau 2020 fel oedd effeithiau pandemig COVID 19 yn dod yn glir gyda llawer o economïau'n cau lawr. Mae'r cyfnod yma wedi bod yn ansicr ac mi fydd y cyfnod adfer yn cymryd amser.



#### **Buddsoddiadau fesul rheolwr buddsoddi**

Dros gyfnod yr adroddiad hwn roedd 5 Rheolwr Buddsoddi fel a ganlyn: BlackRock, Fidelity International (Fidelity), Insight Investment (Insight), Partneriaeth Pensiwn Cymru a Partners Group. Mae'r gronfa hefyd wedi gwneud buddsoddiad uniongyrchol gyda Chronfa Eiddo Lothbury, Cronfa Eiddo Pensiwn Threadneedle, a Chronfa Eiddo UBS Life Triton. Mae arian parod gyda Veritas yn dilyn y trosglwyddiad i PPC yn Chwefror 2019.

<b>Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2019 £'000</b>		<b>Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2020 £'000</b>
	<b><u>Cronfeydd Lleol</u></b>	
656,262	BlackRock	565,379
192,395	Fidelity	181,742
285,253	Insight	280,282
61,073	Lothbury	60,570
145,614	Partners Group	157,230
20,862	Threadneedle	31,401
50,182	UBS	47,832
411	Veritas	625
	<b><u>Cronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru</u></b>	
643,081	Partneriaeth Pensiwn Cymru	604,237
<b>2,055,133</b>		<b>1,929,298</b>

### Dyraniad Asedau

Prif benderfynnydd perfformiad hirdymor y Gronfa ydi dyraniad strategol yr asedau. Yn dilyn y dyraniad i is-adeiladwaith dyraniad strategol asedau'r Gronfa ydi 72.5% ecwiti, 15% bondiau'r DU, 10% eiddo a 2.5% is-adeiladwaith.

Mae'r tabl canlynol yn dangos dyraniad meincnod y Gronfa yn ystod 2019/20.

	<b>Gwir %</b>	<b>Targed %</b>	<b>Gwahaniaeth %</b>
Ecwiti DU	16.2	19.0	-2.8
Ecwiti Byd-eang	50.7	48.5	2.2
Ecwiti Preifat	6.2	5.0	1.2
<b>Cyfanswm Ecwiti</b>	<b>73.2</b>	<b>72.5</b>	<b>0.7</b>
Bondiau DU	14.5	15.0	-0.5
Eiddo	10.0	10.0	0.0
Is-adeiladwaith	2.3	2.5	-0.2
<b>Cyfanswm</b>	<b>100</b>	<b>100</b>	

Ar 31 Mawrth 2020, roedd y Gronfa dros bwysau i ecwiti a roedd ei ddyraniadau is-adeiladwaith a bondiau ychydig yn rhy isel ac mae'r eiddo yn unol â'r targed o 10%. Bydd y Gronfa yn gadael i amgylchiadau sefydlogi yn dilyn y pandemig cyn edrych ar ei ddyraniad yn y dyfodol.

## 6.2 Perfformiad Buddsoddi

### Cyfarfodydd Chwarterol

Caiff perfformiad y Rheolwyr Buddsoddi ei fonitro'n chwarterol. Mae cyfarfod yn cael ei cynnal pob chwarter gyda'r Rheolwyr Buddsoddi yn cael ei rotatio. Bydd y Rheolwyr Buddsoddi yn cyflwyno

adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Pensiynau, y swyddogion perthnasol yng Nghyngor Gwynedd ac i ymgynghorydd y Gronfa.

### Monitro Perfformiad

Tanysgrifia Gwynedd i wasanaeth mesur Pensions & Investment Research Consultants Ltd (PIRC), sy'n cyfrifo'r gyfradd enillion i Wynedd ac ar gyfer cronfeydd pensiwn eraill, ac yn darparu cymariaethau.

### Targedau

Dangosir meincnodau perfformiad unigol ar gyfer y Rheolwyr Buddsoddi unigol yn y tabl isod:


Rheolwr	Meincnod	Targed
BlackRock	FTSE All-Share a'r FTSE All-World Indices	Elw'r Meincnod
Veritas	MSCI All Countries World Index	Meincnod + 2% y flwyddyn (gros o ffioedd)
Fidelity	MSCI All Countries World Index	Meincnod +2%-3% y flwyddyn (gros o ffioedd)
Insight	Arian (Libor)	Meincnod +2% y flwyddyn
Partners	MSCI World	Meincnod + 5% y flwyddyn.*
PPC	MSCI All Countries World Index	Meincnod + 2% y flwyddyn (gros o ffioedd)

\*Nid oes gan Partners darged perfformiad swyddogol. Targed ar gyfer pwrpas mynegol yn unig a welir uchod.  
MSCI=Morgan Stanley Capital International.

Gan mai buddsoddiadau uniongyrchol yr ydym wedi ei wneud gyda Lothbury, UBS a Threadneedle, nid ydym wedi rhoi meincnod iddynt. Fodd bynnag, ar gyfer pwrpas mynegol byddwn yn eu monitro yn erbyn yr "IPD Balanced Property Unit Trust Index".

### Perfformiad y Gronfa

Mae'r graff isod yn dangos perfformiad y Rheolwyr dros 1 flwyddyn.



\* Mae'r gronfa yn buddsoddi mewn cronfeydd eiddo gyda Lothbury, BlackRock, UBS a Threadneedle.



## Gyda'r perfformiad dros y tymor hir yn cael ei ddangos yn y tabl isod:

	Enillion Blwyddyn	Meincnod Blwyddyn	Enillion 3 Blynedd	Meincnod 3 Blynedd	Enillion 5 Mlynedd	Meincnod 5 Mlynedd
<b>Cronfeydd Lleol</b>						
BlackRock Market Capitalisation Portfolio	-16.1%	-16.0%	-3.2%	-3.2%	+1.7%	+1.6%
Black Rock Fundamental Indexation	-14.2%	-14.8%	-2.4%	-3.0%	+4.1%	+3.5%
Fidelity Global Equity	-4.9%	-5.8%	+2.0%	+2.2%	+6.3%	+7.0%
Fidelity Emerging Market Equity	-10.2%	-13.7%	0.0%	-1.4%	+5.2%	+3.2%
Insight	-1.4%	0.7%	-1.1%	0.6%	+0.2%	+0.6%
Eiddo (UBS, Lothbury, Black Rock, Threadneedle)	0.0%	0.0%	+5.0%	+4.8%	+5.6%	+5.8%
Grwp Partners	8.8%	3.0%	d/b	d/b	d/b	d/b
<b>Cronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru</b>						
PPC Global Growth	-6.9%	-6.7%	d/b	d/b	d/b	d/b
PPC Global Opportunities	-4.4%	-6.7%	d/b	d/b	d/b	d/b
<b>Cronfa Gyfan</b>	<b>-6.5%</b>	<b>-5.5%</b>	<b>+1.3%</b>	<b>+1.2%</b>	<b>+5.1%</b>	<b>+4.8%</b>

Tanberfformiodd y Gronfa -1.0% yn erbyn y meincnod yn ystod y flwyddyn ariannol 2019/20. Roedd perfformiad y Gronfa yn -6.5% yn erbyn y meincnod o -5.5%. Mae'r perfformiad negyddol yma oherwydd effaith y mesurau cyfyngiadau ar gyflenwadau ledled y byd yn ystod chwarter olaf y flwyddyn oherwydd pandemig COVID. Credir mai effaith tymor byr fydd hyn a bydd yr effaith yn ddibwys yn y tymor hir, sef prif gorwel amser y Gronfa.

Roedd perfformiad y Gronfa 0.1% yn uwch na'r meincnod dros tair mlynedd gyda dychweliad o +1.3%. Dros gyfnod o bum mlynedd mae'r Gronfa wedi gorberfformio yn erbyn y meincnod gydag enillion o +5.1% o'i gymharu ag enillion y meincnod o +4.8%.

Fel arfer cydnabyddir bod perfformiad dros gyfnod hir (dyweder, 3+ o flynyddoedd) yn fynegai mwy dilys na blwyddyn unigol; gall strategaethau a gynllunnir ar gyfer perfformiad da yn y tymor hir ddiodeff o golledion tymor byr o bryd i'w gilydd.

### 6.3 Trefniadau Gweinyddol a Chadw

#### Llywodraethu

Gweinyddir y Gronfa o fewn y fframwaith a sefydlwyd gan statud, sy'n datgan mai Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Gweinyddol.

#### Polisiâu Llywodraethu

Mae'r Datganiad Polisi Llywodraethu a'r Datganiad Cydymffurfriad ar Drefn Lywodraethol yn nodi trefniadau llywodraethol y Gronfa Bensiwn.

Gweler copïau yn 10.4 a 10.5.

#### Cyngor Arbenigol

Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gorfodi'r Cyngor i sicrhau cyngor arbenigol ar fuddsoddi. Darperir y cyngor hwn gan ymgynghorydd annibynnol o gwmni Hymans Robertson

(ymgynghorwyr y Gronfa) sy'n ymuno â'r Pwyllgor Pensiynau er mwyn monitro'r Rheolwyr Buddsoddi. Bydd ymgynghorydd o Hymans yn bresennol ym mhob cyfarfod chwarterol gyda'r Rheolwyr Buddsoddi.

### **Ceidwaid**

Mae gan rai o'r rheolwyr buddsoddi ceidwaid cysylltiedig sy'n dal asedau eu rhan nhw o'r portffolio. Mae'r rheolwyr a'u ceidwaid cysylltiedig fel a ganlyn:

- Ceidwad BlackRock yw Banc JP Morgan Chase;
- Ceidwad Fidelity hefyd yw Banc JP Morgan Chase;
- Ceidwad Insight yw Cwmni'r Northern Trust;
- Ceidwad PPC yw Cwmni'r Northern Trust.

Mae'r tri chwmni yr ydym wedi gwneud buddsoddiad uniongyrchol a hwy, Lothbury, Threadneedle a UBS yn defnyddio Cwmni'r Northern Trust fel eu ceidwad hwy.

Nid yw Partners Group yn cael eu cynnwys yn nhrefniadau cadw'r Gronfa.

### **Trefniadau Gweinyddol**

Mae trefniadau gweinyddol yn sicrhau bod y trosglwyddiadau hynny sydd yn digwydd, rhwng y Cyngor a'r Rheolwyr Buddsoddi, yn gorfod cael eu hawdurdodi gan lofnodion dau o'r swyddogion a enwir ar restr llofnodion awdurdodedig y Gronfa Bensiwn.

## **6.4 Pwerau Buddsoddi**

### **Pwerau Buddsoddi**

Mae'r rheoliadau yn gofyn am Ddatganiad Strategaeth Buddsoddi.

Mae'n galluogi cronfeydd pensiwn i gael hyblygrwydd wrth osod eu strategaethau ac yn rhoi'r gallu i fuddsoddi canran uwch o'u cronfa mewn trefniadau pwlio unigol. Nid oes unrhyw gyfyngiadau penodol yn y ddeddfwriaeth newydd ac felly nid oes angen codi'r symiau yn ffurfiol. Er hynny, mae'n ymarfer da i gael cyfyngiadau llydan ac mae'r rheiny wedi cael eu cynnwys yn y DSB.

## **6.5 Rheoli Buddsoddiadau**

### **Cyffredinol**

Prif nod polisi buddsoddi yw uchafu'r enillion ar yr arian dan ofal y Cyngor, yn gyson â lefel dderbyniol o risg gyda'r enillion yn y tymor hir i fod yn fwy na chwyddiant cyflogau. Rhaid cadw mewn cof mai yn y tymor hir iawn y mae ymrwymadau'r Gronfa (sef pensiynau), gan ymestyn hyd at ganol y ganrif. Bydd yr ymrwymadau hyn yn codi gyda chwyddiant, oherwydd cyswllt pensiynau i'r mynegai chwyddiant ac hefyd oherwydd codiadau yng nghyflogau gweithwyr hyd at eu hoedran ymddeol. Mae perthynas rhwng lefelau'r enillion a dderbynnir â'r gyfradd cyfraniadau y disgwylir i gyflogwyr ei dalu. Mae'r Pwyllgor Pensiynau yn ystyried bod yr enillion tymor hir o gyfranddaliadau yn mynd i fod yn fwy na'r enillion ar fondiau, felly oherwydd hyn buddsoddir y rhan fwyaf o'r Gronfa mewn ecwiti.

## Cyfarwyddyd Rheolwyr Buddsoddi

Oherwydd polisi pendant i sicrhau amrywiaeth yn yr asedau ac yn y dull o fuddsoddi, mae'r Rheolwyr Buddsoddi yn derbyn gwahanol gyfarwyddiadau:

Rheolwr Buddsoddi	Cyfarwyddyd
BlackRock	Goddefol
Fidelity	Gweithredol
Insight	Gweithredol
PPC	Gweithredol
Partners	Gweithredol


Cyfarwyddyd BlackRock yw bod yn rheolwyr "goddefol". Byddant yn dyrannu asedau yn unol â'u meincnod ac ym mhob marchnad byddant yn olrhain mynegai'r farchnad stoc. O ganlyniad dylai eu perfformiad olrhain eu meincnod unigol. Mae apwyntio rheolwr goddefol yn lleihau'r risg o danberfformiad yn unol â'r meincnod, ond hefyd yn lleihau'r siawns o orberfformiad cymharol i'r meincnod.

Briff "gweithredol" sydd gan yr holl reolwyr eraill. Mae ganddynt ddisgresiwn i fuddsoddi yn eu syniadau buddsoddi gorau. Tra bod ganddynt hyblygrwydd o ran, pa stociau, rhanbarthau a sectorau i fuddsoddi ynddynt, mae nifer o gyfyngiadau mewn lle i rwystro'r rheolwyr rhag gwyro yn rhy bell oddi wrth eu meincnod a chymryd gormod o risg. Mae apwyntio rheolwr gweithredol yn cynyddu'r siawns o orberfformiad, ond hefyd yn cynyddu'r risg o danberfformiad cymharol i'r meincnod.

Mae gan PCC a Fidelity briff ecwiti "gweithredol", tra bod gan Insight briff bondiau "gweithredol". Briff ecwiti preifat ac is-adeiladwaith "gweithredol" sydd wedi ei roi i Partners.

## 6.6 Cydweithio Cronfeydd Pensiwn Cymru

Wedi'i sefydlu yn 2017, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) yn gydweithrediad o'r wyth cronfa CPLI sy'n cwmpasu Cymru gyfan ac mae'n un o wyth pwl Pensiwn Llywodraeth Leol cenedlaethol. Dyluniwyd model gweithredu PPC i fod yn hyblyg a sicrhau gwerth am arian gan ddarparu opsiynau o ran buddsoddiadau sy'n caniatáu i Gronfa Bensiwn Gwynedd weithredu strategaeth buddsoddi ein hunain, ond gyda arbedion cost pwysig. Penodwyd Link Fund Solutions yn weithredwr ac maent wedi ei partneru gyda Russell Investments i ddarparu datrysiadau buddsoddi effeithiol. Yr wyth Awdurdod Cyfansoddol yw:



Mae PPC wedi cyflawni cryn gynnydd tuag at gyflawni'r amcan hwn drwy lawnsio tair is-gronfa, gyda Cronfa Bensiwn Gwynedd yn rhan o ddau ohonynt, sef Global Growth a Global Opportunities. Bydd PPC yn parhau i ddatblygu is-gronfeydd mewn cydweithrediad a Link Fund Solutions Ltd a Russell Investments. Hyd yma, mae PPC wedi cronni oddeutu 47% o'i hasedau ac, erbyn diwedd Mawrth 2021, disgwylir y bydd oddeutu 60% wedi cronni.


Yn ystod y flwyddyn ni chafwyd unrhyw drosglwyddiadau pellach i Bartneriaeth Pensiwn Cymru ond mae PPC wedi cael blwyddyn brysur a chynhyrchiol iawn, ac mae'r partneriaeth wedi dechrau canolbwyntio ar y 12 mis sydd i ddod. Bydd yr uchafbwyntiau penodol dros y flwyddyn a hanner nesaf yn cynnwys lawnsio is-gronfeydd incwm sefydlog a marchnadoedd datblygol a parhau i ddatblygu cynigion o ran marchnadoedd preifat a fydd yn cynnwys eiddo, isadeiladwaith ac effeithiau cymdeithasol.


Ers sefydlu yn Chwefror 2019 mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi arbed **£1,012,683** gyda'r cronfeydd ecwiti.

Dyma gwerth y ddau Gronfa o fewn Partneriaeth Pensiwn Cymru ar 31 Mawrth 2020:

2019/20	Gwerth marchnad ar 1 Ebrill 2019	Prynianna u yn ystod y flwyddyn	Gwerthianna u yn ystod y flwyddyn	Newid mewn gwerth marchnad yn ystod y flwyddyn	Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2020
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cronfa Global Growth PPC	322,200	0	0	(23,581)	298,619
Cronfa Global Opportunities PPC	320,881	0	0	(15,263)	305,618
<b>Cyfanswm PPC</b>	<b>643,081</b>			<b>(38,844)</b>	<b>604,237</b>

Gyda'r rhaniad o fewn y Cronfeydd cyfan fel a ganlyn ar 31 Mawrth 2020:





Mae'r cyfnod yma wedi bod yn heriol i berfformiad Partneriaeth Pensiwn Cymru a ceir manylder perfformiad fesul rheolwr buddosddi unigol isod.

Y meincnod yw MCSI ACWI sydd yn -6.74% am y flwyddyn a -3.76% ers Chwefror 2019.

Rhaniad ar 31 Mawrth 2020	Rheolwr Buddsoddi	Enillion Blwyddyn	Enillion ers Chwefror 2019
<b>PPC Global Growth Fund</b>			
43.23%	Baillie Gifford	-0.78%	2.47%
28.35%	Pzena	-20.29%	-18.67%
26.83%	Veritas	-0.20%	2.64%
1.59%	Cyfrif Gweithredwr	d/b	d/b
<b>100.00%</b>	<b>Cronfa Gyfan</b>	<b>-6.92%</b>	<b>-4.58%</b>
<b>PPC Global Opportunities Fund</b>			
9.43%	Morgan Stanley	7.83%	9.65%
14.18%	Jacobs Levy	-2.22%	-1.89%
16.93%	Numeric	-4.90%	-4.43%
15.35%	NWQ Investment Management	-2.38%	-4.31%
14.14%	Oaktree	-16.72%	-14.59%
16.00%	Sanders Capital	-3.13%	-3.27%
7.20%	SW Mitchell	-6.71%	-5.15%
6.68%	RI- Overlays	d/b	d/b
0.09%	Cyfrif Gweithredwr	d/b	d/b
<b>100.00%</b>	<b>Cronfa Gyfan</b>	<b>-6.92%</b>	<b>-4.58%</b>

Ceir cyfarfodydd gyda'r rheolwr portffolio a rheolwyr buddsoddi yn chwarterol, ble mae swyddogion, aeoldau'r pwyllgor a bwrdd pensiynau yn cael cyfle i fonitro a herio perfformiad y cronfeydd.

Mae PPC wedi parhau i ddatblygu llywodraethu cadarn yn ystod y flwyddyn ac wedi penodi Hymans Robertson ym mis Ionawr 2020 i gynnig goruchwyliaeth a chynghor ar strategaeth y gronfa, ynghylch llywodraethu, gwasanaethau gweithredwyr a Buddsoddi strategol. Mae'r dogfennau yma wedi ei cyhoeddi yn y flwyddyn:

- Datganiad Credoau
- Matrix Llywodraethu
- Polisi Buddsoddi Cyfrifol
- Cynllun Cyfathrebu
- Cynlluniau Hyfforddiant

Lansiwyd gwefan PPC ym mis Medi 2019 ac mae'n offeryn ardderchog i ddysgu a deall mwy am y gronfa. Gallwch ddod o hyd i'r wefan yma: <https://www.partneriaethpensiwncymru.org/>

## **7. Rheolaeth a Perfformiad Ariannol**

### **7.1 Rheoli Risg**

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cydnabod pwysigrwydd rheoli risg effeithiol. Rheoli risg yw'r broses ble mae'r Cronfa yn adnabod a delio gyda'r risgiau sydd yn ymwneud gyda'r gweithgareddau.

Ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd daw y risgiau o nifer o ffynonellau yn cynnwys strategaeth buddsoddi tymor hir, sefyllfa cyllido, perfformiad buddsoddiadau, gweinyddiaeth cynllun, newid aelodaeth, systemau ariannol a chyfathrebu.

Mae'r dogfennau canlynol yn egluro'r prif risgiau yma ac yn dangos sut y maent yn cael ei adnabod, osgoi, rheoli ac adolygu:

- Datganiad Strategaeth Buddsoddi
- Datganiad Strategaeth Cyllido
- Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd- cyfeirio at risgiau offerynnau ariannol

Mae cyngor arbenigol yn cael ei ddarparu gan Hymans Robertson, ein hymgyngorwyr, ac mae'r Pwyllgor Pensiynau yn cwrdd i adolygu perfformiad ein rheolwyr buddsoddi pob chwarter.

### **7.2 Datganiad Strategaeth Buddsoddi**

Bu i'r Pwyllgor Pensiynau gymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Buddsoddi yn Gorffennaf 2020 yn dilyn prisiad 2019. Mae'r strategaeth hon yn diffinio'r mathau o fuddsoddiadau gall y gronfa ddefnyddio yn yr hir dymor.

Nid oes cyfyngiadau penodol ar gyfer y math o fuddsoddiadau. Er hynny, mae'n ymarfer da i gael rhai terfynau llydan a cynhwysir rheiny yn y Datganiad Strategaeth Buddsoddi. Mae copi ar gael yn Atodiad 9.2, neu ar safle we'r gronfa:

<https://www.cronfabensiwnwynedd.cymru/cy/Buddsoddiadau/Datganiad-o-Egwyddorion-Buddsoddi.aspx>

### **7.3 Datganiad Strategaeth Cyllido**

Mae'n ofynnol i awdurdodau gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) baratoi a chyhoeddi Datganiad Strategaeth Cyllido. Mae'r Datganiad Strategaeth Cyllido yn gosod y strategaeth benodol i'r Gronfa sydd yn adnabod sut bydd ymrwymadau pensiwn cyflogwyr yn cael eu cwrdd wrth symud ymlaen

Mae buddion CPLIL wedi eu gwarantu gan statud ac felly mae'r addewid o bensiwn yn sicr. Mae'r Datganiad Strategaeth Cyllido yn cyfeirio at y ffaith bod eisiau rheoli'r angen i gyllido'r buddion yma tros y tymor hir, a hefyd yr un pryd hwyluso gwaith archwilio ac atebolrwydd trwy wella tryloywder a'r broses o ddatguddio. Hefyd, mae'n rhoi fframwaith statudol i awdurdodau gweinyddol CPLIL ar gyfer rheoli diffygion pensiwn tymor hir y Gronfa wrth symud ymlaen.

Adolygwyd y Datganiad Strategaeth Cyllido yn ystod 2019/20 er mwyn adlewyrchu'r Prisiad Actiwaraid ar 31 Mawrth 2019. Roedd y broses adolygu yn cynnwys ymgynghoriad gyda holl gyflogwyr y Gronfa ac Actiwari'r Gronfa. Mabwysiadwyd y Datganiad Strategaeth Cyllido cyfredol ar 20 Mawrth 2020 gan y Pwyllgor Pensiynau. Mae'n cynnwys cyfraddau cyfraniad bob cyflogwr o 1 Ebrill 2020 ymlaen.

Mae copi o'r Strategaeth Cyllido ar gael yn Atodiad 9.1, neu ar safle we'r gronfa:

<https://www.cronfabensiwnwynedd.cymru/cy/Buddsoddiadau/Datganiad-Strategaeth-Cyllido-2020.pdf>

## 7.4 Perfformiad Ariannol

### Incwm

	<b>Gwir 2018/19 £'000</b>	<b>Gwir 2019/20 £'000</b>
Cyfraniadau Gweithwyr/ Aelodau	17,003	17,914
Cyfraniadau Cyflogwyr	50,927	56,502
Trosglwyddiadau i Mewn	3,007	4,887
Incwm Buddsoddi	13,769	9,318
Incwm Arall	6	5
<b>Cyfanswm Incwm</b>	<b>84,712</b>	<b>88,626</b>

Cafwyd cyfraniadau uwch yn 2019/20 oherwydd cyfraniad unwaith ac am byth gan yr awdurdod gweinyddol. Gwelwyd leihad yn yr incwm buddsoddi wrth i'r incwm o gronfeydd ecwiti PPC cael ei rollo o fewn y pris.

### Gwariant

	<b>Gwir 2018/19 £'000</b>	<b>Gwir 2019/20 £'000</b>
Buddion a dalwyd neu sy'n daladwy	(59,213)	(62,328)
Taliadau i rai sy'n ymadael	(3,128)	(4,669)
Costau Rheoli	(14,659)	(13,121)
<b>Cyfanswm Gwariant</b>	<b>(77,000)</b>	<b>(80,118)</b>

Ceir cynnydd yn y buddion a dalwyd i gymharu a 2018/19 oherwydd cynnydd yn y nifer o bensiywyr.



## Asedau Net

	<b>Gwir 2018/19 £'000</b>	<b>Gwir 2019/20 £'000</b>
Elw a Cholledion wrth waredu buddsoddiadau a newidiadau yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad	135,660	(151,518)
<b>Cynnydd/ (Lleihad) yn yr Asedau Net ar gael ar gyfer buddion yn ystod y flwyddyn</b>	<b>143,372</b>	<b>(143,010)</b>

Ceir lleihad yn ngwerth farchnad yr asedau erbyn 31ain o Fawrth 2020 yn sgil effaith pandemig COVID-19.

Ceir rhagor o wybodaeth yn y Datganiad o'r Cyfrifon (Adran 9).

## 7.5 Safon Cyfrifeg Ryngwladol 19 (SCR19) a Safon Adrodd Ariannol 17 (SAA17)

### Diffiniad o SCR19

Mae SCR19 yn diffinio sut dylid dangos asedau ac ymrwymadau cynllun pensiwn i bwrpas adrodd mewn cyfrifon ariannol, gan nodi fod rhaid datgelu unrhyw ddiffyg neu ormodedd yn llawn ar y fantolen ariannol, gydag unrhyw symudiad yn cael ei ddangos yn y cyfrif elw a cholled flynyddol. Mae SCR19 yn berthnasol i gyrff sydd yn gorfod adrodd o dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAAR). Mae hyn wedi effeithio'r gyrff ar yr atodlen yn y Gronfa Bensiwn sydd yn rhan o gyfrifon y Llywodraeth, sef Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Sir Fwrdeistrefol Conwy a'u hysgolion sylfaenol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Gyrfaoedd Cymru Gogledd Orllewin. Gwnaed cais gan ddau o'r cyflogwyr llai am adroddiadau IAS19 hefyd. Mae'r cyflogwyr eraill yn parhau i adrodd yn unol â gofynion SAA17.

### Cyfrifo am SCR19 a SAA17

Mae mabwysiadu'r SCR19 neu SAA17 yn golygu bod rhaid i gyflogwyr adnabod yr ased neu ddiffyg net, ynghyd â chronfa pensiwnau, yn y fantolen. Rhaid iddynt hefyd gofnodi yn y cyfrif referniw cyfunol y symudiadau yn yr ased neu ddiffyg sy'n perthyn i gynllun buddion diffiniedig.

### Adroddiadau SCR19 a SAA17 ar 31/03/2020

Yn Chwefror 2020, aethpwyd ati i gasglu'r data angenrheidiol er mwyn i'r Actiwari gael cyfrifo'r wybodaeth SCR19 neu SAA17 unigol ar gyfer cyflogwyr y Gronfa. Oherwydd effaith y pandemig ar werth yr asedau ym mis Mawrth 2020, ac hefyd ymgyngoriad McCloud ym mis Gorffennaf 2020, roedd nifer o opsiynau ar gael eleni ar gyfer yr adroddiadau.

### Canlyniadau SCR19 a SAA17 fel ar 31/03/2020

Cafodd y cyflogwyr ddewis selio y canlyniadau ar ddychweliadau disgwylidig neu gwir ddychweliadau, ac hefyd roedd pedwar opsiwn gwahanol ar gael o cyfrifo am effaith McCloud. Bydd canlyniadau pob cyflogwr yn adlewyrchu eu hamgylchiadau penodol eu hunain. O ganlyniad,

dylid ystyried y diweddariad hwn fel arweiniad eglurhaol i'r prif faterion sydd yn effeithio mwyafrif y cyflogwyr, yn hytrach nag esboniad manwl o brofiad bob cyflogwr.

## **7.6 Cyfrifon Terfynol 2019/20**

Archwiliwyd y Cyfrifon Terfynol gan Deloitte, a cyflwynwyd y fersiwn terfynol yn Adran 9 i Bwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd ar 15fed Hydref. Mae'r pandemig coronafirws wedi effeithio ar marchnadoedd ariannol ac eiddo fyd- eang. Yn sgil yr anweddolrwydd yng nghyflwr y farchnad, mae adroddiadau prisio diwedd flwyddyn a ddarperir i Gronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys datganiad bod ansicrwydd prisio yn gysylltiedig a chronfeydd eiddo DU a reolir ar ran y Gronfa. Cyfanswm gwerth y buddsoddiadau mewn cronfeydd eiddo DU yn portffolio asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd ar 31 Mawrth 2020 oedd £191m.

## **7.7 Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth**

Mae'r Pwyllgor Pensiynau wedi mabwysiadu'r datganiad polisi sgiliau a gwybodaeth yn ffurfiol fel a ganlyn:

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn adnabod pwysigrwydd sicrhau bod gan yr holl staff a'r aelodau sy'n gyfrifol am weinyddiaeth gyllidol ac am wneud penderfyniadau ar ran y cynllun pensiwn yr holl wybodaeth a'r sgiliau i ymgymryd â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a ddyrannwyd iddynt.

Felly, bydd Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ceisio defnyddio unigolion gyda'r gallu a'r profiad a bydd y gronfa yn darparu hyfforddiant ar gyfer staff ac aelodau'r cyrff pensiynau sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn eu galluogi hwy i dderbyn a chynnal lefel briodol o arbenigedd, gwybodaeth a sgiliau.

## **7.8 Uned Buddsoddi**

Yn ystod 2019/20 mi wnaethom ffarwelio gyda Caroline Roberts, Rheolwr Buddsoddi y gronfa ers 8 mlynedd. Dymunaf ymdeoliad hir a hapus i Caroline a diolch am ei ymroddiad i'r Gronfa. Mae Sara Jones, wedi ymuno gyda'r tîm a rydym yn edrych ymlaen i gydweithio gyda Sara yn y dyfodol.

**Delyth Jones-Thomas**  
**Rheolwr Buddsoddi**

## 8. Adroddiad Actiwaraid

### Cyffredinol

Mae angen i'r Gronfa fod yn ddigonol i gwrdd â'i hymrwymiaidau, ac felly mae'r gronfa yn derbyn prisiant pob tair blynedd i asesu'r sefyllfa. Cafodd y Gronfa ei phrisio ddiwethaf ar 31ain Mawrth 2019 (ar Fawrth 31<sup>ain</sup> 2016 cyn hynny), ac mae'r cyfraddau newydd yn weithredol o 1af Ebrill 2020.

### Dull a Rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd

Y dulliau actiwaraid a ddefnyddiwyd yn y Prisiant oedd y "Dull Uned Amcanol" ar gyfer y gronfa gyfan ac ar gyfer cyflogwyr sy'n parhau i dderbyn aelodau newydd i'r gronfa â'r "Dull Cyrraedd Oed" ar gyfer cyflogwyr sydd ddim yn derbyn aelodau newydd i'r gronfa. Roedd y prif ragdybiaethau fel a ganlyn:

	% y flwyddyn
Cyfradd Disgownt	3.9%
Cynnydd mewn cyflog	2.6%
Cynnydd mewn pensiwn	2.3%

### Canlyniadau Prisiant 2019

Cwblhawyd y prisiad actiwaraid teirblyneddol fel ar 31 Mawrth 2019 yn ystod 2019/20. Roedd sefyllfa ariannu yr holl Gronfa wedi gwella o 91% ar 31 Mawrth 2016 i 108% ar 31 Mawrth 2019 yn bennaf oherwydd perfformiad buddsoddiadau dros y cyfnod.

Valuation Date	31 March 2016	31 March 2019
<b>Past Service Liabilities</b>	<b>(£m)</b>	<b>(£m)</b>
Employees	761	855
Deferred Pensioners	252	321
Pensioners	657	750
<b>Total Liabilities</b>	<b>1,670</b>	<b>1,925</b>
<b>Assets</b>	<b>1,525</b>	<b>2,081</b>
<b>Surplus / (Deficit)</b>	<b>(145)</b>	<b>156</b>
<b>Funding Level</b>	<b>91%</b>	<b>108%</b>

Mae cynnydd yn y sefyllfa ariannu o ddiffyg o £145m i warged o £156m. Gweler y symudiadau yn y tabl isod:

Change in the surplus/deficit position	Assets (£m)	Liabilities (£m)	Surplus / (Deficit) (£m)
<b>Last valuation at 31 March 2016</b>	<b>1,525</b>	<b>1,670</b>	<b>(145)</b>
<b>Cashflows</b>			
Employer contributions paid in	170		170
Employee contributions paid in	48		48
Benefits paid out	(167)	(167)	0
Net transfers into / out of the Fund*	4		4
Other cashflows (e.g. Fund expenses)	(4)		(4)
<b>Expected changes in membership</b>			
Interest on benefits already accrued		207	(207)
Accrual of new benefits		221	(221)
<b>Membership experience vs expectations</b>			
Salary increases greater than expected		13	(13)
Benefit increases less than expected		(0)	0
Early retirement strain (and contributions)	0	14	(14)
Ill health retirement strain		(5)	5
Early leavers less than expected		(2)	2
Pensions ceasing less than expected		(4)	4
Commutation greater than expected		(0)	0
Impact of GMP equalisation		4	(4)
Other membership experience		(29)	29
<b>Changes in market conditions</b>			
Investment returns on the Fund's assets	505		505
Changes in future inflation expectations		58	(58)
<b>Changes in actuarial assumptions</b>			
Change in demographic assumptions (excl. longevity)		(4)	4
Change in longevity assumptions		(66)	66
Change in salary increase assumption		11	(11)
Change in discount rate		7	(7)
<b>This valuation at 31 March 2019</b>	<b>2,081</b>	<b>1,925</b>	<b>156</b>

Mae'r ymrwymïadau wedi codi hefyd oherwydd newidiadau disgwylïedig yn yr aelodaeth. Mae'r lefel cronni buddion a llog ar fudd-daliadau a gronnwyd eisoes wedi cynyddu yn y prisiad yma.

Yn gyffredinol, mae'r cyfraniadau cofnodedig gan gyflogwyr ar gyfer buddion newydd a enillwyd gan aelodau (y prif gyfradd) wedi codi. Mae newidiadau yng nghyfraniadau cyflogwyr er mwyn cyllido'r diffyg (cyfradd eilaidd) wedi lleihau yn gyffredinol.

Cynhyrchodd yr actiwari adroddiad tebygol ar gyfer bob cyflogwr unigol. Cynhaliwyd fforwm ar gyfer yr holl gyflogwyr ym mis Hydref 2020, ble cyflwynodd yr Actiwari'r canlyniadau ac ymateb i gwestiynau. Roedd hyn yn sesiwn ddefnyddiol iawn a mynychodd 9 or cyflogwyr.

Cyhoeddwyd Adroddiad Prisiad Actiwaraidd 2019 terfynol Cronfa Bensiwn Gwynedd ym mis Mawrth 2020 ac mae ar gael ar safle we'r gronfa:

<https://www.cronfabensiwngwynedd.cymru/cy/Buddsoddiadau/Gwynedd-Pension-Fund-2019-Final-Valuation-Report.pdf>

### **Cyfradd Cyfraniadau Cyflogwyr**

Caiff yr Amcan Cyfraniadau ei gyflawni drwy osod cyfraniadau cyflogwyr sydd yn debyg i fod yn ddigonol i gwrdd y gost ar gyfer buddiannau newydd cronedig a drwy fynd i'r afael â unrhyw diffyg cyllido sydd yn berthynol i'r targed cyllido dros y cyfnod amser cytunedig. Yr amcan eilradd yw cynnal cyfraddau cyflogwyr cymharol sefydlog ble'n bosib.

Er mwyn i pob cyflogwr yn y Gronfa gwrdd â'r Amcan Cyfraniadau, cyfrifwyd cyfradd cynradd er mwyn cyllido cost buddiannau newydd yn y Gronfa. Yn ychwanegol, ble bo'r angen, cyfrifwyd ail gyfradd er mwyn targedu sefyllfa gronnol cyflawn o fewn cyfnod amser penodol ar gyfer cyflogwr unigol.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r Prif Gyfradd ynghyd a'r Ail Gyfradd ar y prisiad yma.

<b>Prif Gyfradd (% cyflog)</b>	<b>Ail Gyfradd</b>		
<b>1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2023</b>	<b>2020/21</b>	<b>2021/22</b>	<b>2022/23</b>
<b>20.1%</b>	<b>£358,000</b>	<b>£366,000</b>	<b>£375,000</b>

Bydd y prisiad actiwaraidd teirblynyddol nesaf ar 31 Mawrth 2022. Yn ystod 2022/23 bydd yr actwari yn gweithio i gytuno ar ganlyniadau cyfraniadau pob cyflogwyr ar gyfer Ebrill 2023 ymlaen.

## 9. Datganiad o'r Cyfrifon

### DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

#### CYFRIFOLDEB Y GRONFA BENSIWN

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd fel awdurdod gweinyddu (yn effeithiol yr ymddiriedolwr) ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151" hwnnw. Cyfrifoldeb yr Awdurdod Gweinyddu hefyd yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.



15 Hydref 2020

Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

#### CYFRIFOLDEB Y PENNAETH CYLLID

Y Pennaeth Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir allan yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r datganiad o'r cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisiau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac yn cydymffurfio â'r Côd.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

#### TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar 31 Mawrth 2020, ac incwm a gwariant y Gronfa Bensiwn am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.



9 Medi 2020

Dafydd L. Edwards B.A., C.P.F.A., I.R.R.V.  
Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

**CYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD  
2019/20**

**CYFRIF Y GRONFA**

31 Mawrth 2019 £'000		Nodiadau	31 Mawrth 2020 £'000
	<b>Delio gydag aelodau, cyflogwyr ac eraill sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r Gronfa</b>		
67,930	Cyfraniadau	7	74,416
6	Incwm arall	8	5
3,007	Trosglwyddiadau i mewn o gronfeydd pensiwn eraill	9	4,887
<b>70,943</b>	<b>Cyfanswm a dderbyniwyd</b>		<b>79,308</b>
(59,213)	Buddion a dalwyd neu sy'n daladwy	10	(62,328)
(3,128)	Taliadau i rai sy'n ymadael	11	(4,669)
<b>(62,341)</b>	<b>Cyfanswm y buddion a dalwyd</b>		<b>(66,997)</b>
<b>(14,659)</b>	<b>Costau Rheoli</b>	12	<b>(13,121)</b>
	<b>Enillion ar Fuddsoddiadau</b>		
13,964	Incwm buddsoddi	15	9,318
(195)	Treth ar incwm		0
135,660	Elw a cholledion wrth waredu buddsoddiadau a newidiadau yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad	16	(151,518)
<b>149,429</b>	<b>Enillion net ar fuddsoddiadau</b>		<b>(142,200)</b>
<b>143,372</b>	<b>Cynnydd/ (Lleihad) yn yr asedau net ar gael ar gyfer buddion yn ystod y flwyddyn</b>		<b>(143,010)</b>
	<b>Asedau net y Gronfa</b>		
1,937,975	Ar 1 o Ebrill		2,081,347
143,372	Cynnydd/ (Lleihad) yn yr asedau net		(143,010)
<b>2,081,347</b>			<b>1,938,337</b>

Mae'r nodiadau ar tudalennau 38 i 72 yn rhan o'r Datganiadau Cyllidol

## DATGANIAD ASED AU NET

31 Mawrth 2019 £'000		Nodiadau	31 Mawrth 2020 £'000
2,054,595	Asedau buddsoddi	16	1,928,515
538	Adneuon arian parod	16	783
<b>2,055,133</b>	<b>Cyfanswm Asedau Buddsoddi</b>		<b>1,929,298</b>
(123)	Ymrwymadau buddsoddi	16	0
29,226	Asedau cyfredol	21	11,929
(2,889)	Ymrwymadau cyfredol	22	(2,890)
<b>2,081,347</b>			<b>1,938,337</b>

Nid yw'r Datganiadau Cyllidol yn cynnwys ymrwymadau'r Gronfa i dalu pensiynau a budd-daliadau eraill i holl gyfranwyr presennol y Gronfa ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, ond yn hytrach mae'n crynhoi trafodion ac asedau net y Gronfa. Ystyrir ymrwymadau'r Gronfa ym mhresiadau cyfnodol yr actiwari o'r Gronfa (y mwyaf diweddar ar 31 Mawrth 2019) ac fe'u hadlewyrchir yn lefelau cyfraniadau'r cyflogwyr a bennir gan y prisiad hwn, fel bydd y Gronfa yn gallu cwrdd â ymrwymadau'r dyfodol. Dangosir gwerth presennol actiwariaidd ar gyfer buddiannau a addawyd yn Nodyn 20.



# **NODIADAU AR GYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD**

## **NODYN I – DISGRIFIAD O'R GRONFA**

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd ("y Gronfa") yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) ac fe'i gweinyddir gan Gyngor Gwynedd. Y Cyngor yw'r endid adrodd ar gyfer y Gronfa bensiwn hon. Crynodeb o'r Gronfa yw'r disgrifiad a ganlyn. Am fwy o fanylion, dylid cyfeirio at Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd 2019/20 a'r pwerau statudol sy'n tanategu'r cynllun, sef Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL).

### **a) Cyffredinol**

Deddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 sy'n llywodraethu'r Gronfa. Gweinyddir y Gronfa yn unol â'r deddfau eilaidd a ganlyn:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Gwelliant) 2014 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 (fel y'i diwygiwyd).

Mae'n gynllun pensiwn budd-dal diffiniedig cyfrannol a weinyddir gan Gyngor Gwynedd i roi pensiynau a buddion eraill i weithwyr pensiynadwy Cyngor Gwynedd, dau awdurdod lleol arall a chyrrff ar yr atodlen, cyrrff a benderfynir a chyrrff eraill a ganiateir sydd o fewn cyn ardal Cyngor Sir Gwynedd. Nid yw athrawon, swyddogion yr heddlu a gweithwyr y gwasanaeth tân wedi'u cynnwys gan eu bod yn rhan o gynlluniau pensiwn cenedlaethol eraill. Mae'r Gronfa'n cael ei goruchwylio gan y Pwyllgor Pensiynau, sef un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd.

### **b) Aelodaeth**

Mae bod yn aelod o'r CPLIL yn rhywbeth gwirfoddol ac mae gweithwyr yn rhydd i ddewis p'un a ydynt am ymuno â'r cynllun, parhau'n aelod o'r cynllun neu wneud eu trefniadau personol y tu allan i'r cynllun. Ymysg y sefydliadau sy'n cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd mae:

- Cyrff ar yr atodlen, sy'n awdurdodau lleol a chyrrff tebyg ble mae gan eu staff hawl awtomatig i fod yn aelodau o'r Gronfa.
- Cyrff a benderfynir, sy'n gyngor dinas, tref neu gymuned. Mae ganddynt yr hawl i benderfynu os caiff eu gweithwyr ymuno â'r CPLIL ac i fabwysiadu'r penderfyniad yn unol â hynny.
- Cyrff a ganiateir, sy'n sefydliadau eraill sy'n cymryd rhan yn y Gronfa dan gyntdeb mynediad rhwng y Gronfa a'r sefydliad perthnasol. Mae'r cyrrff a ganiateir yn cynnwys cyrrff gwirfoddol, elusennol a thebyg neu gontractwyr preifat sy'n ymgymryd â swyddogaeth awdurdod lleol wedi i'r swyddogaeth gael ei allanoli i'r sector preifat.

## NODYN I – DISGRIFIAD O’R GRONFA (parhad)

Mae’r cyrff canlynol yn gyflogwyr gweithredol yn y Gronfa Bensiwn:

<b>Cyrff ar yr Atodlen</b>	
Cyngor Gwynedd	Parc Cenedlaethol Eryri
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Ysgol Bryn Eilian
Cyngor Sir Ynys Môn	Ysgol Emrys ap Iwan
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru	Ysgol Pen y Bryn
Grŵp Llandrillo – Menai	Ysgol Uwchradd Eirias
GWE	ACGCC
<b>Cyrff a Benderfynir</b>	
Cyngor Cymuned Llanllyfni	Cyngor Tref Ffestiniog
Cyngor Dinas Bangor	Cyngor Tref Llandudno
Cyngor Tref Abergele	Cyngor Tref Llangefni
Cyngor Tref Bae Colwyn	Cyngor Tref Porthaethwy
Cyngor Tref Biwmares	Cyngor Tref Towyn a Bae Cinnel
Cyngor Tref Caergybi	Cyngor Tref Tywyn
Cyngor Tref Caernarfon	Cyngor Tref Conwy
Cyngor Cymuned Trefriw	Cyngor Tref Llanfairfechan
<b>Cyrff a Ganiateir</b>	
Addysg Oedolion Cymru (CAG Coleg Harlech cynt)	Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru
CAIS	Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy
Canolfan Cyngori Conwy	Gyrfaedd Cymru Gogledd Orllewin
Cydbwyllgor Claddu Caergybi	Mantell Gwynedd
Cwmni Cynnal	Medrwn Môn
Cwmni'r Frân Wen	Menter Môn
<b>Cyrff Cymunedol a Ganiateir</b>	
Cartrefi Conwy	Adra
Byw'n Iach	
<b>Cyrff Trosglwyddai a Ganiateir</b>	
ABM Catering	Caterlink
Kingdom Services Group	A E & A T Lewis

### c) **Cyllid**

Mae’r buddion yn cael eu cyllido gan gyfraniadau ac enillion ar fuddsoddiadau. Mae aelodau gweithredol y Gronfa’n talu cyfraniadau yn unol â Rheoliadau CPLIL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 ac maent yn amrywio o 2.75% i 12.5% o dâl pensiynadwy’r aelod ar gyfer y flwyddyn ariannol oedd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2020. Hefyd mae’r cyflogwyr yn gwneud cyfraniadau sy’n cael eu gosod yn seiliedig ar y prisiad actiwaraidd a gynhelir pob tair blynedd. Gweithredwyd cyfraniadau cyflogwr newydd ar gyfer y tair blynedd o 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2020 yn dilyn y prisiad a wnaethpwyd ar 31 Mawrth 2016.

## NODYN 1 – DISGRIFIAD O’R GRONFA (parhad)

### d) **Buddion**

Mae buddion pensiwn dan y CPLIL cyn 1 Ebrill 2014, yn seiliedig ar y tâl pensiynadwy terfynol a hyd y gwasanaeth pensiynadwy; gweler y crynodeb isod:

	<b>Gwasanaeth cyn 1 Ebrill 2008</b>	<b>Gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2008</b>
<b>Pensiwn</b>	Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/80 x cyflog pensiynadwy terfynol.	Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/60 x cyflog pensiynadwy terfynol.
<b>Lwmp swm</b>	Lwmp swm awtomatig o 3 x cyflog. Yn ogystal, gellir cyfnewid rhan o’r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir.	Dim lwmp swm awtomatig. Gellir cyfnewid rhan o’r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir.

O 1 Ebrill 2014, daeth y Gronfa yn gynllun cyfartaledd cyflog gyrfa. Gweler y crynodeb isod:

	<b>Gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2014</b>
<b>Pensiwn</b>	Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/49 x cyfartaledd cyflog gyrfa wedi’i adbriso (CARE)
<b>Lwmp Swm</b>	Dim lwmp swm awtomatig. Gellir cyfnewid rhan o’r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir.

Caiff pensiwn cronedig ei gynyddu'n flynyddol yn unol â’r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Darperir amrediad o fuddion eraill dan y cynllun yn cynnwys ymddeoliad cynnar, pensiynau anabledd a buddion marwolaeth. Am fwy o fanylion, cyfeiriwch at lawlyfr cynllun Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd ar gael gan Adain Pensiynau Cyngor Gwynedd.

Mae’r buddion yn gysylltiedig â mynegai er mwyn glynu at y raddfa chwyddiant cyfredol.

## NODYN 2 – SAIL PARATOI

Mae’r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 a’i sefyllfa diwedd blwyddyn ar 31 Mawrth 2020. Mae’r cyfrifon wedi’u paratoi yn unol â’r Còd Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019/20 sy’n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh), fel y’u diwygiwyd ar gyfer sector cyhoeddus y DU. Mae’r Còd yn gofyn i unrhyw safonau cyfrifyddu sydd wedi’u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadau eto gael ei ddatgan. Nid oes safonau cyfrifyddu o’r fath wedi’u nodi ar gyfer 2019/20.

Mae’r cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ac yn adrodd ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion pensiwn. Nid yw’r cyfrifon yn rhoi ystyriaeth i rwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion sy’n ddyledus ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, na gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol. Gweler gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi’u haddo, ble bo’u gwerth wedi’i gyfrifo’n seiliedig ar Safon Cyfrifo Genedlaethol (SCC) 19, yn Nodyn 20 y cyfrifon hyn. Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

## **NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISÏAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL**

### **Cyfrif y Gronfa – cydnabyddiaeth refeniw**

#### **a) Incwm o Gyfraniadau**

Cyfrifir cyfraniadau arferol, gan weithwyr a chyflogwyr fel ei gilydd, yn seiliedig ar groniad ar y raddfa ganrannol a argymhellir gan actiwari'r gronfa yn y cyfnod cyflogres y maent yn perthyn iddo.

Mae cyfraniadau cyflogwyr i ddiffygion cronfeydd yn cael eu cyfrif ar y dyddiadau y maent yn daladwy dan atodlen cyfraniadau a gosodwyd gan actwari y Gronfa, neu wrth eu derbyn os yw hynny'n digwydd cyn y dyddiad maent yn ddyledus.

Cyfrifir am gyfraniadau ychwanegol cyflogwyr a chyfraniadau straen pensiwn yn y cyfnod ble mae'r ymrwymadau dan sylw yn codi. Ystyrir bod unrhyw swm sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn, ond nad ydyw wedi'i dalu, yn ased ariannol cyfredol. Ystyrir bod unrhyw swm nad ydyw'n ddyledus nes flynyddoedd yn y dyfodol yn ased ariannol tymor hir.

#### **b) Trosglwyddiadau o gynlluniau eraill ac i gynlluniau eraill**

Mae'r gwerthoedd trosglwyddo'n cynrychioli'r symiau a dderbyniwyd ac a dalwyd yn ystod y flwyddyn i aelodau sydd naill ai wedi ymuno neu sydd wedi gadael y Gronfa yn ystod y flwyddyn ariannol ac maent yn cael eu cyfrifo yn unol â'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (gweler Nodiadau 9 a 11).

Mae trosglwyddiadau unigol i mewn i'r Gronfa ac allan ohoni'n cael eu gwneud yn seiliedig ar dderbyniion a thaliadau, ac fel arfer mae hyn yn digwydd pan dderbynnir neu pan ryddheir ymrwymadau aelod.

Cyfrifir am drosglwyddiadau i mewn i'r Gronfa gan aelodau sy'n dymuno defnyddio'r enillion o'u cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (gweler isod) i brynu buddion ar sail derbyniion ac maent wedi'u cynnwys dan Drosglwyddiadau i Mewn (gweler Nodyn 9).

Cyfrifir am drosglwyddiadau swmp (grŵp) yn seiliedig ar groniadau yn unol â thelerau'r cytundeb trosglwyddo.

#### **c) Incwm buddsoddi**

##### **i) Incwm llog**

Cydnabyddir incwm llog yng nghyfrif y Gronfa wrth iddo gronni, gan ddefnyddio'r gyfradd llog sy'n berthnasol i'r offeryn ariannol ar y dyddiad pan geir y llog neu ar darddiad y llog. Mae incwm yn cynnwys amorteiddiad unrhyw ddisgownt neu bremiwm, costau trafodi neu wahaniaethau eraill rhwng swm cario cychwynol yr offeryn a'i swm pan fo wedi aeddfedu sydd wedi'i gyfrifo yn seiliedig ar y raddfa llog perthnasol.

##### **ii) Incwm dididend**

Cydnabyddir incwm dididend ar y dyddiad pan fo'r cyfranddaliadau'n cael eu dyfynnu fel rhai cynddifidend. Cyfeirir at unrhyw swm nad ydyw wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.

##### **iii) Dosbarthiadau o gronfeydd wedi'u cyfuno yn cynnwys eiddo**

Cydnabyddir dosbarthiadau o gronfeydd wedi'u cyfuno ar y dyddiad pan maent yn cael eu cyflwyno. Cyfeirir at unrhyw swm nad ydyw wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.

### **NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISI'AU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)**

- iv) Newid yng ngwerth net buddsoddiadau ar y farchnad  
Cydnabyddir newidiadau yng ngwerth net buddsoddiadau ar y farchnad fel incwm ac maent yn cynnwys yr holl elw/colledion a wireddwyd ac na wireddwyd yn ystod y flwyddyn.

#### **Cyfrif y Gronfa – eitemau sy'n creu costau**

##### **d) Buddion sy'n daladwy**

Mae'r buddion pensiwn a lwmp swm sy'n daladwy'n cynnwys yr holl symiau a wyddys eu bod yn daladwy ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cyfeirir at unrhyw swm sy'n ddyledus ond nad ydyw wedi'i dalu yn y datganiad asedau net fel ymrwymadau cyfredol.

##### **e) Trethiant**

Mae'r Gronfa'n gynllun gwasanaeth cyhoeddus cofrestredig dan adran 1(1) Atodlen 36 Deddf Cyllid 2004 ac o ganlyniad mae'r llog a dderbynnir yn eithriadig rhag treth incwm y DU a rhag treth ar enillion cyfalaf ar yr enillion a geir o'r buddsoddiadau a werthir. Mae treth atal yn daladwy ar incwm a geir o fuddsoddiadau tramor yn y wlad ble maent yn tarddu, oni bai bod eithriad wedi'i ganiatáu. Cyfrifir am dreth anadferadwy fel cost i'r Gronfa fel mae'n codi.

##### **f) Costau rheoli**

Nid yw'r Côt yn gofyn am unrhyw ddadansoddiad o gostau gweinyddol y gronfa bensiwn. Fodd bynnag, er mwyn cael tryloywder gwell, mae'r Cyngor yn cyhoeddi costau rheoli'r gronfa bensiwn yn unol â chanllawiau CIPFA, *Accounting for Local Government Pension Scheme Management Costs*.

#### **Costau gweinyddol**

Cyfrifir am yr holl gostau gweinyddol ar sail croniadau. Mae holl gostau staff y tîm gweinyddu pensiynau'n cael eu codi'n uniongyrchol ar y Gronfa. Mae costau cysylltiol rheoli, llety a gorbenion eraill yn cael eu dosrannu i'r Gronfa yn unol â pholisi'r Cyngor.

#### **Costau arolygu a llywodraethu**

Cyfrifir am yr holl gostau arolygu a llywodraethu ar sail croniadau. Mae holl gostau staff, rheoli, llety a gorbenion eraill sy'n gysylltiedig â goruchwyllo a llywodraethu yn cael eu dosrannu i'r Gronfa yn unol â pholisi'r Cyngor.

#### **Costau rheoli buddsoddiadau**

Cyfrifir am yr holl gostau rheoli buddsoddiadau yn seiliedig ar groniad.

Cytunir ar ffioedd y rheolwyr buddsoddi a'r ceidwad allanol yn y mandadau perthnasol sy'n llywodraethu eu penodiadau. Yn fras, mae'r rhain yn seiliedig ar werth marchnad y buddsoddiadau dan eu rheolaeth ac felly maent yn cynyddu neu'n lleihau wrth i werth y buddsoddiadau hyn newid. Yn ogystal roedd y Gronfa wedi negodi gyda Fidelity International y dylai elfen o'u ffi fod yn gysylltiedig â'u perfformiad. Daeth y trefniant hwn i ben ar 30 Medi 2016, ac ers hynny mae'r ffi yn seiliedig ar werth marchnad y buddsoddiadau dan eu rheolaeth.

Mae cost derbyn cyngor ar fuddsoddiadau gan ymgynghorwyr allanol wedi'i gynnwys dan ffioedd rheoli buddsoddiadau.

Mae cyfran o gostau'r Cyngor sy'n gysylltiedig â'r amser a dreulir gan swyddogion yn rheoli buddsoddiadau yn cael ei godi ar y Gronfa.

## **NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISÏAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)**

### **Datganiad asedau net**

#### **g) Asedau ariannol**

Mae asedau ariannol wedi'u cynnwys yn y datganiad asedau net yn seiliedig ar eu gwerth teg ar y dyddiad adrodd. Cydnabyddir ased ariannol yn y datganiad asedau net ar y dyddiad y caiff y Gronfa gytundeb ei fod yn cael yr ased. O'r dyddiad hwn, bydd y Gronfa'n cydnabod unrhyw elw neu golled a ddaw yn sgil newidiadau yng ngwerth teg yr ased.

Mae gwerth y buddsoddiadau fel sy'n ymddangos yn y datganiad asedau net wedi'u pennu fel a ganlyn:

- i) **Ecwiti**  
Penderfynir gwerth buddsoddiad lle bo pris marchnad ar gael yn rhwydd ar sail dyfarniad y pris marchnad ar ddiwrnod olaf y cyfnod cyfrifo.
- ii) **Offerynnau buddsoddi cydgyfrannog**  
Mae offerynnau buddsoddi cydgyfrannog yn cael eu priso ar bris bid cau'r farchnad os yw prisiau bid a chynnig yn cael eu cyhoeddi; neu os mai dim ond un pris sydd ar gael, yna'r pris unigol adeg cau'r farchnad. Yn achos offerynnau buddsoddi cydgyfrannog sydd yn gronfeydd cronïad, mae'r newid yng ngwerth y farchnad yn cynnwys incwm sydd yn cael ei ail-fuddsoddi yn y Gronfa, net o unrhyw dreth atal berthnasol.
- iii) **Ecwiti Preifat a Isadeiledd**  
Caiff buddsoddiadau mewn cronfeydd ecwiti preifat a isadeiledd phartneriaethau cofrestredig heb eu dyfynnu eu priso ar sail rhaniad y Gronfa o'r asedau net yn y Gronfa ecwiti preifat neu'rartneriaeth gyfyngedig gan ddefnyddio'r datganiadau ariannol diweddaraf a gyhoeddir gan y rheolwyr buddsoddi priodol mewn cydymffurfïad ag arweiniad SAARh. Mae'n bwysig adnabod natur oddrychol uchel o bennu gwerth teg ar fuddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd. Maent yn reddfod seiliedig ar amcangyfrifon a dyfarniadau sy'n edrych ymlaen ac sy'n cynnwys nifer fawr o ffactorau.

#### **h) Trafodion arian tramor**

Mae difidendau, llog a phryniannau a gwerthiannau buddsoddiadau mewn arian tramor wedi'u cyfrifo'n seiliedig ar y cyfraddau cyfredol ar y farchnad ar ddyddiad y trafodion. Defnyddir cyfraddau cyfnewid cyfredol ar y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn i gyfrifo gwerth balansau arian parod a ddelir mewn cyfrifon banc arian tramor, gwerth buddsoddiadau tramor ar y farchnad a gwerthiannau sy'n aros ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

#### **i) Arian a chywerthoedd arian**

Mae arian parod yn cynnwys arian parod sydd ar gael ac adneuon ar alw. Mae'r hyn a ddisgrifir fel 'Cyfwerth ag Arian Parod' yn cael eu diffinio fel buddsoddiadau byrdymor, hylifol iawn y gellir eu trosglwyddo'n arian parod yn rhwydd, ac nad oes llawer o risg y bydd eu gwerth yn newid.

## **NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISIÄU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)**

### **j) Ymrwymadau ariannol**

Mae'r Gronfa'n cydnabod ymrwymadau ariannol fel gwerth teg ohonynt ar y dyddiad adrodd. Cydnabyddir ymrwymadau ariannol yn y datganiad asedau net ar y dyddiad y caiff y Gronfa gytundeb ei fod yn agored i'r ymrwymiad. O'r dyddiad hwn, bydd y Gronfa'n cydnabod unrhyw enillion neu golledion a ddaw yn sgil newidiadau yng ngwerth teg yr ymrwymiad.

### **k) Gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo**

Asesir gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo teirblynyddol gan actiwari'r Gronfa yn unol â gofynion SCCI9 a'r safonau actiwaraidd perthnasol.

Fel y caniateir dan SCC26, mae'r Gronfa wedi dewis datgelu gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo drwy gynnwys hysbysiad yn y datganiad asedau net (Nodyn 20).

### **l) Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol**

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn darparu cynllun cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (AVC) ar gyfer ei aelodau ac mae asedau'r cynllun hwnnw'n cael eu buddsoddi ar wahân i asedau'r Gronfa Bensiwn. Mae tair cronfa AVC. Delir y cronfeydd hyn gyda Clerical Medical, The Equitable Life Assurance Society a Standard Life. Mae'r darparwyr AVC yn diogelu buddion ychwanegol ar sail prynu arian ar gyfer yr aelodau hynny sy'n dewis talu cyfraniadau ychwanegol gwirfoddol. Mae pob aelod sy'n cymryd rhan yn y trefniadau hyn yn derbyn datganiad blynyddol hyd at 31 Mawrth yn cadarnhau'r symiau a ddelir yn eu cyfrif a'r newidiadau yn ystod y flwyddyn.

Nid yw AVCs yn cael eu cynnwys yn y cyfrifon, yn unol ag adran 4(2)(b) Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 (OS 2009/3093); yn hytrach fe'u datgelir fel nodyn (Nodyn 23).

## **NODYN 4 – DYFARNIADAU ALLWEDDOL WRTH WEITHREDU POLISIÄU CYFRIFO**

### **Buddsoddiadau ecwiti preifat ac is adeiladwaith heb eu dyfynnu**

Mae gwerth teg buddsoddiadau ecwiti preifat ac is adeiladwaith yn seiliedig yn bennaf ar amcangyfrifon a dyfarniadau sy'n edrych tua'r dyfodol sy'n cynnwys sawl ffactor. Mae rheolwyr buddsoddi'n pennu gwerth buddsoddiadau ecwiti heb eu dyfynnu ac is adeiladwaith gan ddefnyddio canllawiau sydd wedi'u gosod gan safon cyfrifo SAARh. Roedd gwerth y gwarantau preifat heb eu dyfynnu ar 31 Mawrth 2020 yn £157.2 miliwn (£145.6 miliwn ar 31 Mawrth 2019).

### **Prisiadau'r gronfa eiddo**

Mae pandemig Coronafirws (COVID-19) wedi effeithio ar farchnadoedd ariannol ac eiddo byd-eang. O ganlyniad i anweddolrwydd amodau'r farchnad, mae adroddiadau prisio diwedd blwyddyn a ddarperir i'r Gronfa yn cynnwys datganiad bod ansicrwydd prisio sylweddol yn gysylltiedig â'r gronfa eiddo'r DU a reolir ar ran y Gronfa. Cyfanswm gwerth y cronfeydd hyn ar 31 Mawrth 2020 yw £191.3m. O ganlyniad, gall prisiadau'r gronfa eiddo ar 31 Mawrth 2020 fod yn destun lefel uwch o ansicrwydd.

### **Ymrwymadau'r gronfa bensiwn**

Cyfrifir ymrwymadau'r gronfa bensiwn pob tair blynedd gan yr actiwari sydd wedi'i benodi, a darperir diweddariadau blynyddol yn ystod y blynyddoedd rhwng pob prisiad. Mae'r fethodoleg a ddefnyddir yn unol â chanllawiau cymeradwy ac yn unol ag SCCI9. Mae'r rhagdybiaethau sy'n tanategu'r prisiadau yn

cael eu cytuno gyda'r actiwari a cheir crynodeb ohonynt yn Nodyn 19. Mae'r amcangyfrif hwn yn destun amrywiaethau arwyddocaol yn seiliedig ar newidiadau i'r rhagdybiaethau gwaelodol.

## **NODYN 5 – RHAGDYBIAETHAU A WNEIR AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU PWYSIG ERAILL SY'N RHOI ANSICRWYDD WRTH AMCANGYFRIFO**

Wrth baratoi datganiadau ariannol, mae gofyn i'r rheolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y symiau yr adroddir arnynt yn y cyfrifon. Amcangyfrifir a rhagdybiaethir drwy roi ystyriaeth i brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu balansau gyda sicrwydd, gallai'r gwir ganlyniadau fod yn bur wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r eitemau yn y datganiad asedau net ar 31 Mawrth 2020, ble mae risg arwyddocaol o amrywiaethau materol yn y flwyddyn ariannol i ddod, fel a ganlyn:

Eitem	Ansicrwydd	Effaith os yw'r gwir ganlyniadau'n wahanol i'r rhagdybiaethau
Ecwiti preifat ac is adeiladwaith	Mae gwerth teg buddsoddiadau ecwiti preifat ac is adeiladwaith yn cael ei bennu'n unol âg arweiniad y British Venture Capital Association. Nid yw'r buddsoddiadau hyn yn cael eu rhestru'n gyhoeddus ac fel y cyfryw, mae elfen o amcangyfrif yn gysylltiedig â'r prisiaid.	Mae cyfanswm y buddsoddiadau ecwiti preifat ac is adeiladwaith yn y datganiadau ariannol yn £157.2 miliwn. Mae risg bod y buddsoddiad wedi'i nodi'n rhy isel neu'n rhy uchel yn y cyfrifon.
Cronfeydd eiddo	Mae pandemig Coronafirws (COVID-19) wedi effeithio ar farchnadoedd ariannol ac eiddo byd-eang. O ganlyniad i anweddolrwydd amodau'r farchnad, mae adroddiadau prisio diwedd blwyddyn a ddarperir i'r Gronfa yn cynnwys datganiad bod ansicrwydd prisio sylweddol yn gysylltiedig â'r gronfa eiddo'r DU a reolir ar ran y Gronfa. Cyfanswm gwerth y cronfeydd hyn ar 31 Mawrth 2020 yw £191.3m. O ganlyniad, gall prisiau'r gronfa eiddo ar 31 Mawrth 2020 fod yn destun lefel uwch o ansicrwydd.	Cyfanswm buddsoddiadau'r gronfa eiddo yn y datganiadau ariannol yw £191.3 miliwn. Mae risg bod y buddsoddiad wedi'i nodi'n rhy isel neu'n rhy uchel yn y cyfrifon.

## **NODYN 6 – DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD ADRODD**

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol ar ôl diwedd y flwyddyn i'w adrodd.



## NODYN 7 – CYFRANIADAU

### Yn ôl categori

2018/19		2019/20
£'000		£'000
17,003	Cyfraniadau Gweithwyr/Aelodau	17,914
	Cyfraniadau Cyflogwyr :	
50,821	• Cyfraniadau arferol	56,376
106	• Cyfraniadau adfer diffyg	126
<b>50,927</b>	<b>Cyfanswm Cyfraniadau Cyflogwyr</b>	<b>56,502</b>
<b>67,930</b>	<b>Cyfanswm Cyfraniadau Derbyniadwy</b>	<b>74,416</b>

### Yn ôl math o gyflogwr

2018/19		2019/20
£'000		£'000
22,410	Cyngor Gwynedd	27,055
40,980	Cyrff eraill ar yr atodlen	42,075
2,000	Cyrff a ganiateir	2,076
1,953	Cyrff cymunedol a ganiateir	2,623
247	Cyrff trosglwyddo a ganiateir	221
268	Cyrff a benderfynir	312
72	Cronfa gaeedig*	54
<b>67,930</b>		<b>74,416</b>

\*Cronfa gaeedig - Dyma'r cyfraniadau a dderbyniwyd gan Bwyllgor Llysoedd Ynadon Gogledd Cymru a Theatr Ardudwy yn ystod y flwyddyn a oedd yn arfer bod yn gyrff a ganiateir ond bellach sydd yn gronfa gaeedig.

## NODYN 8 – INCWM ARALL

2018/19		2019/20
£'000		£'000
1	Llôg ar Gyfraniadau Gohiriedig	2
5	Incwm ar Gyfrifo Ysgariad	3
<b>6</b>		<b>5</b>

## NODYN 9 – TROSGLWYDDIADAU I MEWN O GRONFEYDD PENSIWN ERAILL

2018/19		2019/20
£'000		£'000
3,007	Trosglwyddiadau unigol	4,887
<b>3,007</b>		<b>4,887</b>

## NODYN 10 – BUDDION A DALWYD

### Yn ôl categori

2018/19		2019/20
£'000		£'000
45,278	Pensiynau	48,356
11,949	Cymudiad a buddion ymddeol lwmp swm	12,343
1,986	Buddion marwolaeth – lwmp swm	1,629
<b>59,213</b>		<b>62,328</b>

### Yn ôl math o gyflogwr

2018/19		2019/20
£'000		£'000
16,494	Cyngor Gwynedd	17,714
30,510	Cyrff eraill ar yr atodlen	31,958
1,467	Cyrff a ganiateir	1,520
963	Cyrff cymunedol a ganiateir	1,472
61	Cyrff trosglwyddo a ganiateir	223
225	Cyrff a benderfynir	119
9,493	Cronfa gaeedig	9,322
<b>59,213</b>		<b>62,328</b>

## NODYN 11 – TALIADAU I RAI SY’N YMADAEL

2018/19		2019/20
£'000		£'000
139	Ad-daliadau i aelodau sy’n ymadael â’r gwasanaeth llai ad-daliadau treth	161
2	Taliadau i aelodau sy’n ymuno â chynllun y wladwriaeth	1
984	Trosglwyddiadau grŵp	0
2,003	Trosglwyddiadau unigol	4,507
<b>3,128</b>		<b>4,669</b>

Roedd y trosglwyddiad grŵp yn 2018/19 i’r Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

## NODYN 12 – COSTAU RHEOLI

2018/19		2019/20
£'000		£'000
1,311	Costau gweinyddol	1,491
13,283	Costau rheoli buddsoddiadau (Nodyn 14)	11,494
65	Costau arolygaeth a llywodraethu	66
0	Partneriaeth Pensiwn Cymru	70
<b>14,659</b>		<b>13,121</b>

Paratowyd y dadansoddiad hwn o gostau rheoli Cronfa Pensiwn Gwynedd yn ystod y cyfnod yn unol â chanllawiau CIPFA.

Mae'r costau gweinyddol yn cynnwys y symiau a godir ar y Gronfa Bensiwn gan Gyngor Gwynedd am gostau staff, gwasanaethau cefnogol a llety. Gweler manylion pellach yn Nodyn 24.

### Partneriaeth Pensiwn Cymru

Mae Costau Rheoli yn cynnwys cost ein hymglymiad â threfniant pŵlio buddsoddiadau cyfunol Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC). Y costau goruchwyllo a llywodraethu yn Nodyn 13 yw costau rhedeg blynyddol y pŵl sy'n cynnwys costau'r Awdurdod Cynnal a chostau Ymgynghorwyr Allanol eraill. Caiff y costau hyn eu hariannu'n gyfartal gan bob un o'r wyth Cronfa Bensiwn awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r Costau Rheoli Buddsoddiadau yn Nodyn 14 yn cynnwys ffioedd sy'n daladwy i Link Fund Solutions (gweithredwr y PPC) ac maent yn cynnwys ffioedd rheolwyr buddsoddi (sydd hefyd yn cynnwys ffi'r gweithredwr a chostau cysylltiedig eraill), costau trafodion a ffioedd gwarchodaeth. Mae'r costau hyn yn seiliedig ar gyfran ganrannol pob cronfa o asedau cyfun PPC ac fe'u didynnir o werth net asedau (NAV). Nid yw'r ffioedd rheolwr sylfaenol ar gyfer yr is-gronfeydd Global Opportunities wedi'u cynnwys yn y tabl hwn, datgelir y ffioedd hyn fel naratif i Nodyn 14. Mae rhagor o wybodaeth am y PPC ar gael yn yr adroddiad blynyddol.

Mae'r ffioedd canlynol wedi'u cynnwys yn Nodyn 12, 13 a 14 mewn perthynas â Phartneriaeth Pensiwn Cymru:

	2019/20
	£'000
<b>Ffioedd Rheoli Buddsoddiadau</b>	
Ffioedd rheolwyr Buddsoddi	1,656
Costau trafodion	924
Talwyd cyfraniadau AVC yn uniongyrchol i'r rheolwyr fel a ganlyn:

	2018/2019 £'000	2019/2020 £'000
Clerical Medical	613	601
Standard Life	14	10
<b>Cyfanswm</b>	<b>627</b>	<b>611</b>

## NODYN 24 – TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

### Cyngor Gwynedd

Cyngor Gwynedd sy'n gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd. O ganlyniad, mae perthynas gref rhwng y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn.

Cafodd y Cyngor gostau o £1,275,899 (£1,152,315 yn 2018/19) mewn perthynas â gweinyddu'r Gronfa ac yn dilyn hynny, cafodd ad-daliad am y costau hyn gan y Gronfa. Yn ogystal, y Cyngor yw un o gyflogwyr mwyaf aelodau'r Gronfa a chyfrannodd £27.06m tuag at y Gronfa yn 2019/20 (£22.41m yn 2018/19). Ar ddiwedd y flwyddyn £0.49m oedd dyled y Cyngor i'r Gronfa yn bennaf mewn perthynas â llôg a dalwyd ar fuddsoddiadau'r gronfa bensiwn a chyfraniadau ar gyfer Mawrth 2020 a £1.24m oedd dyled y Gronfa i'r Cyngor yn bennaf mewn perthynas ag ad-daliadau gan y Cyngor.

## **NODYN 24 – TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG (parhad)**

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd ddau gyfrif banc a ddelir fel rhan o Grŵp o Gyfrifon Banc Cyngor Gwynedd. Mae'r arian parod dros ben a ddelir yn y Grŵp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi bob dydd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn, yn seiliedig ar falansau dyddiol y Gronfa dros y flwyddyn. Yn ystod 2019/20, derbyniodd y Gronfa lôg o £266,995 (£166,303 yn 2018/19) gan Gyngor Gwynedd.

### **Llywodraethu**

Roedd dau aelod o'r Pwyllgor Pensiynau yn derbyn buddion pensiwn o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2019/20 (yr aelodau pwyllgor J.B. Hughes a P. Jenkins). Yn ogystal, roedd aelodau'r pwyllgor S. Glyn (aelod tan 02/05/2019) S. W. Churchman, D. Cowans, A.W.Jones, P. Read, R.W. Williams ac I. Thomas yn aelodau gweithredol o'r Gronfa Bensiwn.

Roedd tri aelod o'r Bwrdd Pensiwn yn derbyn buddion pensiwn o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2019/20 (yr aelodau bwrdd A.W. Deakin (aelod tan 06/08/2019), H. E. Jones a S.Warnes). Yn ogystal, roedd aelodau Bwrdd A.Ll. Evans, O. Richards, H. Trainor a S. E. Parry yn aelodau gweithredol o'r Gronfa Bensiwn.

### **Staff Rheoli Allweddol**

Mae Cod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol yn eithrio awdurdodau lleol rhag gofynion datgelu staff rheoli allweddol SCC24, ar y sail bod y gofynion datgelu ar gyfer tal swyddogion a lwfansau aelodau yn y Cod yn bodloni gofynion datgelu staff rheoli allweddol SCC24. Mae hyn hefyd yn berthnasol i gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Gweler y dadleniadau gofynnol yng nghyfrifon Cyngor Gwynedd.



## NODYN 25 – YMRWYMIADAU DAN GONTRACTAU BUDDSODDI

Roedd yr ymrwymadau (buddsoddiadau) cyfalaf sy'n aros ar 31 Mawrth fel a ganlyn:

	<b>Cyfanswm ymrwymadau €'000</b>	<b>Ymrwymiad ar 31 Mawrth 2019 €'000</b>	<b>Ymrwymiad ar 31 Mawrth 2020 €'000</b>
P.G. Direct 2006	20,000	776	776
P.G. Global Value 2006	50,000	3,477	3,477
P.G. Secondary 2008	15,000	1,960	1,960
P.G. Global Value 2011	15,000	2,096	2,096
P.G. Global Infrastructure 2012	40,000	8,147	8,147
P.G. Direct 2012	12,000	1,181	1,181
P.G. Global Value 2014	12,000	2,302	1,531
P.G. Direct Equity 2016	50,000	10,348	2,826
P.G. Global Value 2017	42,000	33,677	25,973
P.G. Global Infrastructure 2018	28,000	0	23,688
<b>Cyfanswm Ewro</b>	<b>284,000</b>	<b>63,964</b>	<b>71,655</b>
	<b>\$'000</b>	<b>\$'000</b>	
P.G. Emerging Markets 2011	7,000	1,082	1,082
P.G. Secondary 2015	38,000	24,692	18,401
P.G. Direct Infrastructure 2015	43,600	23,798	20,840
<b>Cyfanswm Doleri</b>	<b>88,600</b>	<b>49,572</b>	<b>40,323</b>

Mae 'PG' uchod yn cyfeirio at y Partners Group, mae'r rheolwr buddsoddi yn buddsoddi mewn meysydd 'amgen' (ecwiti preifat ac is adeiladwaith) ar ran y Gronfa.

Mae'r ymrwymadau hyn yn ymwneud â thaliadau galw sy'n aros ar gronfeydd partneriaethau cyfyngedig heb eu dyfynnu a ddelir yn rhan ecwiti preifat y portffolio. Mae'r symiau a 'elwir' gan y cronfeydd hyn yn afreolaidd o ran eu maint a'u hamseriad nifer o flynyddoedd o ddyddiad yr ymrwymiad gwreiddiol.

## NODYN 26 - ASEDAU DIBYNNOL

Mae dau o gyflogwyr sy'n gyrff a ganiateir yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd yn dal bondiau yswiriant i'w diogelu yn erbyn y posibilrwydd o fethu â bodloni eu goblygiadau pensiwn. Llunnir y bondiau hyn o blaid y Gronfa ac ni wneir taliad ohonynt oni bai bod y cyflogwr yn diffygdalu.

## **NODYN 27 - YMRWYMIADAU DIBYNNOL**

Nid oes unrhyw ymrwymadau dibynnol yn unol â'r eglurhad canlynol.

### **Achos McCloud**

Mae strwythur budd-daliadau CPLIL o 1 Ebrill 2014 yn cael ei adolygu ar hyn o bryd yn dilyn i'r Llywodraeth golli'r hawl i apelio yn erbyn McCloud ac achosion llys tebyg eraill. Mae'r llysoedd wedi dyfarnu bod yr 'amddiffyniadau trosiannol' a ddyfarnwyd i rai aelodau o gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus pan ddiwygiwyd y cynlluniau (ar 1 Ebrill 2014 yn achos y CPLIL) yn anghyfreithlon ar sail gwahaniaethu ar sail oedran. Nid yw'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) wedi darparu unrhyw fanylion am newidiadau o ganlyniad i'r achos. Fodd bynnag, disgwylir y bydd angen newidiadau i fudd-daliadau a byddant yn debygol o gynyddu gwerth rhwymedigaethau. Ar hyn o bryd, nid yw graddfa a natur unrhyw gynydd mewn rhwymedigaethau yn hysbys, sy'n cyfyngu ar allu'r Gronfa i roi lwfans cywir.

Cyhoeddodd Bwrdd Cynghori Cynllun CPLIL (SAB) gyngor i gronfeydd LGPS ym mis Mai 2019. Gan nad oes canlyniad terfynol achos McCloud, gweithredodd Actiwari'r Gronfa yn unol â chyngor SAB ym mhriiad 2019 gan brisio holl fuddion yr aelodau yn unol â Rheoliadau CPLIL cyfredol. Mae'r Gronfa, yn unol â'r cyngor yn nodyn yr SAB, wedi ystyried sut i ganiatáu ar gyfer y risg hon wrth bennu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr. Gan fod y newidiadau i'r strwythur budd-daliadau sy'n deillio o ddyfarniad McCloud yn ansicr, mae'r Gronfa wedi dewis rhoi lwfans bras trwy gynyddu'r tebygolrwydd gofynnol o lwyddiant a osodir ar gyfer cyfraddau cyfraniadau ar gyfer pob cyflogwr. Unwaith y bydd canlyniad achos McCloud yn hysbys, gall y Gronfa ailedrych ar y cyfraddau cyfrannu a osodwyd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol.

### **Lleiafswm Cyfartal Pensiwn Gwarantedig**

Cronwyd isafswm pensiwn gwarantedig (GMP) yn y CPLIL o 6 Ebrill 1978 i 5 Ebrill 1997. Yn fras, mae'r GMP yn cynrychioli'r pensiwn lleiaf y mae'n rhaid i gynllun pensiwn galwedigaethol ei roi i aelod o'r cynllun yn lle Cynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar Sail Enillion (SERPS).

Mae GMP yn eu hanfod yn anghyfartal oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys yr oeddrannau ymddeol gwahanol i ddynion (65 oed) a menywod (60 oed) a merched GMP benywaidd yn cronni ar gyfradd uwch. Er y gall hyn arwain at wahaniaethau mewn Gwerthoedd GMP, yr hyn a ystyriwyd yn fwy pwysig yw cyfanswm y mae'r aelodau'n ei dderbyn o'r CPLIL a'r wladwriaeth ac a yw hynny'n arwain at anghydraddoldeb. Yn y gorffennol, roedd y cyfrifoldeb dros dalu codiadau pensiwn blynyddol wedi'i rannu rhwng y gronfa CPLIL a'r wladwriaeth. Fodd bynnag, o ganlyniad i gyflwyno Pensiwn Gwladwriaeth Sengl newydd ym mis Ebrill 2016 daeth ansicrwydd ynghylch mynegu parhaus y swm GMP. Arweiniodd hyn at y Llywodraeth yn cyhoeddi ateb dros dro ar gyfer aelodau sy'n cyrraedd Oedran Pensiwn y Wladwriaeth rhwng 6 Ebrill 2016 a 5 Rhagfyr 2018, a gafodd ei ymestyn yn ddiweddarach i o leiaf 5 Ebrill 2021, sy'n golygu bod y gronfa CPLIL yn talu am bopeth h.y. pensiwn cychwynnol a phob cynnydd.

Mae Hymans Robertson, Actiwari'r Gronfa, wedi dweud, o ystyried bod yr ateb dros dro wedi ei ymestyn i 5 Ebrill 2021, eu bod wedi dilyn datrysiad tymor hir (h.y. ôl 2021) y Llywodraeth o drosi GMP i gynllun pensiwn ym mhriadau 31 Mawrth 2019.

## **NODYN 28 - COLLEDION YN SGIL AMHARIADAU**

### **a) Amhariadau am ddyledion drwg ac amheus**

Fel y esbonnir yn Nodyn 5 nid oes unrhyw amhariad wedi ei gwneud ar gyfer dyledion drwg ac amheus.

### **b) Amhariad yr adneuoŷn ym Manc Gwlad yr Iâ**

Yn ystod 2008/09, roedd y Cyngor wedi adneuo £4m gyda Heritable Bank, banc wedi'i gofrestru yn y DU dan Gyfraith yr Alban. Roedd £565,200 o'r buddsoddiad hwnnw'n perthyn i'r Gronfa Bensiwn. Rhoddwyd y cwmni yn nwylo'r gweinyddwyr ar 7 Hydref 2008. Derbyniodd y Cyngor ddychweliad o £3,938,407, sef 98% gan y gweinyddwyr hyd at 31 Mawrth 2020. Mae'r weinyddiaeth yn parhau, ond disgwylir i'r holl swm gael ei adennill maes o law.

## **NODYN 29 – CYHOEDDIADAU'R GRONFA BENSIWN**

Cynhyrchir Adroddiad Blynyddol ychwanegol ynghylch y Gronfa Bensiwn. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys cyfrifon y Gronfa yn ogystal â gwybodaeth bellach ynglŷn â gweithgareddau gweinyddu a buddsoddi. Mae'n cynnwys y dogfennau canlynol:

Datganiad Strategaeth Buddsoddi

Datganiad Strategaeth Gyllido

Datganiad Polisi Llywodraethu a'r Datganiad Cydymffurfriad a'r Drefn Llywodraethu

Datganiad Polisi Cyfathrebu

Gellir cael copiâu ar safle we'r Gronfa Bensiwn [www.cronfabensiwngwynedd.cymru](http://www.cronfabensiwngwynedd.cymru) ar dudalen buddsoddiadau neu drwy gysylltu â Delyth Jones-Thomas ar 01286 679128.

## 10. Atodiadau

### 10.1 Datganiad Strategaeth Gyllido

#### I Cyflwyniad

##### 1.1 Beth yw'r ddogfen hon?

Dyma Ddatganiad Strategaeth Gyllido (DSC) Cronfa Bensiwn Gwynedd ("y Gronfa"), a weinyddir gan Gyngor Gwynedd ("yr Awdurdod Gweinyddu").

Fe'i paratowyd gan yr Awdurdod Gweinyddu ar y cyd ag actwari'r Gronfa, Hymans Robertson LLP, ac mewn ymgynghoriad â chyflogwyr ac ymgynghorwyr buddsoddi'r Gronfa. Mae'n weithredol o 12 Mawrth 2020.

##### 1.2 Beth yw Cronfa Bensiwn Gwynedd?

Mae'r Gronfa'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) cenedlaethol. Sefydlwyd y CPLIL gan Lywodraeth y DU i weithwyr llywodraeth leol, a gweithwyr eraill sydd wedi'u cyflogi gan gyrrff tebyg neu gysylltiedig ledled y DU, er mwyn iddynt gael buddion wrth iddynt ymddeol ac ar ôl iddynt farw. Yr Awdurdod Gweinyddu sy'n rhedeg Cronfa Bensiwn Gwynedd, sef CPLIL ardal Gwynedd, ac mae'n sicrhau ei fod:

- yn derbyn cyfraniadau priodol gan weithwyr a chyflogwyr, a thaliadau trosglwyddo priodol;
- yn buddsoddi'r cyfraniadau'n briodol, gyda'r nod i asedau'r Gronfa dyfu dros amser yn sgil incwm o fuddsoddiadau a thwf cyfalaf; ac
- yn defnyddio'r asedau hynny i dalu buddion o'r Gronfa i aelodau (pan maent yn ymddeol, ac am weddill eu hoes), ac i'w dibynyddion (pan mae aelodau'n marw), yn unol â diffiniadau Rheoliadau'r CPLIL. Fel arfer, defnyddir asedau hefyd i dalu gwerthoedd trosglwyddo a chostau gweinyddol.

Gweler crynodeb o rolau a chyfrifoldebau'r partïon allweddol sy'n gysylltiedig â rheoli'r Gronfa yn [Atodiad B](#).

##### 1.3 Pam fod angen Datganiad Strategaeth Gyllido ar y Gronfa?

Mae Rheoliadau CPLIL yn gwarantu buddion gweithwyr, ac nid ydynt yn newid yn unol â gwerthoedd y farchnad neu gyfraniadau'r cyflogwr. Bydd yr enillion a ddaw o fuddsoddiadau yn helpu i dalu am rai o'r buddion, ond ddim am y cwbl, ac yn bendant nid oes sicrwydd o hynny. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gosod swm penodol i gyfraniadau'r gweithwyr, ar lefel sy'n talu cyfran yn unig o gost y buddion.

Felly, mae angen i gyflogwyr dalu'r hyn sy'n weddill o ran y gost o roi buddion i aelodau a'u dibynyddion.

Mae'r DSC yn canolbwyntio ar sut y mesurir ymrwymadau'r cyflogwr, pa mor gyflym y caiff yr ymrwymadau hyn eu hariannu, a sut mae cyflogwyr neu grwpiau o gyflogwyr yn talu am eu hymrwymadau eu hunain. Amlinella'r datganiad hwn sut mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi cydbwysu nodau sy'n tynnu'n groes i'w gilydd:

- fforddiadwyedd cyfraniadau'r cyflogwr,
- tryloywder prosesau,
- sefydlogrwydd cyfraniadau cyflogwyr, a

- bod y sail gyllido yn ddarbodus.

Mae gan DSC ofynion rheoleiddiol hefyd, fel y gwelir yn Atodiad A.

Mae'r DSC yn grynodedb o ddull y mae'r Gronfa yn ei defnyddio i gyllido ei ymrwymadau, ac mae hyn yn cynnwys cyfeirio at bolisiau eraill y Gronfa; nid yw'n ddatganiad cynhwysfawr o bolisi ar yr holl faterion. Mae'r DSC yn ffurfio rhan o fframwaith sy'n cynnwys:

- Rheoliadau CPLIL;
- y Dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau (sy'n cadarnhau cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr am y tair blynedd nesaf) sydd mewn atodiad i'r adroddiad prisio;
- ffactorau actwaraidd ar gyfer prisio trosglwyddiadau unigol, costau ymddeol yn gynnar a chostau prynu gwasanaeth ychwanegol;
- Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi / Datganiad Strategaeth Fuddsoddi'r Gronfa (gweler Rhan 4)

#### **1.4 Sut mae'r Gronfa a'r DSC hwn yn effeithio arnaf i?**

Mae'n dibynnu pwy ydych chi?

- aelod o'r Gronfa, h.y. yn weithiwr ar hyn o bryd, yn gyn-weithiwr, neu'n ddibynnydd: mae angen i'r Gronfa fod yn sicr ei bod yn casglu ac yn dal digon o arian er mwyn medru talu eich buddion yn llawn bob tro;
- cyflogwr yn y Gronfa (neu sy'n ystyried ymuno â'r Gronfa): byddwch eisiau gwybod o dro i dro sut mae eich cyfraniadau'n cael eu cyfrifo, a bod hynny'n deg o gymharu â chyflogwyr eraill yn y Gronfa, yn ogystal â pha bryd fyddai angen i chi dalu mwy. Noder bod DSC yn berthnasol i'r holl gyflogwyr sy'n rhan o'r Gronfa;
- Aelod Etholedig sy'n perthyn i gyngor sy'n rhan o'r Gronfa: byddwch eisiau bod yn sicr fod y cyngor yn cydbwysu'r angen i gadw arian darbodus wrth gefn ar gyfer buddion ymddeol a marwolaeth aelodau gyda materion eraill sy'n galw ar arian y cyngor;
- Trethdalwr: mae eich cyngor yn ceisio taro'r cydbwysedd fel yr uchod a hefyd lleihau symud arian fel croes gymhorthdal rhwng gwahanol genedlaethau o drethdalwyr.

#### **1.5 Beth mae'r DSC yn bwriadu ei wneud?**

Mae'r DSC yn amlinellu beth yw amcanion strategaeth gyllido'r Gronfa, megis:

- sicrhau diddyledrwydd hirdymor y Gronfa, edrych ar bethau yn yr hirdymor mewn modd darbodus. Bydd hyn yn sicrhau bod digon o arian ar gael i fodloni holl fuddion aelodau / dibynyddion wrth iddynt ddod yn daladwy;
- sicrhau bod cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn weddol sefydlog pan fo hynny'n briodol;
- lleihau'r cyfraniadau arian sydd yn rhaid i gyflogwyr eu talu i'r Gronfa, drwy adnabod y cysylltiad rhwng asedau ac ymrwymadau a mabwysiadu strategaeth fuddsoddi sy'n cydbwysu risg ac enillion (**DS** bydd hyn hefyd yn lleihau'r gost i drethdalwyr);
- i adlewyrchu gwahanol nodweddion y gwahanol gyflogwyr wrth bennu cyfraddau'r cyfraniadau. Fel rhan o hyn mae'n rhaid i'r Gronfa gael strategaeth gyllido glir a thryloyw i ddangos sut y gall pob cyflogwr gyflawni ei ymrwymadau yn y modd gorau yn y dyfodol;
- a defnyddio mesurau rhesymol i leihau'r risg i gyflogwyr eraill ac yn y pendraw i drethdalwyr pe bai cyflogwr yn methu talu ei ymrwymadau pensiwn.

## **I.6 Sut mae dod o hyd i bethau yn y ddogfen hon?**

Yn Rhan 2, ceir cyflwyniad bras i rai o brif egwyddorion cyllido, h.y. penderfynu faint ddylai cyflogwr gyfrannu i'r Gronfa o dro i dro.

Yn Rhan 3 ceir amlinelliad o sut mae'r Gronfa'n cyfrifo cyfraniadau gwahanol gyflogwyr mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae Rhan 4 yn dangos sut mae'r strategaeth gyllido'n cael ei chysylltu i strategaeth fuddsoddi'r Gronfa.

Mae'r Atodiadau'n cynnwys gwybodaeth fanylach ar amrywiaeth o faterion, megis:

- A. y cefndir o ran rheoleiddio, gan gynnwys sut a phryd fydd yr DSC yn cael ei adolygu,
- B. pwy sy'n gyfrifol am beth,
- C. y materion sydd angen i'r Gronfa eu monitro, a sut mae'n rheoli ei risgiau,
- D. mwy o fanylion am y cyfrifiadau actwaraidd sydd eu hangen,
- E. y rhagdybiaethau sydd gan actwari'r Gronfa am y dyfodol,
- F. rhestr termau sy'n egluro'r termau technegol a ddefnyddir yma o dro i dro.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill, gallwch gysylltu yn y lle cyntaf â Delyth Jones- Thomas, Rheolwr Buddsoddi drwy anfon e-bost i [delythwynjonesthomas@gwynedd.llyw.cymru](mailto:delythwynjonesthomas@gwynedd.llyw.cymru).

## 2 Materion Cyllido Sylfaenol

(Ceir disgrifiadau manwl a helaeth yn Atodiad D).

### 2.1 Sut mae'r actwari'n mesur y gyfradd cyfraniadau sydd ei hangen?

Mae hon yn broses tri cham:

1. Cyfrifo'r targed cyllido eithaf ar gyfer y cyflogwr hwnnw, h.y. nifer yr asedau y dylai eu dal yn ddelfrydol er mwyn medru talu buddion ei holl aelodau. Gweler Atodiad E am fwy o fanylion ynghylch y rhagdybiaethau yr ydym yn eu gwneud i bennu'r targed cyllido hwnnw;
2. Pennu'r cyfnod amser sydd gan y cyflogwr i gyrraedd y targed cyllido hwnnw. Gweler y tabl yn 3.3 a Nodyn (c) am fwy o fanylion;
3. Cyfrifo cyfradd gyfraniadau'r cyflogwr fel ei bod o leiaf yn debygol o gyflawni'r targed cyllido o fewn y cyfnod amser penodedig, gan ystyried gwahanol ganlyniadau economaidd posib a pha mor debygol ydynt yn ystod y cyfnod amser hwnnw. Gweler 2.3 isod, a'r tabl yn 3.3 Nodyn (e) am fwy o fanylion.

### 2.2 Beth yw cyfradd gyfraniadau pob cyflogwr?

Caiff hyn ei ddisgrifio'n fanylach yn Atodiad D. Fel arfer mae cyfraniadau cyflogwr yn cynnwys dwy elfen:

- a) amcan o gost y buddion wrth iddynt gynyddu pob blwyddyn, ar ôl tynnu cyfraniadau'r aelod ei hun a chynnwys costau gweinyddol. Gelwir hyn yn "y gyfradd sylfaenol" a chaiff ei mynegi fel canran o dal pensynadwy'r aelodau; yn ogystal ag
- b) addasiad am y gwahaniaeth rhwng y raddfa Sylfaenol uchod a'r cyfraniad gwirioneddol mae angen i'r cyflogwr ei dalu, y cyfeirir ato fel y "gyfradd eilaidd". Yn gyffredinol, nod talu'r gyfradd Eilaidd fydd sicrhau i'r cyflogwr ddychwelyd i gyllid llawn dros gyfnod priodol (y "cyfnod amser"). Gellir mynegi'r gyfradd Eilaidd fel canran y cyflog a/neu fel swm ariannol ym mhob blwyddyn.

Mae cyfraddau pob cyflogwr i'w gweld yn Nhystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau'r Gronfa, sy'n ffurfio rhan o'r Adroddiad Prisio Actiwariaid. Caiff cyfraniadau'r cyflogwyr eu mynegi fel lleiafswm, a bydd cyflogwyr yn medru talu cyfraniadau ar gyfradd uwch. Bydd actwari'r Gronfa yn cyfrif unrhyw gyfraddau uwch yn y prisiadau nesaf, h.y. bydd yn cael ei adlewyrchu fel credyd y tro nesaf caiff cyfraniadau'r cyflogwr eu cyfrifo.

### 2.3 Pa fathau o gyflogwyr sy'n rhan o'r Gronfa?

Yn hanesyddol, roedd y CPLIL ar gyfer gweithwyr awdurdod lleol yn unig. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd, yn sgil arallgyfeirio a newidiadau i ddarpariaeth gwasanaethau lleol, mae llawer mwy o gyflogwyr gwahanol bellach yn rhan o'r Gronfa.

Yn y bôn, caiff gweithwyr o'r sector cyhoeddus sy'n darparu rhyw fath o wasanaeth i'r gymuned leol fod yn rhan o'r CPLIL. Er mai gweithwyr awdurdod lleol (a chyn-weithwyr) fydd y mwyafrif o'r aelodau, mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr sy'n rhan o'r gronfa yn rhai sy'n darparu gwasanaeth yn lle (neu ar y cyd) gwasanaethau awdurdodau lleol: ysgolion academi, contractwyr, cymdeithasau tai, elusennau ac ati.

Mae Rheoliadau CPLIL yn diffinio'r gwahanol fathau o gyflogwyr fel a ganlyn:

**Cyrff ar yr atodlen** - cynghorau, a chyflogwyr penodol eraill megis ysgolion academi a sefydliadau addysg bellach. Rhaid i'r rhain adael i weithwyr nad ydynt yn gymwys i ymuno ag unrhyw gynllun sector cyhoeddus arall (megis Cynllun yr Athrawon) gael mynediad i'r CPLIL. Gelwir y cyflogwyr yn hyn am eu bod wedi cael eu henwi mewn atodlen yn Rheoliadau CPLIL.

**Cyflogwyr sy'n dynodi** - gall cyflogwyr megis cynghorau tref a chymuned fod yn rhan o CPLIL drwy benderfyniad (ac ni chaiff y Gronfa wrthod mynediad os yw'r penderfyniad wedi'i gymeradwyo). Gall y cyflogwyr hyn ddynodi pa weithwyr sy'n gymwys i ymuno â'r CPLIL.

Gall cyflogwyr eraill fod yn rhan o'r Gronfa drwy gael cytundeb derbyn, a chyfeirir at y rhain fel 'cyrff a ganiateir'. Fel arfer mae gan y cyflogwyr hyn sydd â "chymuned o ddi-ddordeb" gyda chyflogwr arall yn y cynllun - **cyrff cymunedol a ganiateir** ("CAB") neu'r sawl sy'n darparu gwasanaeth ar ran cyflogwr sy'n rhan o'r cynllun - **cyrff trosglwyddo a ganiateir** ("TAB"). Bydd y CABs yn cynnwys cymdeithasau tai ac elusennau, ac yn gyffredinol, contractwyr yw'r TABs. Mae'r Gronfa'n medru gosod meini prawf i bennu a gaiff cyflogwyr fod yn rhan ohoni ai peidio. Gall wrthod gadael iddynt gymryd rhan os nad ydynt yn cyrraedd y gofynion a amlinellir ym mholisi mynediad y Gronfa. (DS Nid yw'r termau CAB a TAB yn cael eu defnyddio mewn Rheoliadau CPLIL diweddar, yn hytrach cyfunir y ddau dan un term, sef 'cyrff a ganiateir'; fodd bynnag, rydym wedi cadw at yr hen dermau fan hyn gan fod hynny'n ddefnyddiol ar gyfer sefydlu strategaethau cyllido ar gyfer y gwahanol gyflogwyr).

## 2.4 Sut mae'r gyfradd gyfraniadau a fesurir yn amrywio i wahanol gyflogwyr?

Ystyrir pob un o'r tri cham uchod wrth bennu cyfraniadau (rhoddir mwy o fanylion yn [Rhan 3](#) ac [Atodiad D](#)).

1. Mae'r **targed cyllido** yn seiliedig ar gyfres o ragdybiaethau am y dyfodol, (e.e. enillion buddsoddi, chwyddiant, disgwyliad oes pensiynwyr). Er hynny, os yw cyflogwr yn dod at ddiwedd ei gyfranogiad yn y Gronfa yna gellid gosod ei darged cyllido ar sail fwy darbodus, fel bod ei ymrwymadau yn llai tebygol o gael eu gwasgaru ymysg cyflogwyr eraill ar ôl iddo derfynu ei gyfranogiad;
2. Y **cyfnod amser** yw'r cyfnod sydd ei angen i gyflawni'r targed cyllido. Efallai y bydd cyflogwyr yn cael cyfnod amser llai os oes ganddynt aelodaeth ragweladwy lai parhaol neu os nad oes ganddynt bwerau i godi trethi i gynyddu cyfraniadau pe bai enillion ar fuddsoddiadau yn llai na'r disgwyl;
3. Bydd y **tebygolrwydd o gyflawni'r** targed cyllido yn ystod y cyfnod amser hwnnw yn ddibynol ar farn y Gronfa ar gryfder ymrwymadau cyfreithiol a gallu ariannol y cyflogwr yn ogystal â'i broffil cyllido. Pan ystyrir fod cyflogwr yn wannach, neu o bosib yn rhoi'r gorau i'r Gronfa, yna bydd y tebygolrwydd fydd ei angen yn cael ei osod yn uwch a fydd yn ei dro yn cynyddu'r cyfraniadau sydd eu hangen (ac fel arall).

Rhaid i'r cyflogwr dalu costau unrhyw ymddeoliadau cynnar nad ydynt ar sail salwch, gweler [3.6](#).

Ceir manylion ar gostau ymddeoliadau cynnar ar sail salwch yn [3.7](#) a [3.8](#).

## 2.5 Sut mae cyfrifo lefel cyllido?

Diffinnir "lefel gyllido" cyflogwr fel cymhareb:

- gwerth cyfran asedau'r cyflogwr ar y farchnad (gweler [Atodiad D](#), Rhan [D5](#) am fwy o fanylion am sut y caiff hyn ei gyfrifo), i'r
- gwerth y mae'r actwari yn ei roi ar y buddion sydd wedi cronni hyd yn hyn ar gyfer gweithwyr a chyn-weithwyr y cyflogwr (yr "ymrwymadau"). Mae actwari'r Gronfa yn cytuno ar y rhagdybiaethau sydd i'w defnyddio i gyfrifo'r gwerth hwn gyda'r Awdurdod Gweinyddu.

Os yw hyn yn llai na 100% bydd gan y cyflogwr "ddiffyg", a hwn yw diffyg y cyflogwr; os yw'n fwy na 100% yna dywedir fod gan y cyflogwr "warged". Cyfrifir y diffyg neu'r gwaged trwy edrych ar y gwahaniaeth rhwng gwerth yr asedau a gwerth yr ymrwymadau.



Mae'n bwysig nodi mai dim ond mesuriadau ar un adeg benodol mewn amser yw'r diffyg/gwarged a'r lefel gyllido, a hynny'n seiliedig ar gyfres benodol o ragdybiaethau am y dyfodol. Er ein bod yn cydnabod y bydd gan amrywiol bartion ddiddordeb yn y mesurau hyn, y prif fater i'r rhan fwyaf o gyflogwyr yw pa mor debygol yw hi y bydd eu cyfraniadau'n ddigon i dalu am fuddion eu haelodau (ar ôl eu hadio i'w cyfran asedau cyfredol ac enillion buddsoddi disgwylidig).

Yn fyr, mae diffygion a lefelau cyllido yn fesurau byrdymor, ond mae pennu cyfraniadau yn fater mwy hirdymor.

## **2.6 Sut mae'r Gronfa'n adnabod y gall lefel y cyfraniadau effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth y cyngor a chyflogwyr ac ar y dreth gyngor?**

Mae'r Awdurdod Gweinyddu ac actwari'r Gronfa yn ymwybodol iawn, os yw popeth arall yn hafal, y bydd gorfod talu cyfraniad uwch i'r Gronfa yn golygu fod llai o arian ar gael i'r cyflogwr ei wario ar ddarparu gwasanaethau. Er enghraifft:

- Gall cyfraniadau uwch i'r Gronfa Bensiwn arwain at lefelau is o wariant gan y cyngor, a gall hynny yn ei dro effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i wasanaethau'r cyngor, a/neu roi mwy o bwysau ar lefelau'r dreth gyngor;
- Bydd cyflogwyr eraill yn darparu gwahanol wasanaethau i'r gymuned leol, efallai trwy gymdeithasau tai, gwaith elusennol neu drwy gcontractio gwasanaethau'r cyngor. Os oes angen iddynt dalu mwy o gyfraniadau pensiwn i'r CPLIL gall hyn effeithio ar eu gallu i ddarparu gwasanaethau lleol am gost resymol.

Er bod hyn i gyd yn wir, dylid cadw mewn cof hefyd:

- Mae'r Gronfa'n cynnig sicrwydd ariannol amhrisiadwy i deuluoedd lleol, boed hynny i'r sawl sydd wedi gweithio yn y gorffennol i wasanaethu eu cymuned leol a bellach wedi ymddeol, neu i'w teuluoedd ar ôl iddynt farw;
- Rhaid i'r Gronfa gael yr asedau i allu talu am y buddion ymddeol a marwolaeth sydd yn ei dro'n golygu fod yn rhaid i bob un o'r gwahanol gyflogwyr dalu drostynt eu hunain. Bydd talu cyfraniadau is heddiw yn golygu fod yn rhaid talu mwy fory: nid yw gohirio talu yn newid cyfanswm ymrwymiad y cyflogwr i'r Gronfa o ran ei weithwyr a'i gyn-weithwyr.
- Yn gyffredinol, bydd pob cyflogwr ond yn talu am ei weithwyr a'i gyn-weithwyr (a'u dibynyddion) ei hun, ac nid am rai cyflogwyr eraill sy'n rhan o'r Gronfa;
- Ymdrecha'r Gronfa i gynnal cyfraddau cyfraniadau cyflogwr gweddol sefydlog pan fo hynny'n briodol ac yn bosib. Fodd bynnag, mae symudiad diweddar yn yr hun a gaiff ei reoleiddio yn golygu fod y Llywodraeth yn blaenoriaethu diddyledrwydd o fewn pob cenhedlaeth dros sefydlogrwydd y cyfraddau cyfraniadau;
- Dymuna'r Gronfa osgoi sefyllfa lle mae cyflogwr ar ei hôl hi gymaint wrth reoli ei ddiffyg cyllido nes nad oes modd ei reoli: gall sefyllfa o'r fath wneud y cyflogwr yn fethdalwr a byddai'n rhaid i gyflogwyr eraill y Gronfa fod yn gyfrifol am y diffyg. Mewn sefyllfa o'r fath, byddai gwasanaethau'r cyflogwyr hynny'n dioddef o ganlyniad;
- Dylai bod lefel cyfraniadau'r cyngor i'r Gronfa yn un addas er mwyn gwarchod buddiannau'r gwahanol genedlaethau o drethdalwyr. Er enghraifft, bydd angen gwneud yn iawn am fethiant i dalu digon o gyfraniadau yn rhai blynyddoedd drwy dalu gormod mewn blynyddoedd eraill; bydd y cyngor

yn dymuno lleihau cymaint â phosib y graddau y bydd trethdalwyr yn elwa ar draul rhai sy'n talu ar adeg wahanol.

Drwyddi draw, mae'n amlwg fod angen taro cydbwysedd rhwng yr angen i'r Gronfa gynnal lefelau cyllido darbodus ac angen y cyflogwyr i ddyrannu eu hadnoddau'n briodol. Mae'r Gronfa'n cyflawni hyn drwy ddefnyddio amrywiol dechnegau sy'n effeithio ar gynnydd y cyfraniadau i wahanol raddau (gweler 3.1). Wrth benderfynu pa dechneg i'w defnyddio ar gyfer cyflogwyr, mae'r Awdurdod Gweinyddu'n edrych ar sefyllfa ariannol y cyflogwr, h.y. ei allu i ddiwallu ei ymrwymadau ariannu a'r cyfnod amser perthnasol.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ystyried asesiad risg o'r cyflogwr gan ddefnyddio sail wybodaeth sy'n cael ei monitro a'i diweddarau'n rheolaidd. Bydd y gronfa ddata yn cynnwys gwybodaeth megis y math o gyflogwr, ei broffil aelodaeth a'i sefyllfa gyllido, unrhyw warantwyr neu ddarpariaeth ernes, newidiadau perthnasol a ragwelir ac ati.

Er enghraifft, pan fo Awdurdod Gweinyddu'n weddol hyderus y bydd cyflogwr yn medru cyflawni ei ymrwymadau cyllido, bydd y Gronfa'n caniatáu dewisiadau megis sefydlogi (gweler 3.3 Nodyn (b)), cyfnod amser hwy o gymharu â chyflogwyr eraill, a/neu debygolrwydd is o gyrraedd eu targed cyllido. Bydd dewisiadau o'r fath yn arwain at lefelau cyfraniadau is na'r arfer yn y tymor byr. Caiff hyn ei ganiatáu oherwydd y disgwylir y bydd y cyflogwr yn parhau i allu cyflawni ei rwymedigaethau am nifer o flynyddoedd.

Ar y llaw arall, os oes amheuaeth y bydd cyflogwr yn medru cyflawni ei ymrwymadau cyllido neu wrthsefyll newid sylweddol yn ei ymrwymadau, efallai y bydd angen targed cyllido uwch, a/neu gyfnod byrrach i adfer y diffyg o gymharu â chyflogwyr eraill, a/neu debygolrwydd uwch o gyrraedd y targed.

Mae'r Gronfa'n mynd ati i ofyn am fewnbwn gan gyflogwyr, gan gynnwys mewnbwn i'w drefniadau cyllido, a hynny drwy amrywiol ffyrdd: gweler [Atodiad A](#).

## **2.7 Pa ddull mae'r Gronfa wedi'i gymryd i ddelio ag ansicrwydd sy'n deillio o achos llys McCloud a'i effaith bosibl ar strwythur buddion CPLIL?**

Mae strwythur buddion LGPS o 1 Ebrill 2014 yn cael ei adolygu ar hyn o bryd yn dilyn i'r Llywodraeth golli'r hawl i apelio yn erbyn McCloud ac achosion llys tebyg eraill. Mae'r llysoedd wedi dyfarnu bod yr 'amddiffyniadau trosiannol' a ddyfarnwyd i rai aelodau o gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus pan ddiwygiwyd y cynlluniau (ar 1 Ebrill 2014 yn achos yr CPLIL) yn anghyfreithlon ar sail gwahaniaethu ar sail oedran. Ar adeg ysgrifennu, nid oedd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) wedi darparu unrhyw fanylion am newidiadau o ganlyniad i'r achos. Fodd bynnag, disgwylir y bydd angen newidiadau i fudd-daliadau a byddant yn debygol o gynyddu gwerth rhwymedigaethau. Ar hyn o bryd, nid yw graddfa a natur unrhyw gynnydd mewn rhwymedigaethau yn hysbys, sy'n cyfyngu ar allu'r Gronfa i roi lwfans cywir.

Cyhoeddodd Bwrdd Cyngori Cynllun CPLIL (SAB) gyngor i gronfeydd CPLIL ym mis Mai 2019. Gan nad oedd canlyniad terfynol i achos McCloud erbyn 31 Awst 2019, mae Actiwari'r Gronfa wedi gweithredu yn unol â chynghor SAB ac wedi prasio holl fuddion aelodau yn unol â y Rheoliadau CPLIL cyfredol.

Mae'r Gronfa, yn unol â'r cyngor gan SAB, wedi ystyried sut i ganiatáu ar gyfer y risg yma wrth bennu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr. Gan fod y newidiadau sy'n deillio o ddyfarniad McCloud yn ansicr, mae'r Gronfa wedi dewis rhoi lwfans bras trwy gynyddu'r tebygolrwydd o lwyddiant angenrheidiol ar gyfer cyfraddau cyfraniadau ar gyfer pob cyflogwr.

Unwaith y bydd canlyniad achos McCloud yn hysbys, gall y Gronfa ailedrych ar y cyfraddau cyfrannu a osodwyd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol.

Mae'r Gronfa hefyd wedi ystyried dyfarniad McCloud yn ei dull o brisio rhoi'r gorau iddi. Gweler nodyn (j) i dabl 3.3 i gael mwy o wybodaeth.

## **2.8 Pryd fydd y prisiad actiwaraid nesaf?**

Ar 8 Mai 2019 cyhoeddodd MHCLG ymgynghoriad yn gofyn am farn ar gynigion (ymhlith pethau eraill) i ddiwygio cylch prasio CPLIL yng Nghymru a Lloegr o gylch prasio tair blynedd i gylch prasio pedair blynedd.

Ar 7 Hydref 2019 cadarnhaodd MHCLG mai cylch prasio nesaf CPLIL yng Nghymru a Lloegr fydd 31 Mawrth 2022, waeth beth fo'r ymgynghoriad parhaus. Felly cyfarwyddodd y Gronfa i Actiwari'r Gronfa ardystio cyfraddau cyfraniadau ar gyfer cyflogwyr am y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2023 fel rhan o brisiad 2019 y Gronfa.

### 3 Cyfrifo cyfraniadau ar gyfer Cyflogwyr unigol

#### 3.1 Sylwadau cyffredinol

Un o brif heriau'r Awdurdod Gweinyddu yw cydbwysu'r angen am gyfraniadau cyflogwr sefydlog a fforddiadwy gyda'r angen i gadw golwg darbodus ar gyllido yn yr hirdymor a sicrhau diddyledrwydd y Gronfa. Gyda hyn mewn golwg, mae proses tri cham y Gronfa'n adnabod y prif faterion:

1. Beth yw targed darbodus (ond nid yn ormodol) priodol?
2. Faint o amser ddylai'r cyflogwr ei gael i gyrraedd y targed? Dylai hyn fod yn realistig ond nid yn rhy hir neu bydd perygl na fydd y cyflogwr yn cyrraedd y targed cyllido o gwbl.
3. Pa debygolrwydd sydd ei angen i gyrraedd y targed cyllido? Bydd hyn bob amser yn llai na 100% am nad oes modd bod yn sicr o symudiadau'r farchnad yn y dyfodol.  
Gellir defnyddio "bariau" tebygolrwydd uwch ar gyfer cyflogwyr os yw'r Gronfa'n dymuno gostwng y risg y bydd y cyflogwr yn rhoi'r gorau iddi ac yn gadael diffyg i'r cyflogwyr eraill dalu amdano.

Sonnir am y materion hyn a rhai eraill perthnasol yn y Rhan hon.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n cydnabod y bydd weithiau amgylchiadau penodol yn effeithio ar gyflogwyr unigol nad ydynt yn hawdd i'w rheoli o fewn y rheolau a'r polisiâu a amlinellir yn y Datganiad Strategaeth Gyllido. Felly, gall yr Awdurdod Gweinyddu benderfynu, ar ei ddisgresiwn ei hun, rhoi cyfarwyddyd i'r actwari ddefnyddio dulliau cyllido gwahanol ar sail bob achos unigol ar gyfer cyflogwyr penodol.

#### 3.2 Effaith talu cyfraniadau is

Mewn amgylchiadau cyfyngedig penodol, gall yr Awdurdod Gweinyddu ganiatáu cyflogwyr i dalu eu cyfraniadau ar lefel is na'r hyn a asesir ar eu cyfer gan ddefnyddio'r broses tri cham uchod. Yn ei ddisgresiwn llwyr, gall yr Awdurdod Gweinyddu:

- ymestyn y cyfnod amser ar gyfer targedu cyllido'n llawn;
- addasu'r tebygolrwydd gofynnol o gyrraedd y targed cyllido;
- caniatáu i gyflogwr fod yn rhan o fecanweithiau sefydlogi'r Gronfa;
- caniatáu ymestyn y cyfnod ar gyfer codi neu ostwng cyfraniadau'n raddol;
- cyfuno cyfraniadau rhwng cyflogwyr sydd â nodweddion tebyg; a
- derbyn rhyw fath o ernes neu warant yn lle talu cyfradd gyfraniadau uwch.

Yn aml, bydd cyflogwyr sy'n cael caniatâd i ddefnyddio un neu fwy o'r dulliau uchod yn talu cyfraniad, am gyfnod, sy'n is na'r hyn sydd ei angen i gyrraedd ei darged cyllido yn ystod y cyfnod amser priodol gyda'r tebygolrwydd llwyddiant gofynnol. Dylai cyflogwyr o'r fath werthfawrogi:

- nid yw cyflymder talu'r cyfraniadau'n effeithio ar eu gwir ymrwymiad yn yr hirdymor (h.y. gwir gost y buddion sy'n daladwy i'w gweithwyr a'u cyn-weithwyr yn y pendraw);
- rhagdybir y bydd talu cyfraniadau is yn y tymor byr yn arwain at llai o enillion buddsoddi yn y dyfodol ar gyfran y cyflogwr o'r asedau. Felly, gall gohirio swm penodol o gyfraniad arwain at gyfraniadau uwch yn yr hirdymor: ac
- fe all gymryd fwy o amser i gyrraedd eu targed cyllido, os yw popeth arall yn gyfartal.

Ar y dudalen nesaf (3.3) ceir crynodeb o sut mae'r prif bolisiau cyllido yn amrywio ar gyfer gwahanol fathau o gyflogwyr, gyda nodiadau manylach i ddilyn pan fo angen.

Mae Rhan 3.4 yn ymdrin ag amrywiol faterion cyllido eraill sy'n berthnasol i bob cyflogwr.

### 3.3 Y gwahanol ddulliad a ddefnyddiwyd ar gyfer gwahanol gyflogwyr

Math o gyflogwr	Cyrff ar yr Atodlen		Cyrff Cymunedol a Ganiateir a Chyflogwyr sy'n Dynodi		Cyrff Trosglwyddo a Ganiateir*
	Awdurdodau Lleol, yr Heddlu a Pharc Cenedlaethol Eryri	Pob Corff Arall ar yr Atodlen (Cyngorau Tref a Phlwyf)	Agored i ddechreuwr newydd	Wedi cau i ddechreuwr newydd	
Is-fath					(pawb)
Sail Targed Cyllido a ddefnyddiwyd	Parhaus, honnir cyfranogiad hirdymor yn y Gronfa (gweler <u>Atodiad E</u> )		Parhaus, ond gall symud i 'sail giltiau' - gweler <u>Nodyn (a)</u>		Parhaus, honnir cyfnod contract penodol yn y Gronfa (gweler <u>Atodiad E</u> )
Dull prif gyfradd	(gweler <u>Atodiad D - D.2</u> )				
Cyfradd cyfrannu sefydlog?	Oes - gweler <u>Nodyn (b)</u>	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes
Uchafswm cyfnod amser - <u>Nodyn (c)</u>	17 mlynedd	17 mlynedd	14 mlynedd	Oes gwaith yn y dyfodol	Cyfnod contract heb ei gwblhau
Cyfradd eilaidd - <u>Nodyn (d)</u>	Canran y cyflog				
Ymdrin â gwarged	Ymdrin drwy drefniant sefydlogi	Lleihau cyfraniadau drwy gyfradd eilaidd negyddol	Lleihau cyfraniadau drwy gyfradd eilaidd negyddol		Lleihau cyfraniadau drwy wasgaru'r gwarged dros gyfnod y contract sy'n weddill
Tebygolrwydd o gyflawni'r targed - <u>Nodyn (e)</u>	70%	75%	75%	75%	75%
Camau cyfraniadau gwahanol**	Bydd gostyngiadau yn berthnasol yn llawn o 2020/21. Bydd cynnydd yn cael ei gyflwyno'n raddol dros 3 blynedd				

<b>Adolygu cyfraddau - Nodyn (f)</b>	Mae hawl gan yr Awdurdod Gweinyddu i adolygu cyfraddau a symiau cyfraniadau, a'r lefel o sicrwydd a ddarperir, yn rheolaidd rhwng prisiadau			Wedi'u hadolygu'n benodol yn nhair blynedd diwethaf y contract
<b>Cyflogwr newydd</b>	amh.	amh.	<b>Nodyn (g)</b>	<b>Nodiadau (g) a (h)</b>
<b>Darfod cymryd rhan: dyled darfyddiad yn daladwy</b>	Honnir nad yw darfyddiad yn bosib yn gyffredinol, oherwydd bod rhwymedigaeth gyfreithiol ar Gyrrff ar yr Atodlen i gymryd rhan yn CPLIL. Mewn achosion prin pan fydd darfyddiad yn digwydd (oherwydd newidiadau ym mheirianwaith y Llywodraeth er enghraifft), bydd yr egwyddorion dyled darfyddiad a ddefnyddir yn unol â <u>Nodyn (i)</u> .		Gellir ei ddarfod yn amodol ar delerau cytundeb derbyn. Cyfrifir dyled darfyddiad ar sail sy'n briodol i amgylchiadau'r darfyddiad - gweler <u>Nodyn (i)</u> .	Tybir y bydd y cyfranogiad yn dod i ben ar ddiwedd y contract. Bydd dyled / credyd rhoi'r gorau iddi wedi'i gyfrifo ar sail ymadael y contractwr, oni bai bod y cytundeb derbyn yn cael ei derfynu'n gynnar gan y contractwr, ac os felly byddai'r sail ymadael risg isel yn berthnasol. Mae cyflogwr gosod yn atebol am ddiffygion a chyfraniadau yn y dyfodol.

\* Pan fydd yr Awdurdod Gweinyddol yn cydnabod cytundeb cyfradd cyfraniadau sefydlog rhwng awdurdod gosod a chontractwr, bydd cyfradd cyfraniadau ardystiedig y cyflogwr yn deillio yn unol â'r fethodoleg a bennir yn y cytundeb rhannu risg. Yn ogystal, yn yr achosion hyn, ar ôl i'r asedau ddod i ben, bydd asedau a rhwymedigaethau'r contractwr yn trosglwyddo yn ôl i'r cyflogwr gosod heb grisialu unrhyw ddiffyg na gwarged. Nodir mwy o fanylion am gyfundebau cyfradd cyfraniadau sefydlog yn nodyn (i).

\*\* Mae newidiadau i gyfraddau cyfrannu ar gyfer y cyflogwyr agored nad ydynt yn sefydlog (ac eithrio Cyrff Derbyn Trosglwyddai) yn destun mecanwaith graddol. Mae hyn yn gweithio trwy gyfrifo'r gwahaniaeth yng nghyfanswm y cyfraddau yn 2016 a 2019 cyn defnyddio'r mecanwaith, ac yna cyfyngu'r cynnydd neu'r gostyngiad dilynol fel a ganlyn: a) os yw'r gwahaniaeth yn 5.0% neu lai o dâl, bydd y gyfradd yn newid yn llawn gwahaniaeth, neu b) os yw'r gwahaniaeth yn fwy na 5.0% o'r cyflog, yna bydd y gyfradd yn newid 5.0% ynghyd â hanner y gwahaniaeth uwchlaw 5.0%. Mae'r cyfraddau cyfrannu ar gyfer cyflogwyr sydd ar gau i newydd-ddyfodiaid, ac sy'n mynd tuag at roi'r gorau iddi, wedi'u gosod yn hafal i gyfraddau sylfaenol y cyflogwyr.

### **Nodyn (a) (Sail allanfa giltiau ar gyfer Cyrff Cymunedol a Ganiateir (CABs) a Chyflogwyr sy'n Dynodi wedi cau i ddechreuwr newydd)**

Mewn amgylchiadau:

- pan fo'r cyflogwr yn Gyflogwr sy'n Dynodi, neu'n Gorff a Ganiateir ond nid yn Gorff Trosglwyddo a Ganiateir, a
- phan nad oes gan y cyflogwr warantwr, a
- phan fydd y cytundeb derbyn yn debygol o ddod i ben, neu phan fydd y cyflogwr yn debygol o golli'i aelod gweithredol olaf, o fewn amserlen a ystyrir yn briodol gan yr Awdurdod Gweinyddu i arwain at newid mewn cyllido,

gallai'r Awdurdod Gweinyddu osod targed cyllido uwch (e.e. defnyddio cyfradd a osodir yn gyfartal â chynnyrch giltiau tymor hir) erbyn yr amser fydd y cytundeb yn dod i ben neu phan fydd yr aelod gweithredol olaf yn gadael, er mwyn diogelu cyflogwyr eraill yn y Gronfa. Bydd y polisi hwn yn cynyddu cyfraniadau rheolaidd ac yn lleihau'r posibilrwydd, ond ddim yn cael gwared ar y posibilrwydd yn gyfan gwbl, y bydd angen taliad diffyg terfynol gan y cyflogwr pan ymgymerir â phrisiad darfyddiad.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu hefyd yn cadw'r hawl i fabwysiadu'r dull uchod mewn perthynas â'r Cyflogwyr sy'n Dynodi a'r Cyrff a Ganiateir sydd heb warantwr, pan ystyrir bod cryfder y cyfamod yn wan ond na cheir disgwyliad uniongyrchol y bydd y cytundeb derbyn yn darfod neu'r Cyflogwr sy'n Dynodi yn newid ei ddynodiad.

### **Nodyn (b) (Sefydlogi)**

Mae sefydlogi yn fecanwaith lle cedwir amrywiadau cyfradd cyfraniadau cyflogwr o flwyddyn i flwyddyn o fewn ystod a bennwyd o flaen llaw, gan felly ganiatáu i gyfraddau'r cyflogwyr hynny fod yn gymharol sefydlog. Er budd sefydlogrwydd a fforddiadwyedd cyfraniadau cyflogwr, credai'r Awdurdod Gweinyddu, ar ôl cyngor gan Actwari'r Gronfa, y gellir ystyried sefydlogi cyfraniadau fel dull darbodus hirdymor o hyd. Fodd bynnag, dylai cyflogwyr sydd â chyfraddau cyfraniadau wedi'u 'sefydlogi' (ac felly, allai fod yn talu llai na'u cyfraddau cyfraniadau damcaniaethol) fod yn ymwybodol o risgiau'r dull hwn a dylent ystyried gwneud taliadau ychwanegol i'r Gronfa os yn bosib.

Mae'r mecanwaith sefydlogi hwn yn caniatáu i anweddolrwydd marchnad fuddsoddi fyrdymor gael ei reoli fel nad yw'n achosi anweddolrwydd mewn cyfraddau cyfraniadau cyflogwr, ar y sail y gellir llunio gweledigaeth hirdymor ar y mewnlif o arian net, enillion ar fuddsoddiadau a chryfder cyfamod y cyflogwr.

Mae'r mecanwaith sefydlogi presennol yn berthnasol os:

- yw'r cyflogwr yn diwallu meini prawf cymhwyster a osodir gan yr Awdurdod Gweinyddu (gweler isod) ac;
- os na cheir unrhyw ddiwyddiadau materol sy'n arwain at y cyflogwr yn dod yn anghymwys, e.e. gostyngiadau sylweddol mewn aelodaeth weithredol (oherwydd allanoli neu ddiswyddiadau), neu newidiadau yn natur y cyflogwr (oherwydd ailstrwythuro gan y Llywodraeth efallai), neu newidiadau yn sicrwydd y cyflogwr.

Ar sail gwaith modelu helaeth a gynhaliwyd ar gyfer ymarfer prisiaid 2019 (gweler Adran 4), cytunwyd bod yn rhaid i bob cyflogwr sefydlog dalu ei gyfradd sylfaenol fel isafswm dros y tair blynedd nesaf, gyda'r gostyngiad yng nghyfanswm y gyfradd yn ddarostyngedig i derfyn yn ddibynnol ar lefel ariannu 2019 (hy terfyn o 1.0% o'r cyflog os yw rhwng 100% a 104%, 1.5% o'r cyflog os yw rhwng 105% a 119%, a 2.0% o'r cyflog os yw'n 120% neu'n uwch). Mae'r manylion sefydlogi wedi hynny fel a ganlyn:



<b>Math o gyflogwr</b>	<b>Cynghorau, yr Heddlu a Pharc Cenedlaethol Eryri</b>
<b>Uchafswm cynnydd cyfraniadau</b>	1% o dâl
<b>Uchafswm lleihad cyfraniadau</b>	1% o dâl

Bydd y meini prawf sefydlogi a chyfyngiadau'n cael eu hadolygu yn y prisiad swyddogol nesaf. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Gweinyddu yn cadw'r hawl i adolygu meini prawf a chyfyngiadau sefydlogi ar unrhyw bryd cyn hynny, ar sail aelodaeth a/neu newidiadau cyflogwr fel y disgrifir uchod.

### **Nodyn (c) (Uchafswm cyfnod amser)**

Mae'r uchafswm cyfnod amser yn cychwyn ar ddechrau'r gyfradd cyfrannu ddiwygiedig (1 Ebrill 2020 ar gyfer prisiad 2019). Fel arfer, byddai'r Awdurdod Gweinyddu yn disgwyl i'r un cyfnod gael ei ddefnyddio mewn prisiadau dilynol bob tair blynedd, ond byddai'n cadw'r hawl i gynnig cyfnodau amser gwahanol, pan nad oes unrhyw ddechreuwr newydd er enghraifft.

### **Nodyn (d) (Cyfradd eilaidd)**

Bydd y gyfradd eilaidd yn cael ei gosod fel canran o'r cyflog ar gyfer pob cyflogwr.

### **Nodyn (e) (Tebygolrwydd o gyflawni'r targed cyllido)**

Mae targed cyllido'n cael ei gyfrifo i bob cyflogwr, ynghyd â chyfnod amser perthnasol ar gyfer cyrraedd y targed hwnnw. Gosodir y cyfraniadau, wedi'u cyfuno gyda chyfran asedau presennol y cyflogwr a symudiadau disgwylidig y farchnad dros y cyfnod amser, fel bod y targed cyllido'n cael ei gyflawni gydag isafswm tebygolrwydd penodol. Bydd cyfnod tebygolrwydd uwch gofynnol yn arwain at gyfraniadau gofynnol uwch, ac fel arall.

Mae'r modd y gosodir cyfraniadau drwy ddefnyddio'r tri cham hyn, a rhagolygon economaidd perthnasol, yn cael ei ddisgrifio mewn mwy o fanylder yn Atodiad D.

Gosodir gwahanol debygolrwydd ar gyfer gwahanol gyflogwyr yn dibynnu ar eu natur a'u hamgylchiadau: yn fras, bydd tebygolrwydd uwch yn berthnasol oherwydd un neu fwy o'r hyn a ganlyn:

- cred y Gronfa bod y cyflogwr yn peri risg cyllido mwy na chyflogwyr eraill,
- nid oes gan y cyflogwr bwerau codi trethi;
- nid oes gan y cyflogwr warantwr na sicrwydd digonol arall i gefnogi'i sefyllfa cyllido; ac/neu
- mae'r cyflogwr yn debygol o ddarhod cymryd rhan y Gronfa yn y tymor hir neu ganolig. .

### **Nodyn (f) (Adolygiadau Rheolaidd)**

Gall adolygiadau o'r fath gael eu sbarduno gan ddigwyddiadau arwyddocaol, gan gynnwys ond ddim yn gyfyngedig i: gostyngiadau sylweddol mewn cyflogres, amgylchiadau cyflogwr yn newid, ailstrwythuro gan y Llywodraeth yn effeithio ar fusnes y cyflogwr, neu fethiant i dalu cyfraniadau neu drefnu sicrwydd priodol fel sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Gweinyddu.

Gall canlyniad adolygiad olygu bod angen cynyddu cyfraniadau (drwy gryfhau'r rhagdybiaethau actwaraidd a fabwysiadwyd a/neu symud at lefelau ariannol o gyfraniadau diffyg fel symiau ariannol), a/neu lefel uwch o sicrwydd neu warant.

### **Nodyn (g) (Cyrff Newydd a Ganiateir)**

O 1 Hydref 2012 ymlaen, cyflwynodd Rheoliadau Amrywiol 2012 CPLIL ofynion gorfodol newydd ar gyfer pob Corff a Ganiateir fyddai'n ymuno â'r Gronfa o'r dyddiad hwnnw. Dan y Rheoliadau hyn, bydd angen i bob Corff newydd a Ganiateir ddarparu rhyw fath o sicrwydd, megis gwarant gan y cyflogwr sy'n gosod, indemniad neu fond. Mae angen y sicrwydd i ymdrin â rhai neu bob un o'r isod:

- cost straen unrhyw ddiswyddiadau/ymddeoliadau cynnar sy'n deillio o derfynu'r contract yn rhy gynnar;
- lwfans ar gyfer y risg o ased yn tanberfformio;
- lwfans ar gyfer y risg o gwmp mewn enillion giltiau;
- lwfans ar gyfer y posibilrwydd o gyfraniadau cyflogwr ac aelod ddim yn cael eu talu i'r Gronfa; a/neu'r
- diffyg presennol.

Cyrff Trosglwyddo a Ganiateir: Ar gyfer pob Corff Trosglwyddo a Ganiateir (TABs), rhaid i'r sicrwydd fodloni'r Awdurdod Gweinyddu yn ogystal â'r cyflogwr sy'n gosod, a bydd yn cael ei ail-asesu bob blwyddyn. Gweler hefyd Nodyn (i) isod.

Cyrff Cymunedol a Ganiateir: Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ystyried ceisiadau gan CABs (neu gyrrff tebyg eraill, megis partneriaethau GIG adran 75) i ymuno â'r Gronfa dim ond os ydynt wedi'u noddi gan Gorff ar yr Atodlen gyda phwerau codi trethi, sy'n gwarantu eu rhwymedigaethau a hefyd yn darparu rhyw fath o sicrwydd fel yr uchod.

Mae'r dulliau uchod yn lleihau'r risg, i gyflogwyr eraill yn y Gronfa, o orfod ymdrin ag unrhyw ddiffyg ariannol posib o ran Cyrff a Ganiateir yn darford gyda diffyg heb ei dalu.

### **Nodyn (h) (Cyrff Trosglwyddo Newydd a Ganiateir)**

Fel arfer mae TAB newydd yn ymuno â'r Gronfa o ganlyniad i rai gwasanaethau gan gyflogwr presennol (Corff ar yr Atodlen fel arfer megis cyngor neu academi) yn gosod/allanoli i sefydliad arall ('contractwr'). Mae hyn yn cynnwys trosglwyddiad TUPE rhai staff o'r cyflogwr sy'n gosod i'r contractwr. O ganlyniad, ar gyfer parhad y contract, mae'r contractwr yn gyflogwr newydd sy'n cymryd rhan yn y Gronfa fel bod y gweithwyr sy'n trosglwyddo yn cadw eu cymhwysedd am aelodaeth CPLIL. Ar ddiwedd y contract, mae gweithwyr yn dychwelyd at y cyflogwr sy'n gosod neu at gontractwr arall.

Fel arfer, byddai'r TAB yn cael ei osod yn y Gronfa fel cyflogwr newydd gyda chyfrifoldeb am holl fuddion cronus y gweithwyr sy'n trosglwyddo; yn yr achos hwn, fel arfer byddai'r contractwr yn derbyn dyraniad asedau cychwynnol cywerth â gwerth rhwymedigaethau buddion Cronfa'r gweithwyr o'u gwasanaeth yn y gorffennol. Y *quid pro quo* yw bod disgwyl i'r contractwr wedyn sicrhau bod ei ran ef o'r Gronfa hefyd wedi'i chyllido'n llawn ar ddiwedd y contract: gweler Nodyn (i).

Mae gan gyflogwyr sy'n 'allanoli' hyblygrwydd yn y modd maent yn gallu ymdrin â'r posibilrwydd o'r contractwr yn ymgymryd â'r risg pensiwn. Yn benodol, ceir tri gwahanol lwybr y bydd cyflogwyr o'r fath yn dymuno eu mabwysiadu efallai. Yn amlwg, oherwydd bod y risg yn disgyn ar y cyflogwr sy'n gosod y contract yn y pen draw, hwy ddylai gytuno ar y llwybr priodol gyda'r contractwr.

i) Cydrannu

Dan yr opsiwn hwn, caiff y contractwr ei gydrannu gyda'r cyflogwr sy'n gosod. Yn yr achos hwn, mae'r contractwr yn talu'r un gyfradd â'r cyflogwr sy'n gosod, allai gael ei wneud dan ddull sefydlogi.

ii) Cyflogwr sy'n gosod yn cadw risgiau cyn-contract

Dan yr opsiwn hwn, byddai'r cyflogwr sy'n gosod yn cadw cyfrifoldeb am asedau a rhwymedigaethau o ran y gwasanaeth a gronnir cyn dyddiad cychwyn y contract. Byddai'r contractwr yn gyfrifol am ymrwymadau yn y dyfodol sy'n cronni o ran staff a drosglwyddwyd. Gallai cyfradd cyfrannu'r contractwr amrywio o un prisiaid i'r llall. Byddai'n atebol am unrhyw ddiffyg ar ddiwedd cyfnod y contract o ran asedau ac ymrwymadau sydd i'w priodoli i'r gwasanaeth a gronnir yn ystod cyfnod y contract.

iii) Cyfradd cyfrannu sefydlog wedi'i chytuno

O dan yr opsiwn hwn, mae'r contractwr yn talu cyfradd cyfrannu sefydlog trwy gydol ei gyfranogiad yn y Gronfa ac nid yw'n talu unrhyw ddiffyg nac yn derbyn credyd ymadael. Hynny yw, mae'r risgiau pensiwn yn "pasio drwodd" i'r cyflogwr gosod.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn barod i weinyddu unrhyw un o'r opsiynau uchod cyhyd â bod y dull wedi'i gofnodi yn y Cytundeb Derbyn yn ogystal â'r cytundeb trosglwyddo. Fel arall, gall gadael i gyflogwyr a Chyrff Derbyn Trosglwyddwyr weithredu unrhyw un o'r opsiynau uchod trwy ymrwymo i Gytundeb Ochr ar wahân. Ni fyddai'r Awdurdod Gweinyddu o reidrydd yn barti i'r cytundeb ochr hwn, ond gall drin y Cytundeb Derbyn fel pe bai'n ymgorffori'r telerau cytundeb ochr lle caniateir hyn gan ddeddfwriaeth neu fel arall yn cael ei gytuno gan bob parti.

Dylai unrhyw gytundeb rhannu risg sicrhau bod rhyw elfen o drosglwyddiadau risg i'r contractwr lle mae'n ymwneud â'u penderfyniadau ac mae'n annheg rhoi baich ar y cyflogwr sy'n gadael gyda'r risg honno. Er enghraifft, dylai'r contractwr fod yn gyfrifol fel rheol am gostau pensiwn sy'n codi o:

- codiadau cyflog uwch na'r cyffredin, gan gynnwys yr effaith mewn perthynas â gwasanaeth cyn i'r contract gychwyn hyd yn oed os yw'r cyflogwr gosod yn ysgwyddo cyfrifoldeb am yr olaf o dan (ii) uchod; a
- penderfyniadau diswyddo ac ymddeol yn gynnar.

**Nodyn (i) (Cyrff a Ganiateir yn Darfod)**

Er gwaethaf darpariaethau'r Cytundeb Derbyn, gallai'r Awdurdod Gweinyddu ystyried unrhyw un o'r isod fel sbardunau ar gyfer darfod cytundeb derbyn gydag unrhyw fath o gorff:

- Yr aelod gweithredol olaf yn darfod cymryd rhan yn y Gronfa (DS golyga newidiadau diweddar yn Rheoliadau CPLIL bod gan yr Awdurdod Gweinyddu ddisgresiwn i oedi cymryd camau gweithredu am hyd at dair blynedd, felly os yw'r cyflogwr yn derbyn un neu fwy o aelodau gweithredol yn y Gronfa yn ystod y cyfnod hwnnw, yna ni sbardunir darfyddiad. Yn ôl polisi presennol y Gronfa, gadewir hwn fel disgresiwn ac efallai y bydd yn berthnasol neu'n amherthnasol mewn unrhyw achos penodol);
- Y Corff a Ganiateir yn fethdaliadol, yn dirwyn i ben neu'n diddymu;

- Unrhyw achos o dor-amod gan y Corff a Ganiateir o ran unrhyw un o'i rwymedigaethau dan y Cytundeb y maent wedi methu eu cywiro i fodlonrwydd y Gronfa;
- Methiant y Corff a Ganiateir i dalu unrhyw symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa o fewn y cyfnod sy'n ofynnol gan y Gronfa; neu
- Methiant y Corff a Ganiateir i adnewyddu neu addasu lefel y bond neu'r indemniad, neu i gadarnhau gwarantwr arall priodol, fel sy'n ofynnol gan y Gronfa.

Yn achos darfyddiad, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn cyfarwyddo actwari'r Gronfa i gynnal prisiad darfyddiad er mwyn pennu a oes yna unrhyw ddiffyg neu warged. Pan fo diffyg, fel rheol gofynnir am daliad o'r swm hwn yn llawn gan y Corff a Ganiateir; lle mae gwarged yn unol â'r Rheoliadau. Wrth wneud y penderfyniad hwn, ac wrth benderfynu ar faint unrhyw gredyd ymadael, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ystyried maint unrhyw warged, cyfran y gwarged sy'n codi o ganlyniad i gyfraniadau cyflogwr y Corff a Ganiateir, unrhyw sylwadau (megis cytundebau rhannu risg. neu warantau) a wnaed gan y Corff a Ganiateir ac unrhyw gyflogwr sy'n darparu gwarant i'r Corff Derbyn ac unrhyw ffactorau eraill y mae'r Awdurdod Gweinyddu yn eu hystyried yn berthnasol. Darperir Polisi Credyd Ymadael y Gronfa yn Atodiad G.

Fel y trafodwyd yn Adran 2.7, mae strwythur buddion LGPS o 1 Ebrill 2014 yn cael ei adolygu ar hyn o bryd yn dilyn i'r Llywodraeth gollir hawl i apelio yn erbyn McCloud ac achosion llys tebyg eraill. Mae'r Gronfa wedi ystyried sut y bydd yn adlewyrchu'r ansicrwydd cyfredol ynghylch canlyniad y dyfarniad hwn yn ei dull o brisio rhoi'r gorau iddi. Ar gyfer prisiadau rhoi'r gorau iddi cyn i unrhyw newidiadau i strwythur buddion LGPS (o 1 Ebrill 2014) gael eu cadarnhau, polisi'r Gronfa yw y bydd yr actiwari yn adolygu proffil yr aelodaeth sy'n dod i ben ac, os yw'n berthnasol, gall ychwanegu llwyth i ddod â gwerth cronid budd-dal cyflogwr ar ôl 2014 i ben, fel amcangyfrif o effaith bosibl y newidiadau budd-dal sy'n deillio o hynny.

Ar gyfer Cyrff nad ydynt yn Trosglwyddo a Ganiateir sy'n dod â'u cyfranogiad i ben yn wirfoddol naill ai eu hunain neu gan y Gronfa, neu os fydd darfyddiad yn cael ei sbarduno, rhaid i'r Awdurdod Gweinyddu geisio diogelu buddion gweithwyr cyfredol eraill. Felly, bydd yr actwari yn mabwysiadu dull, i'r graddau sy'n ymarferol resymol, sy'n diogelu gweithwyr eraill rhag y tebygolrwydd o unrhyw golled faterol yn codi yn y dyfodol.

- a) Os nad oes gwarantwr yn bodoli, yna er mwyn diogelu gweithwyr eraill yn y Gronfa bydd ymrwymadau darfyddiad a diffyg terfynol fel arfer yn cael eu cyfrifo drwy ddefnyddio 'sail darfod giltiau', sy'n fwy darbodus na'r sail barhaus. Nid oes gan hyn lwfans am berfformiad gwell buddsoddiadau posib yn y dyfodol uwchlaw enillion giltiau, ac mae wedi ychwanegu lwfans ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol o ran disgwyliad oes. Gallai hyn arwain at yr angen am ddyledion darfyddiad sylweddol.
- b) Os oes gwarantwr ar gyfer diffygion yn y dyfodol a chyfraniadau, ystyrir manylion y gwarant cyn i'r prisiad darfyddiad gael ei gynnal. Mewn rhai achosion, y gwarantwr yn syml yw gwarantwr y dewis olaf ac felly cynhelir y prisiad darfyddiad yn gyson â'r dull a ddilynwyd petai dim gwarantwr yn ei le. Fel arall, os nad yw'r gwarantwr yn syml yn warantwr y dewis olaf, gellir cyfrifo'r darfyddiad drwy ddefnyddio'r sail barhaus a ddisgrifir yn Atodiad E;
- c) Eto, yn dibynnu ar natur y gwarant, mae'n bosib trosglwyddo ymrwymadau ac asedau'r Corff blaenorol a Ganiateir i'r gwarantwr, heb fod angen crisialu unrhyw ddiffyg. Gellir mabwysiadu'r dull hwn os fydd y cyflogwr yn methu â thalu'r cyfraniadau dyledus, ac mae hyn wedi'i gynnwys yn nhelerau'r gwarant.

Dan (a) a (b), fel arfer byddai unrhyw ddiffyg ariannol yn cael ei osod ar y Corff a Ganiateir sy'n gadael fel taliad lwmp swm unigol. Os nad yw hyn yn bosib, yna byddai'r Gronfa'n rhannu'r taliad ar yr amod bod ychydig o sicrwydd yn ei le i'r cyflogwr megis indemniad bond neu warant.

Os nad yw Cronfa'n gallu adennill y taliad gofynnol yn llawn, yna rhaid i'r symiau heb eu talu gael eu rhannu rhwng yr holl weithwyr eraill yn y Gronfa. Efallai y bydd hyn yn gofyn i'r Dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau sy'n effeithio gweithwyr eraill yn y Gronfa gael ei hadolygu ar unwaith, neu gael ei adlewyrchu yn y cyfraddau cyfraniadau a osodir yn y prisiad ffurfiol nesaf ar ôl dyddiad y darfyddiad.

Fel dewis arall, os fydd Corff a Ganiateir sy'n darfod yn parhau i fod mewn busnes, mae'r Gronfa yn ôl disgrisiwn llwyr yn cadw'r hawl i ymrwmo i gytundeb gyda'r Corff a Ganiateir sy'n darfod. Dan y cytundeb hwn, byddai'r Gronfa'n derbyn sicrwydd arall priodol i'w ddal yn erbyn unrhyw ddiffyg, a byddai'n cynnal y prisiad darfyddiad ar sail barhaus: byddai taliadau adennill diffyg yn deillio o'r ddyled darfyddiad hon. Byddai'r dull hwn yn cael ei fonitro fel rhan o bob prisiad bob tair blynedd: mae'r Gronfa'n cadw'r hawl i ddychwelyd at 'sail darfod giltiau' a gofyn i unrhyw ddiffyg cyllido a nodir gael ei dalu ar unwaith. Efallai fydd yr Awdurdod Gweinyddu angen gofyn am gyngor cyfreithiol mewn achosion o'r fath, oherwydd ni fyddai gan y Corff unrhyw aelodau sy'n cyfrannu.

### **3.4 Hyblygrwydd ychwanegol yn lle sicrwydd ychwanegol**

Gall yr Awdurdod Gweinyddu ganiatáu mwy o hyblygrwydd i gyfraniadau'r cyflogwr os fydd y cyflogwr yn darparu sicrwydd ychwanegol i fodlonrwydd yr Awdurdod Gweinyddu.

Mae hyblygrwydd o'r fath yn cynnwys cyfradd lai o gyfraniadau, cyfnod amser estynedig, neu ganiatâd i ymuno â phŵl gyda chorff arall (e.e. yr Awdurdod Lleol).

Gall sicrwydd o'r fath gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i hynny, bond addas, gwarant wedi'i rwymo mewn cyfraith gan drydydd parti priodol, neu sicrwydd dros ased o werth digonol gan gyflogwr.

Gall graddau'r hyblygrwydd a roddir ystyried ffactorau megis: :

- graddau diffyg y cyflogwr;
- swm ac ansawdd y sicrwydd a gynnigir;
- sicrwydd ariannol a chynllun busnes y cyflogwr; a
- p'un a yw'r cytundeb derbyn yn debygol o fod ar agor neu ar gau i ddechreuwy'r newydd.

### **3.5 Costau ymddeoliad cynnar nad yw ar sail salwch**

Tybir bod buddion aelodau'n daladwy o'r oedran cynharaf allai'r gweithiwr ymddeol heb achosi gostyngiad i'w buddion (a heb yr angen am ganiatâd eu cyflogwr i ymddeol). (DS gallai'r oedran perthnasol fod yn wahanol am gyfnodau gwahanol o wasanaeth, yn dilyn y newidiadau mewn buddion o fis Ebrill 2008 ac Ebrill 2014). Mae gofyn i gyflogwyr dalu cyfraniadau ychwanegol ('straen') pryd bynnag y mae gweithiwr yn ymddeol cyn cyrraedd yr oedran hwn. Nid yw sail cyllido'r actwari'n ystyried ymddeol yn gynnwys ac eithrio ar sail salwch.

Gyda chytundeb yr Awdurdod Gweinyddu, gellir rhannu'r taliad fel a ganlyn:

Cyrff Cyflogi Mawr- hyd at 5 mlynedd

Cyrff Cymunedol a Ganiateir a Chyflogwyr sy'n Dynodi- hyd at 3 blynedd

Cyrff Trosglwyddo a Ganiateir- yn daladwy ar unwaith.

### **3.6 Costau ymddeoliad cynnar ar sail salwch**

Os fydd aelod yn ymddeol yn gynnar ar sail salwch, bydd straen cyllido'n codi fel arfer, allai fod yn fawr iawn. Mae gan y Gronfa bolisi yswiriant salwch ar gyfer cyflogwyr llai yn y Gronfa. Bydd hyn yn talu swm i'r Gronfa sy'n gyfwerth yn fras â'r straen cyllido yn achos cais llwyddiannus. Ar gyfer pob cyflogwr arall nad ydynt wedi'u cynnwys yn y polisi yswiriant allanol, byddai unrhyw straen cyllido sy'n fwy na'r ystyriaeth a roddwyd i'r sail cyllido'n cael ei ddiwallu drwy gynyddu cyfraniadau cyfredol.

Ar gyfer pob cyflogwr arall nad yw'n dod o dan y polisi yswiriant allanol, byddai unrhyw straen cyllido sy'n fwy na'r lwfans a wneir yn y sail ariannu yn cael ei fodloni trwy gynyddu cyfraniadau parhaus.

### **3.7 Cyflogwyr heb unrhyw aelodau gweithredol ar ôl**

Yn gyffredinol, bydd cyflogwr sy'n darfod yn y Gronfa, oherwydd ymadawiad yr aelod gweithredol olaf, yn talu dyled darfyddiad ar sail briodol (gweler 3.3, Nodyn (i) ) ac o ganlyniad ni fydd ganddo unrhyw rwymedigaeth bellach i'r Gronfa. Yna, disgwylir y bydd un o ddwy sefyllfa'n codi yn y pen draw:

- a) Cyfran asedau'r cyflogwr yn rhedeg allan cyn i holl fuddion ei gyn-weithwyr gael eu talu. Yn y sefyllfa hon, bydd angen i gyflogwyr eraill y Gronfa gyfrannu i dalu'r holl fuddion sy'n weddill: gwneir hyn gan actwari'r Gronfa drwy ddyrannu'r ymrwymadau sy'n weddill ar sail pro-rata mewn prisiau dilynol ffurfiol;
- b) Mae'r cyn-weithiwr neu'r dibynnydd olaf yn marw cyn i gyfran asedau'r cyflogwr gael ei defnyddio'n llawn. Yn y sefyllfa hon, byddai'r asedau sy'n weddill yn cael eu dyrannu ar sail pro-rata gan actwari'r Gronfa i gyflogwyr eraill y Gronfa.

Mewn amgylchiadau eithriadol, gallai'r Gronfa ganiatáu i gyflogwr heb unrhyw aelodau gweithredol ar ôl barhau i gyfrannu i'r Gronfa. Byddai hyn yn gofyn am ddarparu sicrwydd neu warant addas, yn ogystal ag ymrwymiad parhaus ysgrifenedig i gyllido gweddill goblygiadau'r cyflogwr dros gyfnod priodol. Byddai'r Gronfa'n cadw'r hawl i ddefnyddio gofynion darfyddiad yn y dyfodol, Efallai y bydd yr Awdurdod Gweinyddu angen gofyn am gyngor cyfreithiol mewn achosion o'r fath, oherwydd ni fyddai gan y cyflogwr unrhyw aelodau sy'n cyfrannu.

### **3.8 Polisiâu ar drosglwyddiadau swmpus**

Ymdrinnir â phob achos yn ôl ei rinweddau ei hun, ond yn gyffredinol:

- Ni fydd y Gronfa'n talu trosglwyddiadau swmpus sy'n fwy na'r swm lleiaf o blith (a) cyfran asedau'r cyflogwr sy'n trosglwyddo yn y Gronfa, a (b) gwerth ymrwymadau gwasanaeth yr aelodau sy'n trosglwyddo yn y gorffennol;
- Ni fydd y Gronfa'n caniatáu buddion ychwanegol i aelodau sy'n dod â hawliadau o Gronfa arall i mewn oni bai bod y trosglwyddiad ased yn ddigon i ddiwallu'r ymrwymadau ychwanegol; a
- Gallai'r Gronfa ganiatáu i ddiffyg ariannol godi ar drosglwyddiadau swmpus os oes gan gyflogwr y Gronfa gryfder cyfamod addas ac os yw'n ymrwymo i ddiwallu'r diffyg ariannol hwnnw mewn cyfnod priodol. Efallai bydd hyn yn gofyn i gyfraniadau Cronfa'r cyflogwr gynyddu rhwng prisiau.

## **4 Strategaeth gyllido a chysylltiadau i'r strategaeth fuddsoddi**

### **4.1 Beth yw strategaeth fuddsoddi'r Gronfa?**

Mae'r Gronfa wedi cynhyrchu asedau dros y blynyddoedd, ac yn parhau i dderbyn cyfraniadau ac incymau eraill. Rhaid buddsoddi hyn i gyd mewn dull addas, a dyma yw'r strategaeth fuddsoddi.

Mae'r awdurdod gweinyddu'n gosod y strategaeth fuddsoddi, ar ôl ymgynghori â'r cyflogwyr ac ar ôl cymryd cyngor ar fuddsoddi. Mae'r union gyfuniad, y rheolwyr a'r targedau enillion wedi'u gosod yn y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi sydd ar gael i aelodau a chyflogwyr.

Gosodir y strategaeth fuddsoddi ar gyfer yr hirdymor, ond fe'i hadolygir o bryd i'w gilydd. Fel arfer, cynhelir adolygiad llawn fel rhan o bob prisiad actwaraidd, ac fe'i hadolygir yn flynyddol rhwng prisiadau actwaraidd i sicrhau ei fod yn parhau'n briodol ar gyfer proffil ymrwymadau'r Gronfa.

Mae'r un strategaeth fuddsoddi'n cael ei dilyn ar gyfer yr holl gyflogwyr ar hyn o bryd.

### **4.2 Beth yw'r cysylltiad rhwng strategaeth gyllido a strategaeth fuddsoddi?**

Rhaid i'r Gronfa fedru talu'r holl daliadau buddion pan ddônt yn ddyledus. Bydd y taliadau hyn yn cael eu bodloni gan gyfraniadau (sy'n arwain o'r strategaeth gyllido) neu enillion ased ac incwm (sy'n arwain o'r strategaeth fuddsoddi). Os bydd yr enillion ar fuddsoddiadau neu incwm yn fyr, yna bydd angen cyfraniadau arian parod uwch gan gyflogwyr, ac i'r gwrthwyneb.

Felly, mae cysylltiad amlwg rhwng y strategaethau cyllido a buddsoddi.

### **4.3 Sut mae'r strategaeth fuddsoddi'n adlewyrchu strategaeth fuddsoddi'r Gronfa?**

Mae actwari'r Gronfa o'r farn fod y polisi cyllido cyfredol yn gyson â strategaeth fuddsoddi gyfredol y Gronfa. Mae rhagdybiaethau'r actiwari ar gyfer enillion buddsoddi y dyfodol (a ddisgrifir ymhellach yn Atodiad E) yn seiliedig ar strategaeth fuddsoddi meincnod gyfredol y Gronfa. Mae'r rhagdybiaethau enillion buddsoddiad yn y dyfodol sy'n sail i bob un o dair sylfaen ariannu'r gronfa yn cynnwys ffin ar gyfer pwyll, ac felly fe'u hystyrir yn gyson â'r gofyniad i gymryd "golwg ddarbodus yn y tymor hwy" o ariannu rhwymedigaethau fel sy'n ofynnol gan y DU. Llywodraeth (gweler Atodiad A1).

Yn y tymor byr - fel yr asesiadau tair blynedd ar brisiadau ffurfiol - mae lle i amrywiad sylweddol yng ngwerth asedau. Fodd bynnag, mae'r actiwari yn cymryd golwg tymor hir wrth asesu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr ac mae'r fethodoleg gosod cyfraddau cyfrannu yn ystyried yr amrywioldeb posibl hwn.

Nid yw'r Gronfa'n dal unrhyw reserfau wrth gefn i'w gwarchod rhag anweddolrwydd buddsoddiadau ecwiti.

Mae rhagdybiaeth gwell perfformiad yr asedau yn y gyfradd ddisgownt (gweler Atodiad E3) o fewn amrediad fyddai'n cael ei ystyried yn dderbyniol er dibenion cyllido; hefyd, ystyrir ei fod yn gyson â'r gofyn i gymryd "golwg mwy hirdymor darbodus" o gyllido ymrwymadau fel sydd ei angen gan Lywodraeth y DU (gweler Atodiad A1).

Fodd bynnag, yn y byrdymor - megis yn ystod yr asesiadau bob tair blynedd mewn prisiadau ffurfiol - mae sgôp am anweddolrwydd sylweddol ac mae siawns y bydd enillion ar asedau'n fyr o'r targed yn y

byrdymor a'r tymor canolig. Bydd y mesurau sefydlogrwydd a ddisgrifir yn Adran 3 yn lleihau, ond nid yn cael gwared, ar yr effaith ar gyfraniadau cyflogwyr.



## **5 Adrodd statudol a chymharu â Chronfeydd CPLIL eraill**

### **5.1 Diben**

Dan Adran 13(4)(c) Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 ("Adran 13"), rhaid i Adran Actwari'r Llywodraeth, yn dilyn pob prisiad tair blynedd, adrodd i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) ar bob Cronfa CPLIL yng Nghymru a Lloegr. Bydd yr adroddiad yn ymdrin â p'un a yw'r raddfa cyfraniadau cyflogwyr wedi'u gosod ar lefel briodol i sicrhau diddyledrwydd ac effeithiolrwydd cost hirdymor y Gronfa, a hynny ar gyfer pob Cronfa.

Gall yr oruchwyliaeth ychwanegol hon gan yr MHCLG effeithio ar y strategaeth ar gyfer gosod cyfraddau mewn prisiadau yn y dyfodol.

### **5.2 Diddyledrwydd**

Er dibenion Adran 13, pennir fod cyfradd cyfraniadau cyflogwyr wedi'i gosod ar lefel briodol i sicrhau diddyledrwydd os:

- a) yw cyfradd y cyfraniadau cyflogwyr wedi'i gosod i dargedu lefel gyllido o 100% ar gyfer y Gronfa dros gyfnod priodol o amser a chan ddefnyddio tybiaethau actwaraidd priodol (pan ystyrir priodoldeb yn nhermau absoliwt a pherthnasol o gymharu â chronfeydd eraill) a naill ai
- b) fod gan gyflogwyr ar y cyd y capasiti ariannol i gynyddu cyfraniadau cyflogwyr, ac/neu mae modd i'r Gronfa gyflawni asedau amodol pe byddai amgylchiadau'n gofyn amdanynt yn y dyfodol, er mwyn bwrw ymlaen i dargedu lefel gyllido o 100%, neu
- c) fod cynllun priodol yn ei le pe byddai, neu os oes disgwyl yn y dyfodol, gweld cynnydd perthnasol yng nghapasiti cyflogwyr y gronfa i gynyddu cyfraniadau yn ôl yr angen.

### **5.3 Effeithiolrwydd Cost Hirdymor**

Pennir fod cyfradd cyfraniadau cyflogwyr wedi'u gosod ar lefel briodol i sicrhau effeithiolrwydd cost hirdymor os:

- i) yw cyfradd y cyfraniadau cyflogwyr yn ddigonol i ddarparu ar gyfer cost gyfredol y buddion cronnus,
- ii) gydag addasiad priodol yn cael ei wneud i'r gyfradd honno ar gyfer unrhyw warged neu ddiffyg yn y Gronfa.

Wrth asesu p'un ai yw'r amod uchod yn cael ei fodloni, efallai y bydd yr MHCLG yn ystyried amrywiol ystyriaethau absoliwt a pherthnasol. Yn bennaf, mae ystyriaeth berthnasol yn ymwneud â chymharu cronfeydd pensiwn CPLIL â chronfeydd pensiwn CPLIL eraill. Yn bennaf, mae ystyriaeth absoliwt yn ymwneud â chymharu Cronfeydd gyda meincnod penodol a osodwyd

Mae'r prif ystyriaethau perthnasol yn cynnwys:

1. y cyfnod adfer diffyg ymhlyg; ac
2. yr enillion ar fuddsoddiadau angenrheidiol i gyflawni cyllido llawn ar ôl 20 mlynedd.

Mae'r ystyriaethau absoliwt yn cynnwys:

1. y graddau y mae'r cyfraniadau sy'n daladwy yn ddigonol i dalu am gostau'r buddion cronus cyfredol a chost y llog ar unrhyw ddiffyg;
2. sut mae'r enillion ar fuddsoddiadau angenrheidiol dan yr "ystyriaethau perthnasol" uchod yn cymharu â'r enillion a amcangyfrifir ar gyfer y dyfodol sy'n cael eu targedu gan strategaeth fuddsoddi gyfredol y Gronfa;
3. y graddau mae'r cyfraniadau a dalwyd mewn gwirionedd wedi bod yn unol â'r cyfraniadau disgwylidig yn seiliedig ar y dystysgrif cyfraniadau ac addasiadau gyfredol; ac ;
4. y graddau y gall unrhyw gynllun adfer diffyg newydd gael ei gysoni â, ac arddangos ei fod yn parhau ag, unrhyw gynllun adfer diffyg blaenorol, ar ôl darparu ar gyfer gwir brofiad y Gronfa.

Gall MHCLG asesu a chymharu'r metricsau hyn ar sail safonol sy'n berthnasol i'r farchnad, er enghraifft, pan nad yw sail actwaraidd cronfeydd lleol yn gwneud cymariaethau yn syml.

## **Atodiad A – Fframwaith Rheoleiddio**

### **A1 Pam fo'r Gronfa angen DSC?**

Mae'r Adran Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) wedi nodi mai diben yr DSC yw:

- “to establish a **clear and transparent fund-specific strategy** which will identify how employers’ pension liabilities are best met going forward
- to support the regulatory framework to maintain **as nearly constant employer contribution rates as possible**; and
- to take a **prudent longer-term view** of funding those liabilities.”

Gall yr amcanion hyn fod yn ddigon dymunol ar wahân, ond gallant wrthdaro wrth eu hystyried ar yr un pryd.

Mae'r gofyn i gynnal a chyhoeddi DSC wedi'i gynnwys yn y Rheoliadau CPLIL sy'n cael eu diweddarau o bryd i'w gilydd. Wrth gyhoeddi'r DSC, mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi gorfod ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan y *Chartered Institute of Public Finance and Accountancy* (CIPFA) (yn fwyaf diweddar yn 2016) a'i Ddatganiad o Egwyddorion Buddsoddi / Datganiad Strategaeth Fuddsoddi.

Dyma'r fframwaith mae actwari'r Gronfa'n ei ddefnyddio i gynnal y prisiad bob tair blynedd i sefydlu cyfraniadau'r cyflogwyr ac i wneud argymhellion i'r Awdurdod Gweinyddu pan fo angen gwneud penderfyniadau cyllido eraill, pan a phryd y mae cyflogwyr yn ymuno â'r Gronfa neu yn ei gadael. Mae'r DSC yn berthnasol i'r holl gyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y Gronfa.

### **A2 A yw'r Awdurdod Gweinyddu yn ymgynghori ag unrhyw un ar yr DSC?**

Ydy. Mae hyn yn ofyn yn Rheoliadau'r CPLIL. Ymdrinnir â hyn mewn mwy o fanylder yng nghanllawiau diweddaraf CIPFA, sy'n nodi bod angen i'r DSC, yn gyntaf, fod yn destun “*consultation with such persons as the authority considers appropriate*”, ac y dylai gynnwys “*a meaningful dialogue at officer and elected member level with council tax raising authorities and with corresponding representatives of other participating employers*”.

Yn ymarferol, ar gyfer y Gronfa, roedd y broses ymgynghori ar gyfer y DSC hwn fel a ganlyn:

- a) Cylchredwyd Cylchredwyd fersiwn drafft o'r DSC i'r holl gyflogwyr sy'n cymryd rhan ym mis Ionawr 2020 am sylwadau;
- b) Gofynnwyd am sylwadau o fewn 42 diwrnod;
- c) Cynhaliwyd Fforwm Cyflogwyr ar 24 Hydref 2019 ac yno, roedd modd holi cwestiynau ynghylch strategaethau cyllido a chael ateb i'r cwestiynau hynny;
- d) Yn dilyn diwedd y cyfnod ymgynghori, cafodd yr DSC ei ddiweddarau ble bo'r angen ac yna cafodd ei gyhoeddi, ym mis Mawrth.

### **A3 Sut mae'r DSC yn cael ei gyhoeddi?**

Mae'r DSC ar gael fel y ganlyn:

- Caiff ei gyhoeddi ar y wefan [www.cronfabensiwngwynedd.org](http://www.cronfabensiwngwynedd.org);
- Anfonir copi e-bost at bob cyflogwr sy'n cymryd rhan yn y Gronfa;
- Anfonir copi at gynrychiolwyr gweithwyr;
- Copi llawn wedi'i gysyllt o'r adroddiad blynyddol a chyfrifon y Gronfa;
- Anfonir copïau at y rheolwyr buddsoddi ac ymgynghorwyr annibynnol;
- Bydd copïau ar gael ar gais.

### **A4 Pa mor aml mae'r DSC yn cael ei adolygu?**

Adolygir y DSC mewn manylder o leiaf bob tair blynedd fel rhan o'r prisiad bob tair blynedd (gall symud i pob pedair blynedd yn y dyfodol – gweler adran 2.8). Disgwylir i'r fersiwn hon barhau heb ei haddasu hyd nes yr ymgynghorir arni fel rhan o'r broses ffurfiol ar gyfer y prisiad nesaf.

Mae'n bosib y bydd angen (mân) addasiadau yn ystod y cyfnod tair blynedd. Byddai angen i'r rhain adlewyrchu unrhyw newidiadau rheoleiddio, neu addasiadau i'r ffordd mae'r Gronfa'n gweithredu (e.e. i ddarparu ar gyfer dosbarth newydd o gyflogwr). Byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar unrhyw addasiadau o'r fath fel sy'n briodol: :

- rhoddir gwybod i gyflogwyr am unrhyw fân newidiadau dibwys yn ystod y cylch nesaf o gyfathrebu â chyflogwyr,
- os bydd addasiadau yn effeithio ar un dosbarth o gyflogwyr yn unig, bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal â'r cyflogwyr hynny,
- byddai addasiadau mwy arwyddocaol yn destun ymgynghoriad llawn arall.

### **A5 Sut mae'r DSC yn ffitio i mewn i ddogfennau eraill y Gronfa?**

Mae'r DSC yn grynodedb o ddull y Gronfa o gyllido ymrwymadau. Nid yw'n ddatganiad cynhwysfawr o'r polisi ar yr holl faterion, er enghraifft, mae nifer o ddatganiadau ar wahân yn cael eu cyhoeddi gan y Gronfa yn cynnwys y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi, Strategaeth Lywodraethu a'r Strategaeth Gyfathrebu. Yn ogystal, mae'r Gronfa'n cyhoeddi Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol gyda gwybodaeth gyfredol am y Gronfa.

Gweler y dogfennau hyn ar y we yn [www.cronfabensiwngwynedd.org](http://www.cronfabensiwngwynedd.org)

## **Atodiad B – Cyfrifoldebau'r partïon allweddol**

Mae angen i'r partïon amrywiol oll chwarae eu rhan er mwyn i'r Gronfa weithredu'n effeithlon ac effeithiol.

### **B1 Dylai'r Awdurdod Gweinyddu:-**

1. Weithredu'r Gronfa yn unol â'r Rheoliadau CPLIL;
2. rheoli'n effeithiol unrhyw wrthdaro buddiannau posib sy'n codi o'i rôl ddeublyg fel Awdurdod Gweinyddu a chyflogwr y Gronfa;
3. casglu cyfraniadau gan weithwyr a chyflogwyr, ynghyd ag incwm buddsoddi a symiau eraill sy'n ddyledus i'r Gronfa;
4. sicrhau fod arian parod ar gael i dalu buddion pan fyddant yn ddyledus;
5. talu o'r Gronfa'r buddion perthnasol a'r hawliadau sy'n ddyledus;
6. buddsoddi unrhyw arian dros ben (h.y. cyfraniadau ac incymau eraill nad oes eu hangen ar unwaith i dalu buddion) yn unol â Datganiad Strategaeth Fuddsoddi a'r Rheoliadau CPLIL;
7. cyfathrebu'n effeithiol gyda chyflogwyr fel eu bod yn llwyr ddeall eu goblygiadau tuag at y Gronfa;
8. cymryd mesurau priodol i ddiogelu'r Gronfa yn erbyn y canlyniadau pan fo cyflogwr yn diffyg dalu;
9. rheoli'r broses prisiad mewn ymgynghoriad ag actwari'r Gronfa;
10. darparu data a gwybodaeth fel sydd ei angen gan Adran Actwari'r Llywodraeth i gwblhau eu goblygiadau statudol (gweler Adran 5);
11. darparu a chynnal DSC a DSB, ar ôl ymgynghori;
12. hysbysu actwari'r Gronfa ynghylch newidiadau perthnasol a allai effeithio ar y cyllid (ymdrinnir â hyn mewn cytundeb ar wahân gyda'r actwari); a
13. monitro holl agweddau o berfformiad y gronfa a'r cyllido ac addasu'r DSC a'r DSB fel bo'r angen ac fel sy'n briodol.

### **B2 Dylai'r Cyflogwr Unigol:-**

1. ddidynnu cyfraniadau o dâl gweithwyr yn gywir;
2. talu'r holl gyfraniadau, yn cynnwys ei rai eu hun fel y pennwyd gan yr actwari, yn brydlon erbyn y dyddiad dyledus;
3. cael polisi a gweithredu disgresiwn o fewn y fframwaith rheoleiddio;
4. gwneud cyfraniadau ychwanegol yn unol â threfniadau y cytunwyd arnynt mewn perthynas â, er enghraifft, gynnydd ym muddion y cynllun, straen yn sgil ymddeoliad cynnar; ac
5. hysbysu'r Awdurdod Gweinyddu yn brydlon ynghylch yr holl newidiadau yn ei amgylchiadau, rhagolygon neu aelodaeth, a allai effeithio ar gyllido yn y dyfodol.

### **B3 Dylai'r Actwari'r Gronfa:-**

1. ddarparu prisiadau, yn cynnwys gosod cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr. Bydd hyn yn cynnwys cytuno ar dybiaethau gyda'r Awdurdod Gweinyddu, gan ystyried yr DSC a'r Rheoliadau CPLIL, a thargedu diddyledrwydd pob cyflogwr yn briodol;
2. darparu data a gwybodaeth fel sydd ei angen gan Adran Actwari'r Llywodraeth i gwblhau eu goblygiadau statudol (gweler Adran 5);
3. rhoi cyngor perthnasol i gyflogwyr newydd yn y Gronfa, gan gynnwys lefel a math y bondiau a ffurfiau eraill o ddiogelwch (a monitro'r rhain);
4. paratoi cyngor a chyfrifiadau mewn perthynas â throsglwyddiadau swmpus a materion unigol yn ymwneud â buddion;
5. cynorthwyo'r Awdurdod Gweinyddu i ystyried newidiadau posib i gyfraniadau cyflogwyr rhwng prisiadau ffurfiol, pan fo amgylchiadau'n awgrymu y gallai hyn fod yn angenrheidiol;
6. cyngori ar derfynu cyfranogiad cyflogwr yn y Gronfa; ac
7. adlewyrchu'n llawn ar ganllawiau proffesiynol actwaraidd ac ar y gofynion yn y cyngor a roddir i'r Awdurdod Gweinyddu.

### **B4 Partion eraill:-**

1. dylai ymgynghorwyr buddsoddi (naill ai'n fewnol neu'n allanol) sicrhau fod DSB y Gronfa'n parhau'n briodol ac yn gyson â'r DSC hwn;
2. dylai rheolwyr buddsoddi, ceidwaid a bancwyr i gyd chwarae eu rhan mewn perthynas â buddsoddi (a rhoi'r gorau i fuddsoddi) asedau'r Gronfa, yn unol â'u DSB;
3. dylai archwilwyr gydymffurfio â'u safonau archwilio eu hunain, sicrhau cydymffurfiaeth y Gronfa â'r holl ofynion, monitro a chynghori ar ganfod twyll, ac arwyddo adroddiadau blynyddol a datganiadau ariannol yn derfynol fel bo'r angen;
4. efallai y penodir ymgynghorwyr llywodraethu i gynghori'r Awdurdod Gweinyddu ar brosesau a dulliau gweithio effeithlon o ran rheoli'r Gronfa;
5. dylai ymgynghorwyr cyfreithiol (naill ai'n fewnol neu'n allanol) sicrhau fod gweithrediad y Gronfa a'i rheolaeth yn parhau i gydymffurfio â'r holl reoliadau a gofynion llywodraeth leol ehangach, gan gynnwys gweithdrefnau'r Awdurdod Gweinyddu ei hun;
6. dylai'r MHCLG (gyda chymorth gan Adran Actwari'r Llywodraeth) a Bwrdd Cynghori'r Cynllun, weithio â Chronfeydd CPLIL i fodloni gofynion Adran I3.

## Atodiad C – Prif risgiau a rheolaethau

### C1 Mathau o risg

Mae gan yr Awdurdod Gweinyddu raglen rheoli risg weithredol yn ei lle. Mae'r mesurau sydd ganddo yn ei le i reoli risgiau allweddol wedi'u crynhoi isod dan y penawdau a ganlyn:

- ariannol;
- demograffig;
- rheoleiddio; a
- llywodraethu.

### C2 Risgiau ariannol

Risg	Crynodeb o'r Mekanweithiau Rheoli
Asedau'r gronfa yn methu â chyflawni enillion yn unol â'r enillion a ragwelwyd sy'n tanategu prisiad yr ymrwymadau dros y tymor hir.	Ddim ond yn rhagweld enillion tymor hir ar sail gweddol ddarbodus er mwyn lleihau'r risg o danberfformio. Asedau'n cael eu buddsoddi yn seiliedig ar gyngor arbenigol, mewn dull amrywiol addas ar draws y dosbarthiadau ased, daearyddiaeth, rheolwyr, ac ati. Dadansoddi cynnydd yn ystod y prisiadau bob tair blynedd i'r holl gyflogwyr. Rowlio'r ymrwymadau ymlaen rhwng prisiadau ar lefel Cronfa gyfan.
Strategaeth fuddsoddi hirdymor amhriodol.	Opsiynau ar gyfer y strategaeth fuddsoddi gyffredinol wedi'u hystyried fel rhan hanfodol o'r strategaeth gyllido. Wedi defnyddio Modelu ymrwymadau ased i fesur 4 deilliant allweddol. Ystyrir mai'r opsiwn sydd wedi'i ddewis sy'n rhoi'r cydbwysedd gorau.
Tanberfformiad rheolwr buddsoddi gweithredol mewn perthynas â'r meincnod.	Mae monitro buddsoddiadau yn chwarterol yn dadansoddi perfformiad y farchnad a rheolwyr gweithredol o ran eu meincnod mewn perthynas â'r farchnad.
Chwyddiant cyflog a phrisiau yn sylweddol uwch na ragwelwyd.	Mae ffocws y broses brisio actwaraidd ar wir enillion ar asedau, gan gynnwys cynnydd mewn prisiau a chyflogau. Mae monitro rhwng prisiadau, fel yr uchod, yn rhoi rhybudd cynnar. Mae buddsoddi rhywfaint mewn bondiau yn cynorthwyo i liniaru'r risg yn ogystal. Mae cyflogwyr yn talu am eu cyflogau eu hunain a dylent fod yn ystyriol o'r effaith y caiff unrhyw fias mewn codiadau cyflog pensiynadwy tuag at weithwyr sydd wedi gwasanaethu am gyfnod hwy, ar ymrwymadau pensiwn.

<b>Risg</b>	<b>Crynodeb o'r Mecanweithiau Rheoli</b>
Effaith cynnydd posib mewn cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr ar gyflwyniad y gwasanaeth ac ar gyrff a ganiateir / cyrff ar yr atodlen.	Mae mecanwaith sefydlogi penodol wedi'i gytuno fel rhan o'r strategaeth gyllido. Mae mesurau eraill yn eu lle hefyd i gyfyngu ar gynnydd cyflym mewn cyfraniadau.
Mae cyflogwyr amddifad yn arwain at gostau ychwanegol i'r Gronfa.	Mae'r Gronfa'n ceisio dyled darfyddiad (neu sicrwydd/gwarantwr) i isafu'r risg y bydd hyn yn digwydd yn y dyfodol. Os bydd yn digwydd, mae'r Actwari yn cyfrifo'r gost ychwanegol wedi'i rhannu ar sail pro-rata ymysg yr holl gyflogwyr.
Effaith posib tan-berfformio asedau oherwydd newid yn yr hinsawdd	Mae'r Gronfa yn buddsoddi ei asedau o fewn canllawiau a chredoau buddsoddi cyfrifol.

### **C3 Risgiau demograffig**

<b>Risg</b>	<b>Crynodeb o'r Mecanweithiau Rheoli</b>
Pensynwyr yn byw yn hirach, gan gynyddu'r gost i'r Gronfa.	Gosod tybiaethau marwoldeb gyda pheth lwfans am gynnydd mewn disgwyliad oes yn y dyfodol. Mae gan Actwari'r Gronfa fynediad uniongyrchol at brofiadau dros 50 o gronfeydd CPLIL sy'n caniatáu ar gyfer adnabod yn gynnar unrhyw newidiadau mewn disgwyliad oes a allai yn eu tro effeithio ar y tybiaethau sy'n tanategu'r prisiad.
Cronfa sy'n Aeddfedu - h.y. cyfradd y gweithwyr sy'n cyfrannu'n weithredol yn gostwng o gymharu â nifer y gweithwyr sydd wedi ymddeol.	Parhau i fonitro yn ystod pob prisiad, ystyried ceisio symiau o arian yn hytrach na % o'r cyflog ac ystyried strategaethau buddsoddi amgen.
Patrymau o ymddeoliadau cynnar sy'n dirywio	Codir ffi ychwanegol ar gyflogwyr mewn perthynas â chostau ychwanegol ymddeoliadau nad ydynt yn seiliedig ar iechyd yn dilyn pob penderfyniad unigol. Mae profiad ymddeoliad ar sail iechyd gweithwyr yn cael ei fonitro, ac mae polisi yswiriant ar sail iechyd yn ei le ar gyfer cyflogwyr llai.
Gostyngiadau yn y gyflogres yn arwain at daliadau adfer diffyg annigonol	Mewn sawl achos, efallai na fydd hyn yn ddigon o destun pryder, a bydd yn derbyn sylw yn ystod y prisiad ffurfiol nesaf. Fodd bynnag, mae gwarchodaeth pan fo pryderon, fel a ganlyn: Efallai y tynnir cyflogwyr sydd wedi'u cynnwys yn y mecanwaith sefydlogi allan o'r mecanwaith hwnnw i ganiatáu ar gyfer cynnydd priodol mewn cyfraniadau (gweler <u>Nodyn (b)</u> i 3.3). I gyflogwyr eraill, caniateir adolygu cyfraniadau yn gyffredinol rhwng prisiadau (gweler <u>Nodyn (f)</u> i 3.3).



#### C4 Risgiau rheoleiddio

Risg	Crynodeb o'r Mekanweithiau Rheoli
Newidiadau i'r gofynion pensiwn cenedlaethol ac/neu reolau HMRC e.e. newidiadau sy'n codi o ddiwygio pensiynau'r sector cyhoeddus.	<p>Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n ystyried yr holl bapurau ymgynghori a gyflwynwyd gan y Llywodraeth ac yn gwneud sylwadau fel sy'n briodol.</p> <p>Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn monitro'r cynnydd ar achos llys McCloud a bydd yn ystyried prisiaid dros dro neu gamau priodol eraill unwaith y bydd mwy o wybodaeth yn hysbys.</p> <p>Cafodd yr ymateb a ffeirir yn y tymor hir gan y llywodraeth i gydraddoli GMP sef i drosi GMP yn fuddion cynllun - ei gynnwys ym mhrisiad 2019.</p>
Amser, cost ac/neu risgiau i enw da sy'n gysylltiedig ag unrhyw ymyrraeth gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi'i symblu gan y dadansoddiad Adran 13 (gweler <a href="#">Adran 5</a> ).	Cymryd cyngor gan Actwari'r Gronfa ar sefyllfa'r Gronfa fel ag yr oedd yn ystod y prisiaid blaenorol, ac ystyried y dull prisio arfaethedig mewn perthynas â'r dadansoddiad Adran 13 a ragwelir.
Newidiadau gan y Llywodraeth i gyfranogiad cyflogwr penodol mewn Cronfeydd CPLIL, gan arwain at effeithiau ar gyllido ac/neu strategaethau buddsoddi.	<p>Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n ystyried yr holl bapurau ymgynghori a gyflwynwyd gan y Llywodraeth ac yn gwneud sylwadau fel sy'n briodol.</p> <p>Cymryd cyngor gan Actwari'r Gronfa ar effaith y newidiadau ar y Gronfa ac addasu'r strategaeth fel sy'n briodol.</p>

## C5 Risgiau llywodraethu

Risg	Crynodeb o'r Mecanweithiau Rheoli
<p>Awdurdod Gweinyddu ddim yn ymwybodol o newidiadau strwythurol mewn aelodaeth cyflogwr (e.e. cwmp mawr yn y niferoedd aelodau, nifer uchel o ymddeoliadau) neu heb gael eu hysbysu fod cyflogwr yn cau'r Gronfa i ddechreuwr newydd.</p>	<p>Mae gan yr Awdurdod Gweinyddu berthynas agos â chyrff cyflogi ac yn cyfathrebu'r safonau gofynnol iddynt, e.e. cyflwyno data.</p> <p>Gall yr Actwari adolygu'r dystysgrif cyfraddau ac Addasiadau i gynyddu cyfraniadau cyflogwyr rhwng y prisiad bob tair blynedd.</p> <p>Gellir mynegi cyfraniadau diffyg fel symiau ariannol.</p>
<p>Ni cheisir cyngor actwaraidd nac ar fuddsoddi, neu nid ydyw'n cael ei ystyried, neu profir ei fod yn annigonol mewn unrhyw ffordd</p>	<p>Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn parhau mewn cysylltiad agos â'i ymgynghorwyr arbenigol.</p> <p>Cyflwynir data drwy gyfarfodydd ffurfiol sydd hefyd yn cynnwys Aelodau Etholedig, ac fe'u cofnodir yn briodol.</p> <p>Mae cyngor actwaraidd yn destun gofynion proffesiynol megis adolygiad cymheiriaid.</p>
<p>Yr Awdurdod Gweinyddu'n methu â chomisiynu Actwari'r Gronfa i gynnal prisiad terfynu ar gyfer Corff a Ganiateir sy'n gadael y Gronfa.</p>	<p>Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n gofyn i gyflogwyr sydd â chontractwyr Gwerth Gorau i'w hysbysu o'u newidiadau arfaethedig.</p> <p>Mae aelodaeth Cyrff Cymunedol a Ganiateir yn cael ei fonitro, ac os bydd aelodaeth weithredol yn gostwng, cymerir camau.</p>
<p>Cyflogwr yn dirwyn i ben gyda chyllid neu fond annigonol.</p>	<p>Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n credu y byddai fel arfer yn rhy hwyr i ymdrin â'r sefyllfa hon pe byddai'n cael ei gadael hyd nes yr amser ymadael.</p> <p>Lliniarir y risg drwy:</p> <p>Geisio gwarantwr cyllido gan gyflogwr arall yn y cynllun, neu gorff allanol, ble bynnag y bo modd (gweler <u>Nodiadau (h)</u> a <u>(i)</u> i 3.3).</p> <p>Tynnu sylw'r darpar gyflogwr at ei oblygiadau a'i annog i gymryd cyngor actwaraidd annibynnol.</p> <p>Archwilio cefndir darpar gyflogwyr cyn eu caniatáu.</p> <p>Pan fo'r rheoliadau'n caniatáu hynny, gofyn am fond i amddiffyn y Gronfa rhag risgiau amrywiol.</p> <p>Angen i Gyrff Cymunedol a Ganiateir newydd fod â gwarantwr.</p> <p>Adolygu trefniadau bondiau neu warantwr yn rheolaidd (gweler <u>Nodyn (f)</u> i 3.3).</p> <p>Adolygu cyfraniadau mewn da bryd cyn iddynt roi'r gorau i fod yn aelod, os teimlir fod hynny'n briodol (gweler <u>Nodyn (a)</u> i 3.3).</p>
<p>Cyflogwr ddim yn bodoli bellach gan arwain at gredyd ymadael yn daladwy</p>	<p>Mae'r Awdurdod Gweinyddol yn monitro yn rheolaidd cyrff a ganiateir sy'n dod i ben.</p> <p>Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn buddsoddi mewn asedau hylifol i sicrhau y gellir talu credydau ymadael pan fo angen.</p>

## **Atodiad D – Cyfrifo cyfraniadau Cyflogwr**

Yn Adran 2 cafwyd disgrifiad bras o'r ffordd mae cyfraddau cyfraniadau yn cael eu cyfrifo. Mae'r Atodiad yma yn ystyried y cyfrifiadau hyn yn fanylach.

Fel a trafodwyd yn Adran 2, caiff y tri cam canlynol eu hystyried wrth osod cyfraniadau:

1. Cyfrifo y targed cyllido ar gyfer y cyflogwr hwnnw, h.y. amcangyfrif o swm yr asedau y dylai eu dal er mwyn gallu talu buddion ei holl aelodau. Gweler Atodiad E i gael mwy o fanylion pa ragdybiaethau a wnawn i bennu'r targed cyllido hwnnw;
2. Penderfynu ar y cyfnod amser sydd angen er mwyn adfer unrhyw ddiffyg. Gweler y tabl yn 3.3 a Nodyn (c) am fwy o wybodaeth;
3. Cyfrifo cyfradd cyfraniadau cyflogwyr fel bod ganddo o leiaf debygolrwydd penodol o gyflawni'r targed cyllido hwnnw dros y gorwel amser hwnnw, gan ganiatau ar gyfer amryw ganlyniadau economaidd posibl dros y gorwel amser hwnnw. Gweler y tabl yn 3.3 a Nodyn (e) am ragor o fanylion.

Mae'r cyfrifiadau yn golygu rhagdybiaethau actwaraidd am brofiad yn y dyfodol, ac fe'i disgrifir yn fanwl yn Atodiad E.

### **D1 Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cyfrifiadau ar draws y Gronfa gyfan a chyfrifiadau ar gyfer cyflogwr unigol?**

Fel arfer, cyfraniadau cyflogwr yn cynnwys dwy elfen:

- a) amcan gost o fuddiannau parhaus wedi eu cronni, y cyfeiriwyd ato fel "cyfradd cyfraniad sylfaenol" (gweler D2 isod) yn ogystal â
- b) addasiad am y gwahaniaeth rhwng y raddfa Sylfaenol uchod a'r cyfraniad gwirioneddol sydd angen i'r cyflogwr ei dalu, y cyfeiriwyd ato fel y 'raddfa cyfraniadau eilaidd" (gweler D3 isod).

Mae'r gyfradd gyfrannu i bob cyflogwr yn cael ei mesur fel yr uchod, yn briodol i sefyllfa gyllido bob cyflogwr a'r aelodaeth. Mae sefyllfa'r Gronfa gyfan, yn cynnwys yr hyn a ddefnyddiwyd i adrodd i MHCLG (gweler adran 5) wedi ei gyfrif fel y swm i holl gyfraddau cyflogwr unigol. Ar hyn o bryd mae MHCLG ond yn rheoleiddio ar lefel y Gronfa gyfan heb fonitro sefyllfa cyflogwr unigol.

### **D2 Sut mae cyfradd y cyfraniad Sylfaenol yn cael ei gyfrif?**

Mae elfen Sylfaenol cyfradd cyfraniad y cyflogwr yn cael ei gyfrif gyda'r nod y bydd y cyfraniadau hyn yn cwrdd â thaliadau buddion o safbwynt gwasanaeth yr aelodau yn y Gronfa yn y **dyfodol**. Seliwyd hyn ar gost (yn fwy na chyfraniadau'r aelodau) y buddion mae aelodau sy'n weithwyr yn ei ennill o'u gwasanaeth bob blwyddyn.

Caiff y gyfradd Sylfaenol ei chyfrifo ar wahân i'r holl gyflogwyr, er y bydd cyflogwr mewn pŵl yn talu'r gyfradd gyfraniadau fydd yn gymwys i'r gronfa gyfan. Caiff y gyfradd Sylfaenol ei chyfrif fel ei bod yn rhagamcanu ei bod yn:

1. cwrdd â'r targed cyllido gofynnol ar gyfer holl fuddion cronnus blynnyddoedd yn y dyfodol\*, heb gynnwys unrhyw asedau cronnus,
2. fewn y cyfnod amser a bennwyd (gweler nodyn 3.3 Nodyn (c) am fwy o fanylion),

3. gyda thebygolrwydd digon uchel, fel y nodwyd gan strategaeth y Gronfa i gategori'r cyflogwr (gweler 3.3 Nodyn (e) am fwy o fanylion).

\* Mae'r rhagamcan ar gyfer aelodaeth weithredol bresennol ble nad yw'r cyflogwr bellach yn derbyn dechreuwy'r newydd, neu yn ychwanegol yn caniatáu dechreuwy'r newydd ble fo hynny yn briodol.

Mae'r rhagamcanion yn cael eu gweithredu drwy ddefnyddio modelwr economaidd (the 'Economic Scenario Service' a ddatblygwyd gan actwari'r Gronfa sef Hymans Robertson: mae hyn yn caniatáu i ystod eang o ddeilliannau o ran ffactorau allweddol fel enillion asedau (wedi eu seilio ar strategaeth fuddsoddi'r Gronfa), chwyddiant ac elw bondiau. Caiff wybodaeth pellach am y model yma yn Atodiad E. Mae'r cyfraniadau yn cael eu cyfrif fel bod cyfran y canlyniadau sy'n cwrdd â tharged cyllido'r cyflogwr (ar ddiwedd y gorwel amser) yn hafal i'r tebygolrwydd gofynnol.

Mae'r dull yn cynnwys treuliau gweinyddu i'r graddau fel eu bod yn cael eu hysgwyddo gan y Gronfa ac yn cynnwys lwfansau am fuddion sy'n daladwy os yw rhywun yn marw mewn gwasanaeth ac wrth ymdeol ar sail salwch.

### **D3 Sut mae cyfradd y cyfraniad eilaidd yn cael ei gyfrifo?**

Nod y Gronfa yw bod gan y cyflogwr asedau sy'n ddigonol i fodloni 100% o'i rwymedigaethau cronodig ar ddiwedd ei orwel amser cyllido yn seiliedig ar ragdybiaethau targed cyllido'r cyflogwr (gweler Atodiad E).

Caiff y gyfradd eilaidd ei chyfrifo fel y balans dros ac uwchben y gyfradd Sylfaenol, fel bod y cyfanswm yn rhagamcanu i:

1. gwrdd â'r targed cyllido gofynnol sy'n ymwneud â holl fuddion cronus gwasanaeth yn y dyfodol a'r gorffennol, yn cynnwys cyfran asedau cronus (gweler D5 isod)
2. fewn y cyfnod amser a bennwyd (gweler 3.3 Nodyn (c) am fwy o fanylion)
3. gyda thebygolrwydd digon uchel, fel y nodwyd gan strategaeth y Gronfa i gategori'r Cyflogwr (gweler 3.3 Nodyn (e) am fwy o fanylion).

Mae'r rhagamcanion yn cael eu gweithredu drwy ddefnyddio modelwr economaidd a ddatblygwyd gan actwari'r Gronfa Hymans Robertson: mae hyn yn caniatáu i ystod eang o ddeilliannau o ran ffactorau allweddol fel enillion asedau (wedi eu seilio ar strategaeth fuddsoddi'r Gronfa), chwyddiant ac elw bondiau. Ceir rhagor o wybodaeth am y model hwn yn Atodiad E. Caiff y cyfraniadau a fesurwyd eu cyfrifo fel bod y gyfran o'r canlyniadau yn cwrdd gyda tharged cyllido'r cyflogwr (erbyn diwedd y cyfnod amser) yn hafal i'r tebygolrwydd gofynnol.

### **D4 Beth sydd yn effeithio ar ganlyniadau prisio cyflogwr penodol?**

Bydd canlyniadau'r cyfrifiadau hyn ar gyfer cyflogwr unigol penodol yn cael eu heffeithio gan:

1. gyfraniadau yn y gorffennol o'i gymharu â chost buddion cronus;
2. gwahanol broffiliau ymrwymadau'r cyflogwr (e.e. cymysgedd o aelodau yn ôl oed, rhyw, gwasanaeth yn erbyn cyflog);
3. effaith unrhyw wahaniaethau yn y targed cyllido h.y. y sail brisio a ddefnyddiwyd i brisio ymrwymadau'r cyflogwr;
4. unrhyw gyfnodau amser gwahanol;

5. y gwahaniaeth rhwng cynnydd gwirioneddol a thybiedig i gyflog pensiynadwy;
6. y gwahaniaeth rhwng cynnydd gwirioneddol a thybiedig i daliadau pensiwn a phensiynau gohiriedig;
7. y gwahaniaeth rhwng ymddeoliadau gwirioneddol a thybiedig ar sail salwch o statws gweithredol;
8. y gwahaniaeth rhwng symiau gwirioneddol a thybiedig o bensiwn yn dod i ben wedi marwolaeth;
9. costau ychwanegol unrhyw ymddeoliadau nad ydynt ar sail salwch o'i gymharu ag unrhyw daliadau ychwanegol a wneir; a/neu
Bydd y gweithredwr a benodir yn darparu ac yn gweithredu amrediad o gerbydau buddsoddi i ganiatáu buddsoddiad cyfunol gan y cronfeydd sy'n cymryd rhan. Bydd y gweithredwr yn gyfrifol am ddewis a chytundebu â rheolwyr buddsoddi ar gyfer rheoli'r asedau gwaelodol. Yn ogystal, byddant yn gyfrifol am weinyddu mewn perthynas â'r cerbydau o ran prisio unedau, prisiad, ymdrin â llif arian i mewn ac allan o'r amrywiol is-gronfeydd, prosesu masnach ac adrodd ar berfformiad. Byddant yn gyfrifol am ddiwydrwydd dyladwy o safbwynt archwilio, cyfreithiol a threth ar gyfer yr is-gronfeydd perthnasol a hefyd am ethol ceidwad i'r Pŵl.

Yn ogystal, bydd y Pŵl yn caffael cyngor cyfreithiol a threthiant allanol fel bo'r angen er mwyn eu cefnogi yn eu perthynas â'r gweithredwr.

## **6 Sut mae ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol neu lywodraethu corfforaethol yn derbyn sylw wrth ddewis, peidio â dewis, cadw a gwireddu buddsoddiadau**

Cydnabyddir y gall ffactorau ESG ddylanwadu ar berfformiad buddsoddi tymor hir a'r gallu i sicrhau adenillon cynaliadwy tymor hir. Mae'r Pwyllgor yn ystyried dull y Gronfa o fuddsoddi'r gyfrifol mewn dau faes allweddol:

- Buddsoddi cynaliadwy/ ffactorau ESG- ystyried effaith ariannol ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (“ESG”) ar ei fuddsoddiadau.
- Stiwardiaeth a llywodraethu- gweithredu fel buddsoddwyr/ perchnogion cyfrifol a gweithredol, drwy bleidleisio ar gyfranddaliadau ac ymgysylltu â rheolwyr cwmnïau sy'n buddsoddi fel rhan o'r broses fuddsoddi.

Mae'r Pwyllgor yn cymryd ESG o ddifri ac yn adolygu ei bolisiau yn y maes hwn yn rheolaidd a'r ffordd y mae'r rheolwyr buddsoddi yn ymdrin â ESG. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi datblygu set o gredoau Buddsoddi Cyfrifol a nodir yn ddiweddarach yn yr adran hon.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod newid yn yr hinsawdd yn peri risg systematig benodol i sefydlogrwydd ariannol yr economi fyd-eang, ac mae ganddo'r potensial i effeithio ar fuddsoddiadau'r gronfa ac, felly, mae'n cynrychioli risg ariannol hirdymor i'r gronfa a'i daliadau.

Hyd yma, ymagwedd y Gronfa tuag at fuddsoddiadau cymdeithasol yn bennaf fu dirprwyo hyn i'w rheolwyr buddsoddi sylfaenol fel rhan o'u ddyletswyddau cyffredinol.

Ar hyn o bryd, nid yw'r Pwyllgor yn ystyried ffactorau anariannol wrth ddedhol, cadw neu wireddu ei fuddsoddiadau.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar y set ganlynol o gredoau buddsoddi mewn perthynas â Buddsoddi Cyfrifol:

- Yn unol â ddyletswydd ymddiriedol y Pwyllgor, dylai ystyriaethau ariannol gario mwy o bwysau nag ystyriaethau anariannol wrth wneud penderfyniadau buddsoddi, er gall faterion ESG gael effaith materol ar risg a dychweliadau. Felly, dylai ffactorau ESG gael eu mewnblannu yn y prosesau buddsoddi a phrosesau penderfynu'r rheolwyr penodwyd gan y Gronfa.
- Bydd Pwyllgor y Gronfa yn edrych i fuddsoddi mewn asedau cynaliadwy, gan gynnwys buddsoddi o fewn ardal Cymru pan all buddsoddiadau anariannol ddeillio o hyn, ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion y ddyletswydd ymddiriedol.
- Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod ganddo ddyletswydd i fod yn fuddsoddwr cyfrifol. Disgwylir y bydd ymgysylltu gyda chwmnïau, yn hytrach na pheidio buddsoddi, yn fwy effeithiol i newid ymddygiad corfforaethol a lleihau risg. Lle'n bosib, mae gweithrediad cydweithredol yn cynnig y ffordd fwyaf llwyddiannus er mwyn dylanwadu ar allbynnau.
- Fel buddsoddwr hirdymor, mae'r Gronfa yn agored i risgiau systematig fel newid yn yr hinsawdd a'r disgwyliad i drawsnewid i economi carbon isel. Gellir gwella deilliannau ariannol wrth reoli pa mor agored i risgiau o'r fath y mae'r Gronfa.
- Gellir gwella dealltwriaeth rhanddeiliad a gwella deilliannau trwy ddatgelu ar hyd pob cam o'r gadwyn ychwanegu gwerth

## **Arfer hawliau (gan gynnwys hawliau pleidleisio) sy'n ymwneud â buddsoddiadau**

### **Hawliau pleidleisio**

Mae'r Pwyllgor wedi dirprwyo'r arfer o hawliau pleidleisio i'r rheolwr/rheolwyr buddsoddi ar y sail y bydd y pŵer pleidleisio yn cael ei arfer ganddynt gyda'r amcan o gadw a gwella gwerth hirdymor rhanddeiliad.

Yn unol â hynny, mae rheolwyr y Gronfa wedi cynhyrchu canllawiau ysgrifenedig o'u proses a'u hymarfer yn hyn o beth. Anogir y rheolwyr yn gryf i bleidleisio yn unol â'u canllawiau mewn perthynas â phob un o'r penderfyniadau mewn cyfarfodydd cyffredinol blynyddol ac eithriadol o gwmnïau o dan Reoliad 7(2)(f). Mae'r penderfyniadau pleidleisio a wneir gan ei holl rheolwyr buddsoddi yn cael eu monitro'n rheolaidd.

### **Stiwardiaeth**

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno'n ffurfiol i lynu at y Cod Stiwardiaeth fel y'i cyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i'r Pŵl PPC ac unrhyw reolwyr cronfa a benodir yn uniongyrchol hefyd gydymffurfio â'r Cod Stiwardiaeth ac mae hyn yn cael ei fonitro'n flynyddol. Gellir gweld copi o ddatganiad o gydymffurfiaeth y Gronfa â'r Cod Stiwardiaeth ar wefan y Gronfa. Yn adolygiad diweddaraf y Cyngor Adrodd Ariannol, cafodd y Gronfa ei graddio fel Haen 2.

Yn ogystal â chydymffurfiaeth y Gronfa â'r Cod Stiwardiaeth, mae'r Gronfa yn credu mewn cytundeb ar y cyd ac mae'n aelod o Fforwm Cronfeydd Pensiwn yr Awdurdodau Lleol ("LAPFF"), lle mae'n ymarfer llais ar y cyd ar draws ystod o faterion llywodraethu corfforaethol.



## 10.3 Datganiad Polisi Cyfathrebu

### Cyflwyniad

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi'i hymrwymo i ddarparu gwasanaeth cyson o ansawdd uchel i'w chwsmeriaid, a hynny yn y ffordd fwyaf effeithlon a chost effeithiol, yn unol â gofynion rheolaethol y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am weinyddu'r Gronfa ar gyfer dros 40 o Gyrff Cyflogi, yn cynnwys ei weithwyr ei hun a staff dau Gorff Unedol arall.

Mae Datganiad Polisi Cyfathrebu Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi'i lunio er mwyn sicrhau llwybr cyfathrebu clir gyda holl fudd-ddeiliaid y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Bydd yn cael ei adolygu'n barhaus ac yn cael ei addasu pan fo newid perthnasol yn y polisi.

Mae'r budd-ddeiliaid yn cynnwys:

- Aelodau sy'n cyfrannu at y Cynllun
- Aelodau gohiriedig
- Aelodau sy'n bensiynwyr
- Darpar aelodau'r Cynllun
- Cyrff Cyflogi
- Trethdalwyr

Mae'r datganiad hwn yn nodi'r polisi ar gyfer darparu gwybodaeth a sut y mae'r Gronfa'n bwriadu cyhoeddi a hyrwyddo'r Cynllun i bob grŵp.

Mae pob un o gyhoeddiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ddwyieithog, yn unol â Pholisi Iaith Cyngor Gwynedd fel Awdurdod Gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Y bwriad yw bod ymatebion prydlon yn cael eu rhoi i geisiadau, a bod yr ymatebion hynny'n ffeithiol, mewn iaith syml, ac wedi'u cyflwyno mewn dull sy'n briodol ar gyfer y derbynydd.

Pan fo gan unigolion anghenion penodol o ran fformat y wybodaeth, cymerir camau i sicrhau bod y fformat priodol ar gael, megis *Braille*, sain, a phrint bras. Efallai y bydd gwybodaeth mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais.

Pan wyddys am newidiadau deddfwriaethol i'r Cynllun ymlaen llaw, bydd gweithdrefnau'n cael eu rhoi yn eu lle er mwyn gweithredu'r newidiadau hynny yn y dull mwyaf effeithiol.

Mae holl gyfathrebiadau'r Gronfa'n cydymffurfio'n llawn â'r holl reoliadau ynghylch:

- Cyfrinachedd
- Dadleniad
- Rhyddid Gwybodaeth

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cymryd rhan weithredol gyda'r chwe Chronfa Bensiwn arall yng Nghymru, er mwyn cynhyrchu dogfennau a gwybodaeth ysgrifenedig gyffredin a chyson ar gyfer y Cynllun.

## **Cyfathrebu gydag aelodau sy'n cyfrannu**

Aelodau sy'n cyfrannu at y cynllun yw'r aelodau hynny sy'n cyfrannu at y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol trwy un o'r cyflogwyr sy'n cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd. Disgrifir y dulliau o gyfathrebu gyda'r aelodau hyn isod.

### **Datganiadau Buddion Blynyddol**

Mae Datganiad Buddion Blynyddol yn cael ei anfon i gyfeiriad cartref pob un o aelodau'r cynllun, sy'n rhoi manylion ynghylch y buddion y maent wedi'u cronni hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol ac mae'n nodi rhagamcan o'r buddion a fydd yn daladwy pan fydd yr aelod yn 65 mlwydd oed. Yn ogystal, mae'r datganiad yn cynnwys hanes gwasanaeth yr aelod, manylion ynghylch eu cyflog a nodiadau egluro ynghylch sut y mae'r buddion yn cael eu cyfrifo. Bydd datganiadau yn y dyfodol yn cynnwys rhagamcan Pensiwn y Wladwriaeth a bydd datganiadau a gyflwynir o 2010/2011 yn cynnwys rhagamcan o'r buddion pensiwn y byddai'r aelod yn ei dderbyn o Gronfa Bensiwn Gwynedd pe bai'n ymddeol yn 60 mlwydd oed (bydd y ffigyrau'n cynnwys unrhyw ostyngiad perthnasol am dalu'r buddion yn gynnar). Bydd gan bob datganiad lythyr eglurhad hefyd a bydd yn cynnwys ffurflen adborth i aelodau ei chwblhau er mwyn nodi unrhyw ymholiadau neu sylwadau y mae ganddynt o ran eu datganiad.

### **Gwefan**

Lansiwyd gwefan Cronfa Bensiwn Gwynedd ym mis Mawrth 2009 ac mae'n cynnwys adran benodol ar gyfer aelodau presennol y cynllun. Mae'r gwefan yn darparu gwybodaeth gyffredinol ynghylch y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac mae rhan benodol ar y gwefan sy'n cyfeirio at gwestiynau a ofynnir yn aml. Mae'r gwefan yn parhau i gael ei datblygu ac erbyn mis Mawrth 2010, bydd yn cynnwys adran Bensiynau Rhyngweithiol a bydd hyn yn gadael i aelodau'r cynllun weld eu manylion pensiwn, diweddarau eu manylion personol a gwneud amrediad o gyfrifiadau ar-lein. Mae rhan benodol ar Gynllun Pensiwn Cynghorwyr wedi cael ei hychwanegu ar gwefan Cronfa Bensiwn Gwynedd ers mis Rhagfyr 2009.

### **Gwybodaeth Ysgrifenedig y Cynllun**

Cynhyrchwyd canllaw byr i'r cynllun yn dilyn cyflwyno Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn 2008. Mae'r canllaw byr i'r cynllun yn rhoi gwybodaeth gyffredinol ynghylch y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac fe'i rhoddir i bob cyflogai newydd (trwy eu cyflogwr) ac fe'i rhoddir i aelodau presennol y cynllun, ar gais. Yn ogystal, mae copïau o ganllaw'r cynllun ar gael mewn *Braille*, print bras a sain.

Yn ogystal, mae amrywiaeth o daflenni gwybodaeth ar gyfer aelodau'r cynllun wedi'u cynhyrchu, ac mae'r rhain yn rhoi gwybodaeth ynghylch materion sy'n ymwneud â Phensiwn Llywodraeth Leol. Mae rhestr gyflawn o'r holl daflenni gwybodaeth sydd ar gael wedi'i nodi dan y rhan cyhoeddiadau ar dudalen 11 y llyfryn hwn, ac fe ddylai taflen wybodaeth ychwanegol sy'n rhoi gwybodaeth ar drosglwyddo pensiynau blaenorol fod ar gael erbyn diwedd 2010. Yn ogystal, mae DVD sy'n rhoi gwybodaeth am y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac yn rhoi amlinelliad o'r newidiadau a wnaed i'r rheoliadau yn 2008, ar gael i aelodau'r cynllun.

### **Newyddlenni**

Mae newyddlenni papur yn cael eu hanfon i gyfeiriad cartref pob aelod sy'n cyfrannu at y cynllun yn ôl yr angen pan fo angen rhoi gwybod i aelodau am newidiadau yn rheoliadau'r cynllun.

## **Sioeau Teithiol Cronfa Bensiwn Gwynedd**

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gael i fod yn bresennol mewn digwyddiadau cyflogwyr ac i ddarparu stondin pensiynau er mwyn i aelodau'r cynllun fedru trafod unrhyw faterion pensiwn gyda staff yr adain pensiynau. Yn ogystal, bydd amrediad eang o wybodaeth ysgrifenedig a ffurflenni cyffredinol y cynllun ar gael yn ystod y digwyddiadau hyn.

## **Cyflwyniadau**

Mae'r Uned Gweinyddu Pensiynau bob amser ar gael i roi sgysiau neu gyflwyniadau ynghylch y cynllun.

Mae cyfres o seminarau cyn ymddeol yn bodoli'n barod – wedi'u trefnu gan bartneriaeth o gynghorau gogledd Cymru a'u llwyfannu gan Chadwick Mclean, cwmni o ymgynghorwyr ariannol o Gaer. Bob yn ail, mae unedau Gweinyddu Pensiynau Gwynedd a Sir y Fflint yn darparu cyflwyniadau ar y cynllun pensiwn llywodraeth leol yn y digwyddiadau hyn.

Yn ogystal, cynhelir cyflwyniadau yn ôl yr angen er mwyn rhoi gwybodaeth i gyfranwyr presennol ynghylch y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac fe'u defnyddir fel modd o gyflwyno aelodau'r cynllun i newidiadau mawr yn rheoliadau'r cynllun. Ar gais cyflogwyr, gellir cynnal sesiynau gwybodaeth arbenigol i aelodau sy'n cael eu heffeithio gan drosglwyddiad swmpus o pensiynau o'r CPLIL i ddarparwyr pensiynau eraill. Mae cyflwyniadau arbenigol a roddwyd gan Swyddogion Cyfathrebu'r uned pensiynau a chynrychiolydd o ddarparwyr AVC Cronfa Bensiwn Gwynedd, hefyd wedi'u cynnal er mwyn rhoi gwybodaeth i aelodau'r cynllun ar y dulliau o wella buddion pensiwn.

## **Sesiynau Ymgynghori (apwyntiadau unigol)**

Mae Swyddogion Cyfathrebu'r Uned Bensiynau yn cynnal sesiynau ymgynghori unigol ar gyfer aelodau'r cynllun, ar gais cyflogwyr y cynllun. Fel arfer, cynhelir sesiynau ymgynghori ar safleoedd y gweithwyr ac maent yn rhoi'r cyfle i aelodau'r cynllun dderbyn gwybodaeth gyffredinol a phenodol ynghylch y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a gofyn unrhyw gwestiynau sydd ganddynt am eu Pensiwn Llywodraeth Leol.

Yn ogystal, gall aelodau Cronfa Bensiwn Gwynedd drefnu apwyntiad er mwyn cael cyfarfod unigol gydag aelod o staff o'r adain pensiynau yn y swyddfa pensiynau yng Nghaernarfon.

Mewn rhai achosion (e.e. salwch terfynol), bydd cynrychiolydd o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn ymweld ag aelod yn eu cartref, ar gais eu cyflogwr.

## **Llinell Gymorth Pensiynau**

Mae un rhif wedi'i sefydlu ar gyfer yr holl ymholiadau pensiwn ac mae cyfeiriad e-bost penodol ar gael ar gyfer derbyn ymholiadau ar e-bost.

## **Pecyn Ymddeol**

Pan fyddant yn ymddeol, bydd aelodau'n derbyn llythyr sy'n nodi'r buddion sy'n daladwy o'r cynllun. Yn ogystal, anfonir ffurflenni atynt y mae disgwyl iddynt eu llenwi fel y gellir dechrau talu'r buddion. Mae'r Adain Bensiynau'n bwriadu datblygu'r pecyn ymddeol fel ei fod yn cynnwys taflen sy'n nodi arni wybodaeth berthnasol i'r rhai sy'n ymddeol o'r cynllun. Bydd y daflen ar gael o fis Ebrill 2010.

## **Ymgyrch Poster**

Mae'r adain pensiynau yn bwriadu cynhyrchu poster sy'n nodi'r dewisiadau sydd ar gael i gynyddu buddion pensiwn trwy'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Dylai'r posteri fod ar gael o fis Mehefin 2010, a byddant yn cael eu dosbarthu i gyflogwyr fel y gellir eu harddangos yn safleoedd gwaith y gweithwyr.

## **Taflen Gweithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol (GDAM)**

Mae dogfen wedi ei chynhyrchu eisoes sy'n ymdrin â cham I o'r GDAM a cheir copi o'r ddogfen pan wneir cais.

## **Cyfathrebu gydag aelodau gohiriedig**

Aelodau gohiriedig yw'r rhai sydd wedi gadael eu cyflogaeth â chyflogwr y cynllun ac sydd â buddion wedi'u cadw yn y cynllun. Nodir y dulliau o gyfathrebu gydag aelodau gohiriedig isod.

### **Datganiad Buddion Gohiriedig**

Anfonir Datganiad Buddion Gohiriedig blynyddol at aelodau sydd â buddion wedi'u cadw yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd. Mae'r datganiad yn rhoi amlinelliad cyfredol o werth buddion yr aelod ac yn cynnwys ffurflen adborth ble y gall aelodau nodi unrhyw ymholiadau neu sylwadau sydd ganddynt ynghylch eu datganiad.

### **Gwefan**

Mae rhan benodol ar gyfer aelodau gohiriedig wedi'i chynnwys ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd. Mae'r rhan ar gyfer aelodau gohiriedig yn darparu gwybodaeth gyffredinol ynghylch y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sy'n berthnasol i aelodau gohiriedig ac mae rhan benodol ar y wefan sy'n cyfeirio at gwestiynau a ofynnir yn aml. Mae'r wefan yn parhau i gael ei datblygu ac erbyn mis Mawrth 2010, bydd yn cynnwys adran Rhyngweithiol a bydd hyn yn gadael i aelodau gohiriedig weld eu manylion pensiwn, diweddarau eu manylion personol a chyfrifo'r gostyngiadau perthnasol ar gyfer dyddiadau ymddeol gwahanol o pan fyddant yn 60 mlwydd oed ymlaen.

Gall aelodau cynghorwyr gohiriedig gael at y rhan sy'n berthnasol i Gynghorwyr ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.

### **Newyddlenni**

Mae newyddlenni papur yn cael eu hanfon i gyfeiriad cartref pob aelod gohiriedig yn ôl yr angen pan fo angen rhoi gwybod i aelodau am newidiadau yn rheoliadau'r cynllun.

### **Apwyntiadau Unigol**

Gall aelodau gohiriedig Cronfa Bensiwn Gwynedd drefnu apwyntiad er mwyn cael cyfarfod unigol gydag aelod o staff o'r adain bensiwnau yn y swyddfa bensiwnau yng Nghaernarfon.

Mewn rhai achosion (e.e. salwch terfynol), bydd cynrychiolydd o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn ymweld ag aelod yn eu cartref, ar gais eu cyflogwr, yr unigolyn neu gynrychiolydd yr unigolyn.

### **Llinell Gymorth Pensiwnau**

Mae un rhif wedi'i sefydlu ar gyfer yr holl ymholiadau pensiwn ac mae cyfeiriad e-bost penodol ar gael ar gyfer derbyn ymholiadau ar e-bost.

## **Taflen Gweithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol (GDAM)**

Mae dogfen wedi ei chynhyrchu eisoes sy'n ymdrin â cham I o'r GDAM a cheir copi o'r ddogfen pan wneir cais.

## **Cyfathrebu gyda Phensiynwyr**

Mae pensiynwyr yn cynnwys aelodau sydd wedi ymddeol a dibynyddion yr aelodau sydd wedi marw. Nodir y dulliau o gyfathrebu gyda phensiynwyr isod.

### **Gwefan**

Mae rhan benodol i aelodau sy'n bensiynwyr wedi ei chyflwyno ar wefan Gronfa Bensiwn Gwynedd ers mis Rhagfyr 2009. Mae'r rhan i bensiynwyr yn darparu gwybodaeth gyffredinol ynghylch y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sy'n berthnasol i aelodau sy'n bensiynwyr ac mae yno ran gyda chwestiynau a ofynnir yn aml. Erbyn mis Mawrth 2010, bydd y rhan i bensiynwyr ar y wefan yn cynnwys rhan Pensiynau ar-lein a bydd hyn yn gadael i bensiynwyr weld manylion eu pensiwn a diweddaru eu manylion personol.

### **Slipiau talu a P60**

Anfonir slip talu i bensiynwyr pan fo newid o 50c neu fwy yn eu taliad net o'i gymharu â'r mis blaenorol. Mae pob pensiynwr yn derbyn cyfuniad o P60 a slip talu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

### **Hysbysiad o'r Cynnydd Pensiwn**

Pob mis Ebrill, bydd pensiynwyr yn derbyn hysbysiad yn rhoi gwybod iddynt am y Cynnydd Pensiwn a fydd yn cael ei weithredu ar eu pensiwn (os yw'n berthnasol) a byddant yn derbyn cadarnhad o'r dyddiadau talu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

### **Apwyntiadau Unigol**

Gall yr aelodau o Gronfa Bensiwn Gwynedd sy'n bensiynwyr drefnu apwyntiad er mwyn cael cyfarfod unigol gydag aelod o staff o'r adain bensiwnau yn y swyddfa bensiwnau yng Nghaernarfon.

### **Llinell Gymorth Pensiwnau**

Mae un rhif wedi'i sefydlu ar gyfer yr holl ymholiadau pensiwn ac mae cyfeiriad e-bost penodol ar gael ar gyfer derbyn ymholiadau ar e-bost.

### **Llongyfarchiadau ar Ben-blwydd**

O 1 Ionawr 2010, bydd pensiynwyr sy'n dathlu eu pen-blwydd yn 100 oed yn derbyn cerdyn pen-blwydd gan Gronfa Bensiwn Gwynedd. Mae hyn yn cynnwys pensiynwyr a fu'n aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a phensiynwyr sy'n derbyn Pensiwn Llywodraeth Leol gŵr/gwraig weddw.

### **Taflen Gweithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol (GDAM)**

Mae dogfen wedi ei chynhyrchu eisoes sy'n ymdrin â cham 1 o'r GDAM a cheir copi o'r ddogfen pan wneir cais.

## **Cyfathrebu gyda darpar aelodau**

Darpar aelodau yw gweithwyr sy'n gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ond sydd wedi penderfynu peidio ag ymuno. Nodir y dulliau o gyfathrebu gyda darpar aelodau isod.

## **Canllaw'r Cynllun**

Mae cyflogwyr y cynllun yn rhoi canllaw byr i'r cynllun, sy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol ynghylch y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, i bob gweithiwr newydd (sy'n gymwys i ymuno â'r cynllun). Mae copïau o ganllaw'r cynllun ar gael (ar gais) mewn *Braille*, print bras a sain.

## **Gwefan**

Gall darpar aelodau'r cynllun dderbyn gwybodaeth gyffredinol ynghylch y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol oddi ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd. Yn ogystal, mae rhan sy'n ateb cwestiynau a ofynnir yn aml i'w chael ar y wefan sy'n berthnasol i rai sy'n ystyried ymuno â'r cynllun ai peidio.

## **Sesiynau Ymgynghori (apwyntiadau unigol)**

Mae Swyddogion Cyfathrebu'r Uned Bensiynau yn cynnal sesiynau ymgynghori unigol ar gyfer aelodau'r cynllun, a darpar aelodau'r cynllun, ar gais cyflogwyr y cynllun. Fel arfer, cynhelir sesiynau ymgynghori ar safleoedd y gweithwyr ac maent yn rhoi'r cyfle i aelodau'r cynllun dderbyn gwybodaeth gyffredinol a phenodol ynghylch y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a gofyn unrhyw gwestiynau sydd ganddynt ynghylch ymuno â'r cynllun.

Yn ogystal, gall darpar aelodau drefnu apwyntiad er mwyn cael cyfarfod unigol gydag aelod o staff o'r adain bensiynau yn y swyddfa bensiynau yng Nghaernarfon.

## **Sioeau Teithiol Cronfa Bensiwn Gwynedd**

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn annog cyflogwyr i gynnwys pensiynau fel rhan o ddigwyddiadau anwytho staff a byddwn yn darparu stondin pensiynau er mwyn i aelodau'r cynllun, a darpar aelodau, ofyn unrhyw gwestiynau sydd ganddynt ynghylch y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Bydd amrediad eang o wybodaeth ysgrifenedig a ffurflenni cyffredinol y cynllun ar gael yn ystod y sioeau teithiol.

## **Ymgyrch Posterï**

Mae'r adain bensiynau yn bwriadu cynhyrchu poster sy'n nodi'r buddion y gellir eu cael trwy ymuno â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Dylai'r posterï fod ar gael o fis Mehefin 2010, a byddant yn cael eu dosbarthu i gyflogwyr fel y gellir eu harddangos yn safleoedd gwaith y gweithwyr.

## **Cyfathrebu gyda Chyflogwyr**

Cyflogwyr y Cynllun yw'r pwynt cyswllt cyntaf i aelodau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Er mwyn i Gyngor Gwynedd, fel Awdurdod Gweinyddol, redeg y Cynllun yn effeithiol, mae'n hanfodol bod y Cyrff Cyflogi yn ymwybodol o'r wybodaeth a'r canllawiau diweddaraf sydd ar gael, fel bod modd iddynt weithredu eu cyfrifoldebau.

## **Cyfarfodydd Cyffredinol Blynnyddol**

Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol yn benodol ar gyfer Cyflogwyr a Chynrychiolwyr Undeb er mwyn iddynt drafod yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynnyddol. Mae cynrychiolwyr o gyrff cynghori proffesiynol amrywiol eraill, megis Actwari'r Gronfa a Rheolwyr y Gronfa, yn bresennol hefyd er mwyn ateb cwestiynau ynghylch Cyllid, perfformiad buddsoddiad a Phrisiannau.

## **Cyfarfodydd dwywaith y flwyddyn**

Gwahoddir cynrychiolwyr perthnasol o bob Corff Cyflogi i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd anffurfiol yn swyddfeydd Cyngor Gwynedd ddwywaith y flwyddyn, er mwyn trafod unrhyw faterion ymarferol ynghylch y Gronfa Bensiwn neu ei gweinyddiaeth. Mae hefyd yn gyfle i drafod unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth a fydd yn effeithio arnynt hwy. Mae'r cyntaf o'r cyfarfodydd fforwm pensiwnau wedi'u cynnal ym mis Hydref 2009.

Y bwriad yw gwella ansawdd y data a dderbyniwyd gan y ddau barti – y Cyflogwyr a'r Awdurdod Gweinyddu, a chynyddu ansawdd y gwasanaeth er mwyn bodloni anghenion holl aelodau a budd-ddeiliaid y cynllun.

## **Cyfarfodydd Hyfforddi Cyflogwyr Unigol**

Gellir trefnu'r cyfarfodydd hyn ar gais y Corff Cyflogi, ar sail unigol, yn hytrach na'r cyfarfodydd dwywaith y flwyddyn ble y gall pawb fod yn bresennol.

## **Seminarau Cyflogwyr**

Gellir trefnu'r rhain pan fo newid sylweddol wedi bod mewn deddfwriaeth. Er enghraifft, ym mis Hydref 2007, cynhaliwyd cyfarfod i Gyrff Cyflogi yn swyddfeydd Gwynedd, wedi'i arwain gan Terry Edwards o gymdeithas Cyflogwyr Llywodraeth Leol a rhoddodd ef gyflwyniad ar sut yr oedd y newidiadau yn y Cynllun Pensiwn o 1 Ebrill 2008, yn effeithio ar Gyflogwyr.

## **Cronfa Ddata Cysylltiadau**

Cyflwynir diweddariadau rheolaidd ynghylch unrhyw newidiadau neu newidiadau arfaethedig yn y CPLIL i bob Corff Cyflogi trwy e-bost neu lythyr. Mae cronfa ddata Cysylltiadau'r Cyflogwr yn cael ei diweddarau yn ôl yr angen yn unol â gwybodaeth a dderbynnir gan Gyflogwyr.

## **Cytundebau Partneriaeth Cyflogwyr a Chytundebau Lefel Gwasanaeth**

Y nod yw darparu gwasanaeth o ansawdd i aelodau trwy roi arweiniad ar rwymedigaethau a chyfrifoldebau statudol a thrwy osod targedau ar gyfer Cyflogwyr a'r Awdurdod Gweinyddu:-

- i ddarparu gwybodaeth gywir
- i weithredu ar yr wybodaeth honno, ac ymateb iddi, o fewn cyfnod penodol o amser

Cytunir ar unrhyw dargedau ar gyfer y Cytundebau Lefel Gwasanaeth, ymlaen llaw.

## **Canllaw'r Cyflogwyr**

Mae'r Canllaw gweithdrefn ar gyfer Cyflogwyr wrthi'n cael ei gwblhau a bydd yn cael ei gylchredeg ar ffurf copi caled i bob Corff Cyflogi. Bwriedir iddo gael ei ddisbarthu yn ystod 2010/2011 a bydd yn cynorthwyo Cyflogwyr yn eu cyfrifoldebau o ran cynnal data cywir. Gellir darparu nifer cyfyngedig o gopiau ychwanegol. Rhoddir gwybod am ddiweddariadau trwy e-bost a thrwy eu gosod ar y wefan.

## **Gwefan**

Lansiwyd gwefan newydd Gwynedd ym mis Mawrth 2009. Yn ogystal, bydd rhan sy'n darparu gwybodaeth benodol i Gyrff Cyflogi ar gael yn 2010/2011 a bydd yn cyd-fynd â chynhyrchu'r Canllaw Cyflogwyr - bydd hwn ymddangos ar y wefan yn ogystal.

Ar hyn o bryd, rhoddir copiâu caled o'r dogfennau a ganlyn i gyflogwyr: -

- Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn
- Datganiad Strategaeth Cyllido
- Datganiad Polisi Llywodraethu
- Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi
- Datganiad Polisi Cyfathrebu
- Adroddiad Prisiad pob Tair Blynedd

Yn ogystal, bydd rhain ar gael ar y wefan o 2010 o dan y rhan 'Buddsoddiadau'.

## **Cyfathrebu gyda chyrrff eraill**

### **Cynrychiolwyr Aelodau**

Gall y rhain gynnwys unrhyw unigolyn neu grŵp, megis Cyfreithwyr neu Undebau Llafur, yn ceisio gwybodaeth ar ran aelod y Cynllun. Dim ond gyda chaniatâd yr aelod y rhoddir hyn, yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Mae holl wybodaeth ysgrifenedig y Cynllun ar gael ar gais.

### **Cyrrff Allanol**

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cymryd rhan yn: -

### **Grŵp Swyddogion Pensiynau'r Amwythig**

Mae uwch swyddogion pensiwn Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cyfarfod cynrychiolwyr o Gronfeydd Awdurdod Lleol eraill yn ardal y West Pennines pob chwarter er mwyn rhannu gwybodaeth, trafod cwestiynau ar ddeddfwriaeth a rheoliadau cyffredinol, ynghyd ag unrhyw faterion technegol neu weithdrefnol.

### **Grŵp Cymru Gyfan**

Mae'r Grŵp yn cyfarfod yn ôl yr angen, ac yn ceisio ffurfioli ac uno'r dull a ddefnyddir i gyfathrebu o fewn Awdurdodau Llywodraeth Leol Cymru. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, maent wedi cyd-gynhyrchu:

- Datganiadau Buddion Blynyddol Unffurf i aelodau gweithredol a gohiriedig
- Canllaw byr i'r cynllun ar gyfer pob aelod
- Taflen wybodaeth pensiynau ar amrywiol bynciau a ellir ei dosbarthu i aelodau

Yn ogystal, mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cyfathrebu â: -

**Actwari'r Cynllun** – o ran y lefelau Cyllido a'r Prisiad Pob Tair Blynedd, SAA17 a'r holl faterion Cyllido.

**Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi** – o ran ffigyrau ar gyfer contractio allan a materion treth i aelodau'r Cynllun.



**Darparwyr Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY)** – Mae swyddogion y Gronfa Bensiwn mewn cyswllt rheolaidd â'i ddarparwyr CGY o ran cronfeydd aelodau unigol y Cynllun.

**Pwyllgor Pensiynau** – o ran adrodd ar weinyddu, rheoliadau a materion buddsoddi er mwyn cynghori a ffurfio polisi.

**Rheolwyr y Gronfa** – o ran buddsoddiadau a pherfformiad y Gronfa.

**PPLIL**– Mae'r Pwyllgor Pensiynau Llywodraeth Leol (adain pensiynau'r Cyflogwyr Llywodraeth Leol) yn darparu cyngor technegol i Awdurdodau Gweinyddu Cronfeydd Pensiwn ac i gyflogwyr ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL)

## **Cyfathrebu o fewn yr Uned Bensiynau**

Mae cyfathrebu'n effeithiol yn rhan bwysig o weithrediadau dyddiol, ac mae polisi drws agored yn ei le.

### **Diweddariadau i Staff**

E-bost: E-bost yw'r dull cyfathrebu a ffafrir ar gyfer negeseuon cyffredinol o fewn yr uned. Ble y bo'n angenrheidiol, bydd hyn yn cael ei ddilyn gan hyfforddiant unigol neu hyfforddiant tîm.

Y rhyngrwyd – Mae hwn ar gael i staff unrhyw bryd fel bod modd iddynt gael mynediad at wybodaeth CPLIL yn brydlon.

Hyfforddiant mewnol – Mae hyfforddiant cyffredinol a phenodol ar pensiynau ar faterion sy'n codi o ran newidiadau rheoleiddio neu weithdrefnol yn cael ei ddarparu yn ôl yr angen, fel rhan o ymrwymiad yr Uned i welliant parhaus.

### **Cyrsiau Allanol**

Mae cyflawni cymwysterau proffesiynol yn bwysig i wella gwybodaeth a hyder y tîm o ran eu cyfathrebu gyda budd-ddeiliaid. Felly, anogir pob aelod o staff, presennol a newydd, i astudio am gymwysterau pensiynau Llywodraeth Leol priodol o fewn yr *Institute of Payroll Professionals (IPP)*, ynghyd â chymryd rhan yn y cyrsiau hyfforddiant sy'n cael eu cynnal gan CPLIL a Heywood.

### **Cyfarfodydd Adain**

Mae pob aelod o'r Uned Bensiynau yn mynychu cyfarfodydd adain rheolaidd sy'n cael eu cynnal pob deufis, er mwyn trafod unrhyw ddatblygiadau mewn deddfwriaeth, ynghyd ag unrhyw newidiadau gweithredol neu weithdrefnol. Golyga hyn fod pob aelod o staff yn ymwneud â phenderfyniadau sy'n effeithio ar yr Uned gyfan.

Trafodwyd y Cynllun Gweithredol, yn cynnwys y Dangosyddion Perfformiad Allweddol, yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod aelodau'r tîm yn ymwybodol o'u targedau ac yn eu bodloni.

### **Monitro parhaus a gwerthuso**

Mae safonau'r gwasanaeth yn cael eu monitro'n rheolaidd, er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran y Cynllun. Pob blwyddyn, mae pob aelod o staff yn derbyn gwerthusiad unigol o ran eu datblygiad personol. Os oes angen, gellir teilwra hyfforddiant mwy manwl ar faterion penodol fel ei fod yn siwtio aelodau'r Uned. Yn ddyddiol, anogir cyfathrebu rhwng aelodau staff a Rheolwyr yr adain ar unrhyw faterion sy'n codi. Mae system llif gwaith awtomataidd yn cael ei gweithredu er mwyn cynorthwyo'r broses monitro, ac er mwyn arwain swyddogion gyda thasgau unigol.

## 10.4 Datganiad Polisi Llywodraethu

Mae'r Datganiad yma yn gosod allan sut dirprwyir materion mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Gwynedd, ynghyd â'r amodau gorchwyl, fframwaith a threfn weithredol y dirprwyo hyn.

Cyngor Gwynedd ydi'r Awdurdod Weinyddol ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd. Mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r gwahanol bwerau a dyletswyddau sy'n ymwneud a gweinyddu'r Gronfa i'r Pwyllgor Pensiynau.

### Pwyllgor Pensiynau

Mae gan y Pwyllgor 9 aelod, ple mae 7 ohonynt yn aelodau etholedig o Gyngor Gwynedd, 1 aelod o Gyngor Môn a 1 aelod o Gyngor Conwy, i gyd gyda hawl pleidleisio. Ar hyn o bryd, nid oes cynrychiolaeth o aelodau'r Gronfa (staff) ar y pwyllgor.

Prif gyfrifoldebau'r Pwyllgor ydi:

1. Pennu strategaeth buddsoddi asedau'r Gronfa Bensiwn;
2. Penodi a therfynu apwyntiad rheolwyr buddsoddi ac ymgynghorwyr y Gronfa Bensiwn, ac adolygu'r perfformiad o ran buddsoddi;
3. Sicrhau bod trefniadau diogel ac effeithlon mewn llaw ar gyfer prynu, gwerthu a gofalu am fuddsoddiadau'r Cyngor;
4. Gwneud rhai penderfyniadau yng nghyswllt gweinyddu pensiynau.

Fel pwyllgor cyfansoddiadol priodol o Gyngor Gwynedd, llywodraethir gweithrediad y materion a ddirprwyir i'r Pwyllgor gan gyfansoddiad Cyngor Gwynedd, ac yn arbennig felly, Rhannau 4 a 5 sydd yn llywodraethu rheolau'r dulliau a'r Codau a'r Protocolau sydd i'w dilyn, gan aelodau'r Pwyllgor Pensiynau a'r swyddogion.

Yn ogystal, cyfrifoldeb y Pwyllgor Pensiynau yw sicrhau fod adroddiad blynyddol ar faterion Pensiynau yn cael ei baratoi a'i gyflwyno mewn cyfarfod blynyddol o gyflogwyr a chynrychiolwyr staff, ble y gall y naill neu'r llall fel ei gilydd, gwestiynu'r Pwyllgor, eu swyddogion, ymgynghorydd buddsoddi neu reolwyr cronfeydd ar faterion yn ymwneud â pherfformiad y Gronfa, gweinyddiaeth a/neu ar faterion pensiynau yn gyffredinol.

Er mwyn sicrhau adolygiad digonol o berfformiad y buddsoddiadau, mae ymgynghorydd buddsoddi'r pwyllgor a phob rheolwr Cronfa yn darparu adroddiad monitro chwarterol i'r Pwyllgor. Yn ogystal, fe gynhelir cyfarfodydd anffurfiol â'r ymgynghorydd buddsoddi a'r rheolwr buddsoddi fel y gellir herio perfformiad a datrys unrhyw achos sydd yn codi ei ben.

Mae gan unrhyw gyflogwr sydd ddim yn aelodau o'r Pwyllgor Pensiynau gyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau'r Pwyllgor Pensiynau drwy gyfres o gyfarfodydd anffurfiol sy'n cael eu cynnal o bryd i'w gilydd gyda'r gwahanol gategoriau o gyflogwyr.

Rhoir ystyriaeth i unrhyw fater sydd angen ystyriaeth ffurfiol mewn cyfarfod priodol o'r Pwyllgor, fel bo dinasyddion yn medru ymarfer eu hawl i fynychu unrhyw gyfarfod o bwyllgorau'r Cyngor.

## **Prif Swyddog Cyllid**

Mae erthygl 12 o gyfansoddiad y Cyngor yn amodi fod gan y Pennaeth Cyllid (fel Prif Swyddog Cyllid y Cyngor) gyfrifoldeb dros strategaeth gyllidol ac felly ei fod yn gyfrifol tros gynghori'r Pwyllgor Pensiynau ar strategaethau cyllid priodol ar gyfer y Gronfa Bensiwn, ac am sicrhau fod arweiniad arbenigol priodol yn cael ei ddarparu.

Mae Erthygl 12 hefyd yn amodi bydd y Pennaeth Cyllid yn adrodd i'r Cyngor ac i archwiliwr allanol y Cyngor os yw'n ystyried fod unrhyw gynnig, penderfyniad neu weithrediad yn mynd i achosi unrhyw wariant anghyfreithlon, neu yn debyg o achosi colled neu ddiffyg, neu os yw'r Cyngor yn mynd i mewn i gyfrif yn anghyfreithlon.

Dan yr erthygl yma hefyd, mae gan y Pennaeth Cyllid gyfrifoldeb dros weinyddu'r Gronfa Bensiwn a'i weithrediadau cyllidol yn briodol.

## **Swyddog Monitro**

Mae Erthygl 12 hefyd yn amodi fod y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol (fel Swyddog Monitro'r Cyngor) yn adrodd i'r Cyngor os ydyw yn cysidro fod unrhyw gynnig, penderfyniad neu esgeulustra yn mynd i achosi anghyfreithlondeb neu os yw unrhyw benderfyniad yn mynd i achosi cam weinyddiaeth. Bydd adroddiad o'r fath yn achosi atal y cynnig neu'r penderfyniad rhag cael ei weithredu hyd nes bydd yr adroddiad wedi cael ei ystyried.

## 10.5 Datganiad Cydymffurfriad â'r Drefn Lywodraethol

### Egwyddor A – Strwythur

a)	<b>Mae rheolaeth dros weinyddu buddion â rheolaeth strategol asedau'r Gronfa yn disgyn ar y prif bwyllgor a sefydlwyd gan y cyngor penodedig.</b>
	Mae Cyngor Gwynedd yn cydymffurfio'n llawn gyda'r egwyddor yma.
b)	<b>Bod cynrychiolwyr o gyflogwyr sy'n rhan o'r CPLIL, o'r cyrff a ganiateir ag aelodau'r cynllun (gan gynnwys pensiynwyr ac aelodau gohiriedig) yn aelodau ar unai'r prif neu'r ail bwyllgor, a sefydlwyd i ategu gwaith y prif bwyllgor.</b>
	Mae Cronfa Gwynedd yn rhannol gydymffurfio gyda'r egwyddor yma. Mae cynrychiolwyr o ddau gyflogwr sy'n rhan o'r CPLIL, yn aelodau ar y prif bwyllgor. Ar hyn o bryd, er mwyn ceisio cadw pwyllgor cymharol fychan i adolygu perfformiad y rheolwyr mewn modd effeithiol, does dim cynrychiolaeth o'r cyrff a ganiateir nag aelodau'r cynllun ar y pwyllgor. Gan fod yr addewid o bensiwn yn cael ei ddiffinio mewn deddfwriaeth ar gyfer aelodau'r cynllun, hyd yn hyn ni ystyrir bod gweithrediad y Pwyllgor yn gwrthdaro gyda'u buddiannau, felly nid ydym wedi cynnig cynrychiolaeth iddynt. Mae gan bob cyflogwr gyfle i ddylanwadu penderfyniadau drwy gyfres o gyfarfodydd cyflogwyr anffurfiol.
c)	<b>Ble mae ail bwyllgor neu banel wedi ei sefydlu, mae'r strwythur yn sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y ddau lefel.</b>
	Does dim ail bwyllgor na phanel yn bodoli, ond bydd y cyfarfodydd anffurfiol yn sicrhau cyfathrebu effeithiol.
d)	<b>Ble mae ail bwyllgor neu banel wedi ei sefydlu, bod o leiaf un sedd ar y prif bwyllgor wedi ei glustnodi ar gyfer aelod o'r ail bwyllgor neu banel.</b>
	Does dim ail bwyllgor na phanel yn bodoli.

## Egwyddor B – Cynrychiolaeth

a)	<p><b>Dylai pob rhanddeiliad allweddol gael cynnig y cyfle i gael eu cynrychioli ar strwythur y prif neu'r ail bwyllgor. Mae'r rhain yn cynnwys :-</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><b>i) awdurdodau cyflogi (gan gynnwys cyflogwyr di-gynllun, ee cyrff â ganiateir;</b></li> <li><b>ii) aelodau'r cynllun (gan gynnwys aelodau gohiriedig â phensiynwyr y cynllun);</b></li> <li><b>iii) lle'n berthnasol, sylwedyddion proffesiynol annibynnol; ac</b></li> <li><b>iv) ymgynghorwyr arbenigol (ar sail ad-hoc).</b></li> </ul>
	<p>Cydymffurfio'n rhannol. Mae gennym gynrychiolaeth o awdurdodau cyflogi CPLIL ar y prif bwyllgor, a hefyd mae gennym ymgynghorydd arbenigol annibynnol (ar sail ad-hoc). Fodd bynnag nid oes aelodaeth wedi cael ei roi i aelodau'r cynllun/cyrff ymrwymedig nac i sylwedyddion proffesiynol annibynnol.</p>
b)	<p><b>Ble mae aelodau lleyg yn eistedd ar y prif neu'r ail bwyllgor, eu bod yn cael eu trin yn gyfartal yn nhermau cael gweld papurau, cael mynd i gyfarfodydd, cael hyfforddiant ac yn cael cyfle i gyfrannu'n llawn yn y broses penderfynu, gyda neu heb hawl pleidleisio.</b></p>
	<p>Does dim aelodau lleyg yn eistedd ar y Pwyllgor (gweler Rhan A (b) uchod).</p>

## Egwyddor C – Dewis Aelodau Lleyg a'u Swyddogaeth

a)	<p><b>Bod aelodau'r pwyllgor neu banel yn hollol ymwybodol o'r statws, rôl a'r swyddogaeth y mae disgwyl iddynt gyflawni ar unai'r prif neu ail bwyllgor.</b></p>
	<p>Cydymffurfio'n llawn. Mae cyfrifoldebau'r aelodau, fel a'u nodir yn y Datganiad Polisi Llywodraethu, yn cael ei wneud yn glir iddynt.</p>
b)	<p><b>Ar ddechrau unrhyw gyfarfod, gwahoddir aelodau'r pwyllgor i ddatgan unrhyw fuddiant cyllidol neu ariannol sy'n ymwneud â materion penodol ar y rhaglen.</b></p>
	<p>Mae Cyngor Gwynedd yn cydymffurfio'n llawn gyda'r egwyddor yma.</p>

## Egwyddor D – Pleidleisio

a)	<b>Mae polisi awdurdodau gweinyddol unigol ar hawliau pleidleisio yn glir a thryloyw, gan gynnwys y cyfiawnhad dros beidio ag ymestyn hawliau pleidleisio i bob corff neu grwp sy'n cael ei gynrychioli ar brif bwyllgorau'r CPLIL.</b>
	Mae gan y Pwyllgor Pensiynau 9 aelod, i gyd gyda hawl pleidleisio, ple mae 7 ohonynt yn aelodau etholedig o Gyngor Gwynedd (gyda hawl pleidleisio) ag 1 cynrychiolydd yr un o ddau gyflogwr sy'n rhan o'r CPLIL.

## Egwyddor E – Hyfforddiant/Amser i ffwrdd/Treuliau

a)	<b>Mewn perthynas â'r ffordd y mae penderfyniadau statudol a pherthynol yn cael eu cymryd gan yr awdurdod gweinyddol, bod polisi clir ar hyfforddiant, amser i ffwrdd o'r gwaith ac ad-dalu treuliau ar gyfer aelodau sydd ynghlwm yn y broses penderfynu.</b>
	Cydymffurfio'n llawn – mae gan bob aelod yr un cyfle a'i gilydd i dderbyn cefnogaeth hyfforddi a thelir y treuliau priodol i bawb.
b)	<b>Ble mae polisi o'r fath yn bodoli, ei fod yn llawn berthnasol i holl aelodau'r pwyllgorau, is-bwyllgorau, paneli ymgynghorol neu unrhyw ffurf arall o fforwm eilradd.</b>
	Mae'r polisi yn berthnasol i holl aelodau'r Pwyllgor.
c)	<b>Bod yr awdurdod gweinyddol yn ystyried mabwysiadu cynlluniau hyfforddi blynyddol i aelodau'r pwyllgor a chadw cofnod o bob hyfforddiant o'r fath y maent yn ei fynychu.</b>
	Mae Cyngor Gwynedd yn rhannol gydymffurfio gyda'r egwyddor yma gan ei fod yn cofnodi holl hyfforddiant y pwyllgor ac yn ystyried yr anghenion hynny o bryd i'w gilydd ond nid oes yna gynllun hyfforddi blynyddol.

## Egwyddor F – Cyfarfodydd (Amllder/cworwm)

a)	<b>Bod prif bwyllgor neu bwyllgorau'r awdurdod gweinyddol yn cyfarfod o leiaf bob chwarter.</b>
	Cydymffurfio'n llawn.
b)	<b>Bod ail bwyllgor neu banel yr awdurdod gweinyddol yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn ac wedi eu cydamseru gyda'r dyddiadau y mae'r prif bwyllgor yn cyfarfod.</b>
	Does dim ail bwyllgor na phanel yn bodoli - ond mae'r cyfarfodydd cyflogwr anffurfiol yn gydamseredig gyda dyddiadau'r prif bwyllgor..
c)	<b>Bod awdurdod gweinyddol sydd ddim yn cynnwys aelodau lleig yn eu trefniadau llywodraethu ffurfiol, yn trefnu fforwm y tu allan i'r trefniadau yma er mwyn i fuddiannau'r prif randdeiliaid gael eu cynrychioli.</b>
	Pob mis Gorffennaf, bydd Cyfarfod Blyneddol o'r Gronfa Bensiwn yn cael ei gynnal. Mae cyflogwyr a chynrychiolwyr y gweithwyr yn cael eu gwahodd i'r cyfarfod, a gallent gwestiyu'r Pwyllgor, swyddogion yr awdurdod gweinyddol, yr ymgynghorwyr buddsoddi neu reolwyr y Gronfa ar faterion sy'n ymwneud â pherfformiad y Gronfa, gweinyddiad y Gronfa â/neu faterion pensiwn yn gyffredinol.

## Egwyddor G – Mynediad

a)	<b>Yn amodol ar unrhyw reol yng nghyfansoddiad y cyngor, bod gan holl aelodau'r prif a'r ail bwyllgor neu banel, yr un mynediad at bapurau pwyllgor, dogfennau â chyngor sydd yn cael eu hystyried mewn cyfarfodydd o'r prif bwyllgor.</b>
	Mae Cyngor Gwynedd yn cydymffurfio'n llawn gyda'r egwyddor yma.

## Egwyddor H – Sgôp

a)	<b>Bod awdurdodau gweinyddol wedi cymryd camau i ddod a materion eang y cynllun o fewn eu trefniadau llywodraethu.</b>
	Mae'r Pwyllgor Pensiynau yn ystyried yr holl faterion sydd yn ymwneud â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## Egwyddor I - Cyhoeddusrwydd

a)	<b>Bod awdurdodau gweinyddol yn cyhoeddi manylion eu trefniadau llywodraethu mewn modd y gall rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y ffordd mae'r cynllun yn cael ei reoli, ddatgan eu diddordeb mewn bod yn rhan o'r trefniadau hynny.</b>
	Mae'r Datganiad Polisi Llywodraethu ar gael yn adroddiad blynyddol y Gronfa Bensiwn.